

**‘Beth yw psychodrama? Byw yn y blydi cwm ’ma’:
Trosglwyddo Realiti Ieithyddol a Diwylliannol Cymoedd De Cymru
i’r Llwyfan**

Lisa Caryn Sheppard

Thesis a Phortffolio Creadigol wedi’u cyflwyno ar gyfer gradd
Meistr mewn Athroniaeth

Prifysgol Caerdydd

Mawrth 2013

Crynodeb

Mae'r gwaith hwn wedi'i rannu'n ddau - mae yma bortffolio o ddramâu a ysgrifennwyd gennyf ynghyd â thraethawd beirniadol sy'n gosod y dramâu hynny yn eu cyd-destun llenyddol. Prif ffocws y dramâu yw'r portread o'r gymdeithas ddwyieithog yng Nghymru, cymdeithas sy'n siarad Cymraeg a Saesneg yn feunyddiol. Mae'r profiad y mae'r dramâu'n ei adlewyrchu wedi'i seilio ar fy mhrofiad i fel unigolyn a fagwyd ar aelwyd Saesneg ei hiaith ond a fynychodd ysgol Gymraeg yng Nghwm Tawe, a'r brif thema sy'n rhedeg trwy'r gwaith yw'r hyn sydd gan y cymunedau Cymraeg a Saesneg eu hiaith yng Nghymru yn gyffredin. Mae'r traethawd sy'n cyd-fynd â'r dramâu yn trafod sut yr es ati i lunio'r dramâu gan esbonio pam y dewisais ddefnyddio themâu, ieithweddau ac arddulliau arbennig. Mae'r traethawd, felly, yn trafod pa effaith y mae'r dewisiadau o safbwynt themâu, iaith ac arddull wedi'u cael ar sut y mae fy nramâu yn adlewyrchu'r gymuned ddwyieithog yng Nghymru.

Cynnwys

Diolchiadau tudalen ii

Rhan 1 – Traethawd Beirniadol

Cyflwyniad	1
Pennod 1: Themâu	4
Pennod 2: Ieithweddau	13
Pennod 3: Ffurf, Arddull a Pherfformio	31
Casgliad	42

Rhan 2 – Dramâu

<i>Hawdd Cynnau Tân</i>	44
<i>Afalau Surion</i>	98
<i>Colli Iaith a Cholli Urddas</i>	115
Llyfryddiaeth	150

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r sawl sydd wedi cynnig eu sylwadau a'u hawgrymiadau gwerthfawr wrth imi fynd ati i lunio'r gwaith hwn. Diolchaf yn bennaf i Dr Siwan Rosser a'r Athro Sioned Davies am eu cyfarwyddyd adeiladol, eu sylwadau craff ac am y gefnogaeth ddi-ffael a roesant imi ym mhob agwedd o'r gwaith. Rhaid diolch iddynt hefyd am eu hamynedd wrth fynd ati i ddarllen sawl drafft o'r gwaith sy'n dilyn.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r cyfarwyddwyr creadigol a fu'n fy nghynorthwyo wrth lunio'r dramâu. Mae arnaf ddyled fawr i Siân Summers, Manon Eames a Gareth Miles am eu hamser ac am ysgogi'r syniadau a ddatblygodd yn ddramâu gorffenedig. Roedd hi'n ffrindiau cael gweithio gyda'r dramodwyr hyn a dysgu oddi wrth eu profiadau. Diolch hefyd i Sherman Cymru am gynnig lle imi ar gwrs datblygu ar gyfer ysgrifenydd newydd a rhoi'r cyfle imi weithio gyda dramodwyr a chyfarwyddwyr a dysgu mwy am grefft y dramodydd.

Cydnabyddaf y nawdd hael a gefais oddi wrth Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ac Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a'm galluogodd i gwblhau'r radd hon.

Ni allaf anghofio chwaith diolch i'm ffrindiau a'm teulu am eu cefnogaeth frwd ac am ddangos cymaint o ddiddordeb yn y gwaith. Diolch i'm ffrindiau am ymuno â mi ar sawl taith i'r theatr. Roedd y nosweithiau a dreuliais yn 'gwneud ymchwil' yn eich cwmni yn fwy pleserus o lawer na'r oriau hir a dreuliais wrth fy nesg! Diolch i Mam a Dad am eu gofal ac am ysgogi, yn anuniongyrchol, y diddordeb sydd gennyf yn y berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg trwy fy anfon i ysgol Gymraeg yn y lle cyntaf. Ac yn olaf, diolch i Dan am ei ffydd ynof ac am wneud imi wenu er gwaetha'r baich gwaith.

Cyflwyniad

Bydd yr ymdriniaeth hon yn ystyried i ba raddau y mae'r dramâu a ysgrifennais ar gyfer y portffolio hwn yn adlewyrchu realiti ieithyddol a diwylliannol y Gymru gyfoes ar y llwyfan. Mae'r realiti a gynrychiolir yma wedi'i wreiddio yn fy mhrofiadau i o'r Gymru Gymraeg, fel un a fagwyd ar aelwyd Saesneg ei hiaith ond a fynychodd ysgol Gymraeg yng Nghwm Tawe. Mae niferoedd cynyddol o unigolion yn rhannu'r profiad hwn wrth i fwy o bobl fynychu ysgolion Cymraeg yn ardal y Cymoedd. O'm profiad i, yn y gymuned ieithyddol hon mae'r berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn un ddifyr a chymhleth gyda phawb bron yn defnyddio'r ddwy iaith yn feunyddiol. Rwyf i, er enghraifft, yn teimlo bellach bod y Gymraeg a'r Saesneg ill dwy'n ieithoedd cyntaf imi, ac roeddwn am i'r dramâu sydd yn y portffolio bortreadu'r berthynas hon a sut y datblygodd hi yn f'achos i. Gwn na fydd y profiad hwn yn un a fydd yn gyffredin i bob Cymro neu Gymraes Gymraeg, neu hyd yn oed i bawb sy'n rhannu'r un cefndir ieithyddol â mi. Cydnabyddaf hefyd na fydd y dramâu yn cynrychioli'r amrediad eang o wahanol ddiwylliannau sy'n bodoli yng Nghymru bellach. Rwyf yn ymwybodol nad y Gymraeg a'r Saesneg yw'r unig ieithoedd sy'n cael eu siarad yng Nghymru – mae sawl iaith arall megis Urdu, Mandarin a Phwyleg i'w clywed yn feunyddiol, yn enwedig mewn trefi a dinasoedd megis Caerdydd neu Abertawe. Ond at bwrpas y traethawd hwn, fy mhrofiad i o'r berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg fydd dan sylw. Trwy gynnig sylwebaeth ar y broses greadigol, y gobaith yw y bydd yr ymdriniaeth hon yn esbonio sut y mae'r dramâu arbennig hyn yn darlunio'r gymuned ieithyddol yr wyf yn perthyn iddi, a'r profiadau diwylliannol y mae aelodau'r gymuned honno yn eu rhannu.

Ers dwy ganrif a mwy, mae'r ddrama Gymraeg wedi darlunio sut brofiad yw hi i berthyn i gymuned benodol ac wedi arddel gwerthoedd y gymuned y mae'n perthyn iddi. Gwelwn hynny yn Theatr yr Anterliwt, drama werin y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'r Mudiad Drama y bu ei dramâu'n boblogaidd o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at ganol y ganrif ddiwethaf. Yn ei gyfrol ar y Mudiad Drama, daw Ioan Williams i'r casgliad bod y dramâu a gynhyrchwyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod yn perthyn yn agos i'w cymunedau lleol. Dadleua:

Fel Theatr yr Anterliwt o'i blaen, y mae theatr y Mudiad Drama'n hynod oherwydd agosatrwydd y ddwy blaid honno [y perfformwyr a'r gynulleidfa] ar hyd ei hanes [...] fe wnaeth barhau'n fudiad a oedd yn perthyn yn agos i'r cymunedau a'i cynhaliai (Williams, 2006, t. 7).

Oherwydd eu perthynas agos â'u cymunedau lleol, roedd Theatr yr Anterliwt a'r Mudiad Drama yn adlewyrchu sut brofiad oedd byw yn y cymunedau hynny. Hefyd, er iddo ddisgrifio'r cwmnïau theatr a ffurfiwyd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif fel “theatr genedlaethol” wasgaredig newydd’ (Owen, 2003, t. 6), cyfeddyf Roger Owen yn ei drafodaeth ar y theatr Gymraeg o 1979 i 1997 eu bod hwythau yn aml yn perthyn yn agos i un gymuned neu ardal yn benodol. Er enghraifft, dadleua ‘mai at wasanaeth y gynulleidfa yn ei fro ei hun’ yr oedd Theatr Bara Caws yn gweithredu (Owen, 2003, t. 9). Roeddwn innau am ysgrifennu dramâu a fyddai'n perthyn i'm cymuned ieithyddol i er mwyn archwilio'r berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn y gymuned honno. Ond yn ogystal ag adlewyrchu fy nghymuned ieithyddol a'r berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, y gobaith yw y bydd y dramâu yn cyfathrebu â chynulleidfa oedd ehangach – cynulleidfa sy'n dod o gefndir mwy uniaith Gymraeg er enghraifft, neu bobl o gefndir tebyg i mi ond sy'n siarad llai o Gymraeg neu'n ymwneud llai â'r diwylliant Cymraeg erbyn hyn. Wedi'r cyfan, mae gan y ddeialog rhwng y Gymraeg a'r Saesneg bwysigrwydd sy'n ymestyn y tu hwnt i fy nghymuned ieithyddol benodol i yn unig. Fel y gwelir o'r penodau sy'n dilyn, mae yna rai sy'n gweld y theatr yng Nghymru fel man lle y mae tensiynau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu hamlygu. Ond roeddwn yn awyddus i'm dramâu archwilio'r berthynas a'r ddeialog sy'n digwydd rhwng y ddwy iaith a'u diwylliannau er gwaetha'r tensiynau sydd yn anochel yn bodoli rhyngddynt, fel y mae ambell i ddramodydd neu lenor cyfoes yn ei ddangos.

Mae tair drama yn y portffolio a phob un mewn gwahanol ffyrdd yn dehongli'r profiad o fyw mewn cymdeithas ddwyieithog. Mae'r ddrama gyntaf, *Hawdd Cynnau Tân*, wedi'i lleoli ar faes y gad yn Affganistan ac yn adrodd hanes pedwar o Gymry Cymraeg, sef dau filwr, un meddyg ac un nyrs. Mae ganddynt oll gefndiroedd gwahanol a deuant o ardaloedd gwahanol o Gymru hefyd. Er bod y ddrama yn trafod rhyfel a'i effaith ar un milwr yn bennaf, mae cefndiroedd Cymreig amrywiol y pedwar cymeriad yn cynnig trafodaeth ar natur ddwyieithog y Gymru gyfoes. Mae'r ail ddrama, *Afalau Surion*, yn addasiad o'r stori fer 'Fresh Apples' gan

Rachel Trezise (2005, tt. 1-11). Mae f'addasiad yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg er mwyn adlewyrchu dwyieithrwydd Cymoedd y De lle y lleolir y stori. Wrth i Matt, y prif gymeriad, bendilio rhwng diwylliannau'r ddwy iaith yn y cwm, cawn weld yr hyn sy'n debyg rhwng y ddwy gymuned ieithyddol. Mae'r drydedd ddrama, *Colli Iaith a Cholli Urddas*, yn dilyn hanes dau Gymro wrth iddynt gyfarfod mewn amgueddfa. Mae Huw yn hanesydd sydd wedi hyrwyddo hanes a diwylliant Cymru gydol ei oes, ac mae Gavin yn siaradwr Cymraeg ail iaith o'r Cymoedd sydd wedi colli'i gof a'i allu i siarad Saesneg oherwydd damwain car. Wrth i'r Saesneg ddod yn ôl i wefusau Gavin, cawn ystyried pwysigrwydd y Saesneg i'r hunaniaeth Gymraeg fodern, a chwestiynu pa mor bwysig ydyw i ddyfodol Cymru i gyfuno traddodiadau a diwylliannau'r Gymraeg a'r Saesneg.

Er mwyn dangos sut y mae'r dramâu yn mynd ati i ddehongli ac adlewyrchu realiti ieithyddol a diwylliannol y Gymru gyfoes, bydd y traethawd hwn yn gosod fy nramâu yn eu cyd-destun llenyddol gan eu cymharu â dramâu eraill sy'n trafod pynciau tebyg. Bydd y traethawd hefyd yn ystyried yn feirniadol fy newisiadau o safbwynt themâu, iaith ac arddull gan esbonio effaith y dewisiadau hyn ar y portread o fy nghymuned ieithyddol yn y dramâu.

Pennod 1: Themâu

Wrth fynd ati i lunio dramâu y portffolio hwn, a dehongli realiti ieithyddol a diwylliannol fy nghymuned mewn modd a fyddai'n gwneud y gwaith yn berthnasol i'r Gymru gyfoes, roeddwn am sicrhau bod fy ngwaith yn cysylltu â gweithiau llenyddol eraill a'u portreadau hwy o Gymru. Byddai hynny'n fodd i ddangos sut mae fy ngwaith innau yn ystyried rôl y Gymraeg a'r Saesneg yn y Gymru gyfoes o'r newydd. Er mwyn gwneud hynny, ceisiais ymdrin â themâu sydd yn gyffredin mewn llenyddiaeth o Gymru, a bydd y bennod hon yn esbonio sut y bûm yn trafod y themâu hynny yn fy nramâu. Bydd y pwyslais yn y bennod hon ar yr hyn y mae cymunedau Cymraeg a chymunedau Saesneg eu hiaith yng Nghymru yn ei rannu. Yn aml mewn llenyddiaeth o Gymru, gwelwn wahaniaethau rhwng y cymunedau hyn. Ond, fel y crybwyllid eisoes, un o'm prif amcanion wrth lunio'r gwaith hwn oedd ystyried safbwynt y gymuned ddwyieithog, lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn rhannu tir. Bydd y bennod hon, felly, yn trafod sut y gwnaethpwyd hynny gennyf yn thematig yn fy nramâu.

Trwy edrych ar Gymreictod o safbwynt y gymuned ddwyieithog, gobeithiaf y bydd fy nramâu yn cynnig golwg newydd ar y cymunedau Cymraeg a Saesneg eu hiaith sydd ill dwy'n bodoli yng Nghymru. Mae rhai yn dadlau nad yw diwylliant neu lenyddiaeth Gymraeg yn gwneud hynny'n ddigonol. Dywed David Adams, er enghraifft:

Despite the small audience Welsh-language theatre is clearly lively and popular – but also sometimes exclusive, with no desire to share its content with non-Welsh speakers. I have been at the theatre in Wales when I have very much felt an unwelcome outsider [...] (Adams, 1996, tt. 14-15).

Mae Adams, felly, yn ystyried y theatr Gymraeg fel rhywbeth caeëdig a gynhyrchwyd ar gyfer y Cymry Cymraeg yn unig, gan adlewyrchu barn Nadine Holdsworth am sut mae dramâu sy'n perthyn i ddiwylliant penodol yn dibynnu ar 'essentialist and exclusionary notions of identity' (Holdsworth, 2010, t. 32). Ond nid oes rhaid ond edrych ar gynyrchiadau diweddar y theatr Gymraeg i wrthbrofi'i ddadl ef. Mae'r ddrama *Llwyth* gan Dafydd James (2010), a gychwynnodd ar ei hail daith yn Hydref 2011, wedi llwyddo i drosgynnu rhwystrau ieithyddol trwy ddefnyddio uwchdeitlau Saesneg. Ac, yn wir, mae'r ddrama wedi derbyn clod gan gynulleidfaoedd yn

Llundain a Gŵyl Ymylol Caeredin. Dywed Roger Owen, wrth adolygu perfformiad o'r ddrama yng Nghaerdydd, bod y '[g]ynulleidfa - gymysg o ran iaith - [...] yn morio chwerthin ac yn ysgytwol ddistaw yn eu tro, wedi'u llwyr feddiannu gan y profiad, hyd yn oed os oedd canran sylweddol ohonynt yn dibynnu ar yr uwchdeitlau i'w tywys drwy'r sgrïpt' (Owen, 2011, tt. 36-37). Mae'r theatr Gymraeg, felly, yn gyfrwng a chanddo'r potensial i gynrychioli neu i gyfathrebu â Chymry Cymraeg a'r di-Gymraeg ar yr un pryd.

Felly, yn hytrach na gweld y theatr Gymraeg fel man lle mae'r hollt rhwng y ddwy gymuned ieithyddol yn amlwg, fel y gwna David Adams, roeddwn am i'm dramâu ffocysu ar yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt. Dyma, felly, yw un o brif themâu y portffolio. Ynghlwm wrth hynny y mae fy mhortread o'r gymuned ddwyieithog, sydd yn gymysgfa o ddylanwadau'r ddwy iaith, ac sydd ar hyn o bryd yn destun llawer o sylw mewn llenyddiaeth Gymraeg gydag awduron fel Catrin Dafydd a Llwyd Owen yn defnyddio'r Saesneg yn aml yn eu gwaith. Wrth ystyried dwyieithrwydd, daeth dwy thema arall i'm meddwl, sef themâu ieuenctid a hanes. Gan fy mod am roi llais i'r to ifanc o Gymry dwyieithog yn fy ngwaith, a chan ystyried fy mhrofiadau personol fel person ifanc sy'n rhan o'r gymuned honno, roedd thema ieuenctid yn bwysig wrth ysgrifennu. A chan fy mod am gynrychioli cymuned ddwyieithog sydd wedi dod dan ddylanwad dau ddiwylliant sydd yn aml yn dehongli hanes Cymru mewn ffyrdd gwahanol, ystyriais fod thema hanes, a'n perthynas ni â hanes ein gwlad, yn bwysig hefyd.

Mae'r ddrama gyntaf yn y portffolio, *Hawdd Cynnau Tân*, yn trafod rhai o'r themâu hyn ond ar yr un pryd yn trafod themâu mwy eang megis rhyfel a chariad. Lleolir y ddrama ar faes y gad yn Affganistan. Mae'r prif gymeriad, Ieuan, yn genedlaetholwr sy'n cyfaddef i'w gyd-filwr, Steve, ei fod yn dechrau ail-ystyried ei yrfa fel milwr. Mae'n gobeithio ail-ddechrau'i berthynas gyda Delyth, nyrs yn y fyddin, ond y mae hithau bellach mewn perthynas ag Arshad sydd yn feddyg yn y fyddin. Ni all Ieuan ymdopi â'r siomedigaeth hon ac mae hynny, ynghyd â'i amgylchiadau anodd, yn peri iddi droi'n hunan-fomiwr gan ladd ei hun a Steve. Er nad Cymreictod yw prif ffocws y ddrama hon, mae yna elfennau ohoni sy'n trafod y berthynas rhwng gwahanol gymunedau o Gymry a gwahanol ddehongliadau o Gymreictod. Mae Ieuan, er enghraifft, yn meddwl mai ei fath ef o Gymreictod sydd

orau, ac yn rhagfarnllyd tuag at Gymry o gefndir gwahanol iddo, megis Steve (gweler tt. 48-49) ac Arshad (gweler t. 79). Ond mae gan Delyth, Arshad a Steve fydolwg wahanol. Maent yn ffrindiau neu'n gariadon er gwaetha'r ffaith eu bod oll yn perthyn i wahanol gefndiroedd. Yng Ngolygfa 4, mae'r tri yn cellweirio ac yn chwerthin â'i gilydd (tt. 85-86), ac mae'r cyfeillgarwch yn fodd iddynt anghofio am ennyd y sefyllfa anodd y maent yn ei hwynebu ar faes y gad. Maent yn rhannu rhywbeth, felly, ac yn trosgynnu'r gwahaniaethau sydd rhyngddynt. Ac mae hyd yn oed Ieuan yn llwyddo i weld beth y mae ef a'i gyd-Gymry'n ei rannu. Dywed wrth Steve:

[...] Ond o ddifri, 'wan, meddylia amdano fo – ti'm yn medru cael swydd heblaw am r'armi? Be' 'di'r rheswm am hynny, deuda? A phawb yn dlawd neu ar gyffuria, dim gobaith gynnon nhw am fywyd gwell? Am fod Lloegr 'di cymryd 'yn cyfoeth ni i gyd, 'de, cymryd popeth sy' gynnon ni. Cymryd y glo, cymryd y dŵr, a rŵan cymryd y gwynt hyd yn oed! Meddylia am y Rhondda, yn y ganrif ddiwetha a'r ganrif cyn hynny – y Cymry'n gweithio'n galed yn y pylla glo 'na am 'mond ceinioga yr wythnos, tra bod y meistri Seisnig yn byw fatha brenhinoedd ar y holl elw! (t. 57).

Mae Ieuan yn sylweddoli bod Cymry o gefndiroedd neu ardaloedd hollol wahanol oll wedi dioddef gormes.

Cawn ddarlun tebyg o Gymry ifanc yn cydfyw er gwaetha'r gwahaniaethau rhyngddynt yn y ddrama *Afalau Surion*, fy addasiad o'r stori fer 'Fresh Apples' gan Rachel Trezise. Mae'r ddrama yn dilyn hanes Matt, bachgen un ar bymtheg oed o'r Cymoedd, dros dridiau lle y mae'n cael ei gyhuddo o dreisio Sarah, merch anabl, ac yna'n ceisio lladd ei hun. Yn fy addasiad i, mae Matt a'i ffrindiau oll wedi mynychu ysgol Gymraeg, ond dim ond Matt sy'n dewis siarad Cymraeg yn gymdeithasol, tra bo ei ffrindiau'n siarad Saesneg. Mae Matt, felly, wedi'i ddal rhwng y diwylliannau Cymraeg a Saesneg eu hiaith. Ac mae'r ffaith ei fod yn ifanc yn golygu y caiff Matt ei ddal rhwng dau fyd yn aml. Mae'n ffinio byd yr oedolyn a byd y plentyn, byd dosbarth canol, parchus ei gartref a'i deulu a byd anniwair, llawn hwyl a sbri ei ffrindiau. Ymddengys ar yr olwg gyntaf mai Matt yn unig sydd yn dioddef y croestyniadau hyn, ond os edrychwn eto, gwelwn fod gan ei ffrindiau brofiadau tebyg iawn. Er iddo frolio ei fod wedi cael rhyw gyda phob merch yn ei flwyddyn heblaw Holly (t. 106), mae Kristian yr un mor ansicr â Matt am ryw a merched. Cawn wybod yn ddiweddarach nad yw ef wedi cael rhyw gyda Jamie, un o'r merched eraill, chwaith, (t. 111), a dechreuwn weld y gwir y tu ôl i'r rhith, a'r ffaith ei fod ef wedi'i ddal rhwng y gwirionedd a'r ddelwedd ffug ohono'i hun y mae ef wedi'i chreu. Yn

ogystal â hynny, er yr ymddengys ar yr olwg gyntaf mai Matt yw cocyn hitio'r grŵp, wrth edrych yn ofalus gwelwn nad yw hynny'n wir. Mae sawl un o'r plant yn destun sbort i'r gweddill rywryd neu'i gilydd. Mae'r plant yn rhedeg i ffwrdd oddi wrth Matt rhag ofn iddo ddweud wrth ei dad eu bod nhw'n cymryd cyffuriau (t. 108), mae Matt yn gwneud sbort am ben Rhys Davies am fod ei dad yn y carchar (tt. 106, 110), ac mae Kristian a Rhys Davies yn chwerthin am ben Sarah oherwydd effaith ei hanabledd arni (t. 102). Ond mae'n bwysig nodi nad yw'r ffaith fod Matt yn siarad Cymraeg tra bo ei ffrindiau'n siarad Saesneg yn rhoi rheswm i'r plant wneud sbort am ei ben na'i neilltuo o'r grŵp. Mae'r plant dwyieithog wedi dod i'r arfer â byw gyda dau ddiwylliant.

Mae thema ieuenctid yn un a ddefnyddiwyd o'r blaen yn y theatr Gymraeg er mwyn portreadu'r to ifanc a'u parodrwydd i dderbyn presenoldeb a dylanwad diwylliannau eraill. Ceir enghraifft o hyn yn y ddrama *Tair* gan Meic Povey (1998). Mae'r ddrama yn portreadu tair menyw o wahanol genedlaethau o'r un teulu, Y Nain, Y Fam a'r Ferch. Wrth gymharu safbwyntiau'r Nain a'r Ferch am bobl 'o dramor' (Povey, 2003, t. 15), ceir awgrym fod y genhedlaeth iau yn fwy goddefgar tuag at 'wahaniaeth':

Y Nain: Colega 'ma yn llawn ohonyn nhw.
 Y Ferch: O stiwdants?
 Y Nain: O dramor! Dim o'i le ar hynny debyg iawn, ond does wybod pan ddaw hi'n fatar o blanta.
 (*Y Fam a'r Ferch yn cyfnewid edrychiad dryslyd*)
 Y Ferch: Nuh! Totally lost.
 Y Nain: Plant! Cymysg! Creu dryswch, tydi. Ac nid y fi'n sy'n dweud! Y gwybodusion, y nhw sy'n dweud.
 Y Ferch: Nice one, Nain.
 Y Fam (*Syllu mewn sobrwydd arni*):
 Gwaethygu ydach chi, 'te mam?
 Y Nain: Cadw safona' ydw i...
 Y Fam: Chlywis i 'rioed mono fo'n cael 'i alw'n hynny o'r blaen.
 Y Ferch: Hiliaeth oedd o yn yr ysgol.

(Povey, 2003, t. 15).

Yn y sgwrs hon, gwelwn sut y mae'r Ferch, cynrychiolydd y to ifanc, yn barotach i dderbyn pobl o wledydd neu hiliau gwahanol na'r Nain, a'i bod hi wedi hen arfer, ers iddi fod 'yn yr ysgol', â meddwl am 'wahaniaeth' mewn ffordd oddefgar. Dadleuwn fod cymeriadau ifanc, dwyieithog fy nrama *Afalau Surion*, yn ogystal â chymeriadau Delyth, Arshad a Steve yn *Hawdd Cynnau Tân*, yn debyg i gymeriad Povey gan eu

bod yn barotach i dderbyn a ffurfio perthnasau â phobl o wahanol gefndiroedd heb boeni am y gwahaniaethau sydd rhyngddynt. Mae'n arwyddocaol fod mam a thad Matt, cymeriadau hŷn y ddrama *Afalau Surion*, yn siarad am Rhys Davies a Kristian fel petaent yn bobl israddol oherwydd eu cefndiroedd dosbarth gweithiol (tt. 104-105) gan fod hynny'n pwysleisio fwy fyth pa mor oddefgar yw'r plant tuag at bobl o wahanol gefndiroedd.

Cymeriad ifanc arall sy'n gwerthfawrogi dylanwad dau ddiwylliant Cymru arno, a'u rôl yn ei fywyd, yw Gavin yn fy nrama *Colli Iaith a Cholli Urddas*. Mae Gavin yn ddyn yn ei ugeiniau cynnar. Mae wedi colli'i gof mewn damwain car, a'r unig beth y mae'n ei gofio yw sut i siarad Cymraeg, sef ei ail iaith. Mae'n cyfarfod â Huw, hanesydd yn ei chwedegau cynnar, yn yr amgueddfa ac y mae'n ceisio helpu Gavin i gofio mwy am ei hanes. Ond yn fuan iawn sylweddolwn fod Huw yn wynebu ansicrwydd ynglŷn â'i hunaniaeth ei hun. Mae'n gweithio ar thesis sydd yn honni fod mab, Gruffudd, yn ogystal â'r ferch Gwenllian, wedi'i eni i Llywelyn Ein Llyw Olaf yn fuan cyn ei farwolaeth yn 1282, a bod y mab hwnnw wedi cymryd lle mab Edward I fel Tywysog Cymru, ac yn y pen draw, wedi dod yn Frenin Lloegr. Mae Huw yn meddwl y bydd datgelu'r gyfrinach hon i'r byd yn rhoi anfarwoldeb iddo ym maes hanes Cymru (tt. 138-139). Nid yw Huw'n gwerthfawrogi o gwbl fod Gavin yn dehongli Cymreictod mewn ffordd amgen. Ceisia bwysleisio i Gavin na fydd 'dim eisiau siarad Saesneg pan fydd pawb yn ffindo mas am Gruffudd' (t. 142), ac mae hynny yn y pen draw yn achosi anghydfod rhwng y ddau.

Mae yna un foment lle y mae Huw yn sylweddoli beth sydd yn y fantol i Gavin, a thrwy hynny sylweddola beth y mae ef a Gavin yn ei rannu. Sylweddola fod y ffaith fod Gavin wedi colli'i gof, a bod ef ei hun wedi colli'i swydd a'i enw da, yn golygu eu bod ill dau wedi colli'u hunaniaethau (tt. 131-135). Ond nid yw'r foment hon o uno yn parhau ddigon hir i Huw sylweddoli a gwerthfawrogi fod Gavin, wrth golli'r gallu i siarad Saesneg, wedi colli'r gallu i fynegi'i hun yn y ffordd sydd fwyaf naturiol iddo. Yn hytrach, mae Huw yn meddwl fod Gavin am ddysgu Saesneg er mwyn ei dwyllo a dwyn stori Gruffudd oddi wrtho (t. 148). Ceir ymdriniaeth debyg o'r pwnc hwn yn y ddrama *Translations* gan Brian Friel (1981), drama hanesyddol o Iwerddon, sy'n adrodd hanes y difrod sy'n digwydd pan na all dwy gymuned ieithyddol ddeall ei gilydd. Ceir cyfieithiad Cymraeg o'r ddrama hon gan Elan Closs

Stephens o'r enw *Torri Gair* (1982), er bod cymharu'r defnydd a wnaed o themâu ieithyddol gan y ddau fersiwn o'r ddrama tu hwnt i gynnwys yr ymchwil hwn. Dywed David Ian Rabey am ddrama wreiddiol Friel:

The common humanity of Friel's characters emphasises the divisiveness of this linguistic imperialism [...] instead of learning each other's languages the two sides become hostile and chauvinistic (Rabey, 1986, t. 191).

Dyma beth a wna Huw. Yn lle gweld y golled a'r ansicrwydd y mae ef yn eu rhannu â Gavin, dewisa ffocysu ar yr hyn sy'n eu gwahanu, sef eu cefndir ieithyddol.

Bu *Translations* yn ddylanwad mawr ar y ddrama hon wrth imi ystyried sut i weu'r trafodaethau ar Gymreictod a hanes ynghyd. Mae hynny'n digwydd mewn sawl drama Wyddelig (ystyrir gwaith Frank McGuinness yn y man), ac mae yna le i drafod hanes mewn modd tebyg yn y ddrama yng Nghymru er mwyn ystyried y thema o'r newydd. Mae hanes neu chwedlau eisoes wedi'u ddefnyddio gan ddramodwyr megis Saunders Lewis, yn ei ddramâu *Blodeuwedd* (1948) a *Siwan* (1956) er enghraifft, neu Thomas Parry yn ei ddrama *Llywelyn Fawr* (1954), er mwyn archwilio'n hunaniaeth genedlaethol. Ond mae *Translations* yn defnyddio hanes er mwyn trafod hynny mewn ffordd wahanol. Yr hyn a gawn yn y ddrama yw persbectif dwy gymuned ieithyddol ar hanes un ardal sy'n cynrychioli Iwerddon gyfan. Daw milwyr o Brydain i Seisnigo a safoni enwau trefi Gwyddeleg, a thrwy hynny down i wybod hanes yr enwau a'r atgofion sydd wedi'u hetifeddu gan y Gwyddelod. Ar y naill law, cawn weld sut y mae cyfoeth hanesyddol a diwylliannol y wlad yn cael ei fygwth gan ddyfodiad y Saesneg. Gwelwn fod colli'r enwau Gwyddeleg a cholli'r iaith Wyddeleg yn golygu colli'r cyd-destun hanesyddol y mae'r iaith honno'n ei gynrychioli. Ar y llaw arall, gwelwn sut y mae'r Gwyddelod yn gadael i'r hanes hwnnw eu cyfyngu rhag symud ymlaen i'r byd modern y mae'r Saesneg yn ei gynrychioli. Penderfynais ddefnyddio'r syniad hwnnw o'r cyd-destun hanesyddol a'r cofio sy'n perthyn i iaith yn fy nrama *Colli Iaith a Cholli Urddas* i archwilio o'r newydd y defnydd o'r thema hanes mewn drama. Mae ymdriniaethau tebyg o'r berthynas rhwng iaith a chofio i'w cael mewn llenyddiaeth Gymraeg, er enghraifft yng ngwaith y bardd Gwyneth Lewis a'i chyfrol *Y Llofrudd Iaith* (2000), sy'n ystyried sut y mae colli iaith yn gyfystyr â cholli amrywiaeth ddiwylliannol a ffordd o fyw.

Mae cofio'n bwysig yn *Colli Iaith a Cholli Urddas*. Mae sefyllfa bresennol Gavin, fel rhywun sydd wedi colli'i gof a'i hanes ac sydd felly wedi colli ei ymwybyddiaeth o'r cyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol y mae ef yn byw ynddynt, yn adlewyrchu ei sefyllfa fel siaradwr Cymraeg ail-iaith. Heb ei fagu ar aelwyd Gymraeg, ac fel rhywun sy'n cyfaddef 'doedd dim ots gyda fi [am y Gymraeg] yn yr ysgol' (t. 117), nid yw Gavin yn gwybod sut i ddefnyddio'r iaith yn y cyd-destun cywir. Er enghraifft, yn hytrach na chyfarch Huw drwy ddweud 'bore da', dywed ef, 'Bore da... Prynhawn da... Nos da' (t. 117), gan ddrysu ynglŷn â pha eiriau sy'n gweddu i'r achlysur. Yn yr un modd, heb adnabyddiaeth o gyd-destun hanesyddol a diwylliannol y Gymraeg, mae Gavin yn drysu ffeithiau am hanes Cymru. Mae'n drysu rhwng Llywelyn Fawr a Llywelyn Ein Llyw Olaf, er enghraifft (t. 136). Yn fwy na hynny, oherwydd nad yw'n cofio llawer am hanes Cymru, nid yw'n sylweddoli arwyddocâd darganfyddiadau Huw ac nid yw'n breuddwydio am ryw fath o iwtopia Gymraeg ei hiaith wrth glywed amdanynt fel y gwna'r hanesydd ei hun. Heb wybod gormod am hanes Cymru nid oes modd iddo ymgolli yn yr hanes hwnnw na gadael iddo'i gyfyngu. Yn wir, pan ddechreuwa Gavin gofio rhai pethau o'i hanes, cofio'r dylanwadau Saesneg yn ogystal â'r rhai Cymraeg a wna. Mae'n cofio'i hanes personol ef yn ogystal â'r fersiwn o hanes Cymru y mae Huw wedi'i ddysgu iddo. Nid yw'n gadael i'r hanes y mae Huw'n ei ddatgelu iddo lorio'i amcan i gofio'r Saesneg ac adennill ei hunaniaeth ddwyieithog. Mae Huw, ar y llaw arall, yn hollol wahanol. Fel, hanesydd mae'n rhy ymwybodol o hanes Cymru ac yn dibynnu ar hanes i ddatrys ei broblemau. Mae'n ei weld ei hun yn y bobl y mae'n eu hastudio yn ei waith ymchwil. Mae'r ffaith fod Huw yn rhannu ei gyfenw – Griffiths – gyda'r tywysog Gruffudd, y mab a aned i Llywelyn Ein Llyw Olaf yn ôl ei ddarganfyddiad, yn awgrymu ei fod yn ystyried bod ei ffawd ei hun ynghlwm wrth yr hanes am Gruffudd. Mae am roi gwybod i'r byd am Gruffudd er mwyn i'r byd wybod amdano ef, Huw, a'i gofio fel un o'r haneswyr pwysicaf erioed. Mae Huw am iddo ef ei hun fod yn ffigwr pwysig yn hanes Cymru.

Mae hanes ac arwyr hanesyddol neu chwedlau, a hyd yn oed orddibyniaeth ar hanes, chwedlau ac arwyr, yn thema gyffredin yn y ddrama yng Nghymru, ac yn rhyngwladol hefyd. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae dramodwyr megis Saunders Lewis a Thomas Parry yn defnyddio ffigyrau hanesyddol sawl tro yn eu dramâu er mwyn dweud rhywbeth am y Gymru gyfoes. Mae eu gweithiau yn debyg iawn i waith yr

hanesydd O. M. Edwards. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd ef ac eraill yn dibynnu ar arwyr a hanes er mwyn hybu cenedlaetholdeb diwylliannol. Fel yr esbonia Manon Jones, roedd yn portreadu ffigyrau hanesyddol Cymru fel ffigyrau poblogaidd ei oes ei hun, er mwyn cyfathrebu hanes Cymru a chenedlaetholdeb i'r bobl gyffredin:

[...] gwelai'r gorffennol fel ysbrydoliaeth gyda rhagesiamplau [...] Yn wir, cred Llywelyn-Williams fod Edwards wedi rhoddi rhai o nodweddion Tom Ellis i Owain Glyndŵr a chred Neil Evans ei fod wedi creu delwedd o Llywelyn Fawr fel 'good Gladstonian liberal' (Jones, 2010, t. 212).

Mae hyn yn debyg iawn i amcan Huw wrth ysgrifennu ei thesis ef, ond yn hytrach na gweld ffigyrau cyfoes eraill yng nghymeriad Gruffudd, gwêl Huw ei sefyllfa ef ei hun wrth ystyried hanes y tywysog. Mae cymeriadau dramâu sy'n trafod hanes cenedl yn aml yn gweld cymeriadau o'r gorffennol yn debyg i'w hunain neu bobl maent yn eu hadnabod, fel yn achos Huw. Mae prif gymeriad y ddrama *Observe the Sons of Ulster Marching Towards the Somme* gan Frank McGuinness, a berfformiwyd gyntaf yn 1985, yn ymddwyn mewn modd tebyg. Cofia ei brofiad ef a saith milwr arall yn cerdded i'w hangau ym Mrwydr y Somme. Teimla'n euog gan mai ef oedd yr unig un a orosodd a nawr cysyllta ei ffrindiau a fu farw gydag arwyr Brwydr y Boyne, ryw ddau gan mlynedd a hanner ynghynt, gan ddangos sut y mae'r ddau ddigwyddiad wedi ffurfio hunaniaeth Unoliaethwyr yng Ngogledd Iwerddon. Gellid cytuno â Claire Gleitman sydd yn dadlau bod y ddrama yn dangos 'the psychological needs served by a single-minded sense of history and identity in a situation defined by uncertainty [and] powerlessness' (Gleitman, 2004, t. 219). Drwy ei ddibyniaeth ar bwysigrwydd hanes Gruffudd, mae Huw hefyd am waredu'i hun o'r ansicrwydd a'r diffyg pŵer y mae'n eu teimlo yn sgil colli'i swydd a cholli'i hunaniaeth fel hanesydd.

Trafodir gorddibyniaeth y Cymry ar hanes ac arwyr mewn modd gwahanol yn nrama Ed Thomas, *House of America*, (1988). Wedi'i lleoli yng Nghymoedd tlawd De Cymru, mae'r ddrama yn darlunio chwalfa un teulu wrth iddynt edrych tuag at y diwylliant Americanaidd am arwyr ac am arweiniad mewn bywyd oherwydd diffyg arwyr Cymreig. Enwir eu cath ar ôl Marlon Brando, arwr eu tad (Thomas, 1994, t. 13), a sonia'r plant o hyd am bethau o ddiwylliant America fel ffilmiau *The Godfather* (t. 35), Jack Kerouac (t. 45) ac Elvis Presley (t. 46). Dywed Sid, y mab hynaf, 'look at Wales, where's its kings, where's our heroes?' (tt. 46-47), cyn dod i'r casgliad mai Harry Secombe yw arwr pennaf y Gymru fodern, gan gyfaddef nad yw ef yn arwrol

iawn (t. 47). Mae Anna-Marie Taylor yn dadlau bod y ddrama'n darlunio Cymru ar chwâl am ei bod hi'n methu ag efelychu campau arwyr ei gorffennol (Taylor, 1997b, t. 116). Mae'r cymeriadau'n gaeth i'w hangen am arwyr. Ac mae Huw yn fy nrama i yn gaeth i hanes ac i stori Gruffudd a'i amcan unllygeidiog wrth hysbysu'r byd am yr arwr Cymreig newydd y mae ef wedi'i ddarganfod. Ystyria hefyd y bydd ei ddarganfyddiad yn newid Cymru yn wlad uniaith Gymraeg yn debyg i fel yr oedd hi yng nghyfnod Gruffudd, heb boeni am ffawd siaradwyr Saesneg Cymru. Ond mae Gavin, ar y llaw arall, yn fwy rhydd, ac mae'r rhyddid hwnnw yn ei alluogi i werthfawrogi pwysigrwydd y Gymraeg a'r Saesneg iddo. Gwelwn hynny ar ddiwedd y ddrama lle mae Gavin yn ceisio darganfod beth y mae hi'n ei olygu i berthyn i'r gymuned ddwyieithog o'r newydd.

Mae pob un o'm dramâu, felly, yn ymchwilio'r brif thema a oedd gennyf mewn golwg wrth fynd ati i'w llunio, sef yr hyn y mae'r gwahanol gymunedau o Gymry yn ei rannu. Mae'r thema hon yn rhan bwysig ym mhob drama yn y portffolio, ac yn greiddiol i'm hamcan o bortreadu fy mhrofiad i o'r gymuned ddwyieithog. Trwy lunio'r dramâu o gwmpas y thema hon roedd modd sicrhau bod dwyieithrwydd yn rhan annatod o'r trafodaethau, gan mai dyma un man lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn dod ynghyd. Ond ynghlwm wrth yr ymchwiliad i'r thema honno, mae ymchwiliad i themâu eraill hefyd, er enghraifft thema ieuenctid. Cymeriadau ifanc yw fy nghymeriadau dwyieithog ac mae eu hieuenctid a'u dwyieithrwydd yn eu galluogi i dderbyn Cymry o wahanol gefndiroedd i'w plith. Ac mae thema hanes ynghlwm wrth fy amcan i ddangos yr hyn y mae gwahanol gymunedau o Gymry yn ei rannu hefyd. Mae cymeriadau sy'n gaeth i hanes, megis Huw, yn methu â gweld y Gymru amlddiwyllynnol sydd ohoni heddiw. Maent yn cynnig gwrthbwynt yn fy nramâu, felly, trwy ddangos pa mor gyfyng y gall bywyd fod heb i ni werthfawrogi ein bod yn rhannu pethau gyda chymunedau gwahanol. Trwy ddefnyddio'r themâu hyn, mae fy nramâu yn cynnig portread o realiti ieithyddol a diwyllianol y Gymru gyfoes gan eu bod yn darlunio byd lle mae sawl un yn ymdrechu i fyw o dan ddylanwad sawl iaith a diwylliant gwahanol.

Pennod 2: Ieithwedd

Er mwyn ymdrin â phrif themâu fy nramâu o safbwynt Cymry o wahanol gefndiroedd, roedd yn rhaid i'r iaith a ddefnyddir fod yn arwyddocaol ac yn fodd i leisio fy neges. Bydd y bennod hon yn mynegi sut yr aethpwyd ati i ddewis ieithweddau a fyddai'n gwneud hynny a pham y'u dewiswyd hwy. Bu rhai beirniaid ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, megis Ifor Williams, yn dadlau mai iaith Gymraeg safonol heb lediaith na thafodiaith y dylid ei defnyddio ar y llwyfan (Williams, 1926a, t. iii), a hynny, gellir tybio, er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymru Gymraeg ar adeg pan oedd defnydd o'r iaith yn lleihau. Ond dewisais beidio â dilyn ei awgrym gan ddefnyddio iaith sy'n perthyn i gywair llai ffurfiol, a hyd yn oed fentro defnyddio'r Saesneg hefyd. Bydd y bennod hon yn trafod fy rhesymau dros ddewis ieithweddau o'r fath, a pha mor effeithiol yn fy marn i oedd y defnydd a wnaed ohonynt. Trafodir yma hefyd iaith fel thema yn fy nramâu, gan esbonio sut y mae fy ngwaith yn ystyried y ffordd y mae gwahanol gymunedau ieithyddol yn meddwl am hunaniaeth genedlaethol, a sut y mae modd adlewyrchu hynny yn yr iaith a defnyddir yn y ddrama.

Wrth drafod datblygiadau ieithyddol rhyngwladol y ddrama, dywed John Gwilym Jones, 'r[h]ywbyrd yn y ganrif ddiwethaf fe ddaeth tro ar fyd,' (Jones, 1977, t. 278), lle y newidiodd iaith y ddrama o fod, yn ei hanfod, yn farddoniaeth i ddyngwared yr iaith sydd i'w chlywed bob dydd, boed hynny'n iaith raenus neu beidio. Ar y naill law, ymddengys iddo honni mai'r newid hwn o iaith farddonol i iaith bob dydd yw un o'r pethau gwaethaf i ddigwydd i'r ddrama. Dywed:

[...] un o'r dirywiadau mwyaf a ddigwyddodd i'r ddrama oedd iddi newid o fod yn gydnabyddedig farddonol i fod yn efelychiad ffotograffig o fywyd (Jones, 1977, t. 280).

Ond, ar y llaw arall, dywed fod dramodwyr cyfoes 'yn gwneud barddoniaeth o'u dramâu er i'r dramâu hynny fod wedi eu hysgrifennu mewn rhyddiaith' (Jones, 1977, t. 276). Pa ieithweddau felly a ystyrir ganddo yn addas ar gyfer drama? Fel gwrthbwynt i'r dramâu y mae ef yn eu hystyried yn 'ffotograffig', ac felly'n wan, disgrifia John Gwilym Jones ddramâu o safon fel 'llun da' (Jones, 1977, t. 273). Yn ogystal â hynny, pwysleisia dro ar ôl tro bod creu drama yn mynnu'r un math o grefft gelfyddydol ag y mae creu darn o farddoniaeth – dywed fod drama dda 'mor gywrain

ag awdl, mor gywir â phryddest, a chymaint “o’r frest” â thelyneg’ (Jones, 1977, t. 269), a chymhara weithredoedd y dramodydd wrth ddewis cymeriadau a sefyllfaoedd â gweithredoedd y ‘bardd fel cadfridog yn trefnu ei filwyr o eiriau’ (Jones, 1977, t. 277). Ymddengys felly fod John Gwilym Jones yn ystyried y ddrama fel dehongliad artistig o fywyd, a swyddogaeth y dramodydd yn debyg i swyddogaeth bardd neu artist. Fel y bardd sy’n cyfuno geiriau, mesur a throsiad neu’r artist sy’n cyfuno lliwiau’n ddiwyd i greu ystyr, dylai’r dramodydd feddwl yn ofalus am y cymeriadau, y sefyllfaoedd a’r ieithweddau y mae’n eu defnyddio er mwyn eu cyfuno i greu darn o gelfyddyd. Ni ddylai ddewis yr un elfen ar fypwy. Yr hyn y mae Jones yn ceisio’i bwysleisio yw y dylai’r ieithweddau y mae’r dramodydd yn eu defnyddio, boed y rheini’n farddoniaeth, yn iaith bob dydd neu’n gyfres o eiriau heb fawr o gyswllt â’i gilydd, weithredu ar lefel symbolaidd hefyd, a bod yn rhan o grefft y ddrama; dylai’r *ffordd* y mae’r cymeriadau’n siarad, eu tafodiaith a’u hacenion neu safon eu hiaith, er enghraifft, ac nid y geiriau y maent y eu hyngan yn unig, ychwanegu at y ddrama fel cyfanwaith. Ni ddylai’r cymeriadau siarad mewn rhyw ieithwedd benodol oherwydd mai dyna sut y mae pobl yn siarad o ddydd i ddydd – dylai’r ieithweddau a ddewisir fod yn rhan bwysig o’r dehongliad, sy’n ychwanegu at y ‘llun da’ yn hytrach nag at y ‘ffotograff’ difywyd. Dyma’r hyn yr wyf wedi ceisio’i wneud yn fy nramâu. Dywed Joseph Clancy ei bod yn bosib creu ‘barddoniaeth theatr’, drama gelfydd, heb ‘helaethrwydd geirfa’ (Clancy, 1996, t. 212), a gobeithiaf mai dyma’r hyn sydd gennyf yn fy ngwaith. Er nad oes yr un cymeriad yn siarad mewn barddoniaeth neu’n defnyddio iaith farddonol hyd yn oed, ystyriaif fod eu hiaith yn rhan bwysig o grefft y dramâu ac yn ychwanegu at eu neges a sut y cyfathrebir hi.

Ym mhob un o’r dramâu sydd wedi’u cynnwys yn fy mhortffolio, mae’r cymeriadau yn defnyddio’r iaith sydd yn naturiol iddynt. Y rheswm pennaf am hynny yw bod fy nghymeriadau oll yn bobl gyffredin. Mae rhai’n feddygon ac yn nyrsys, yn filwyr, yn ddynion ifanc, yn deuluoedd neu blant ysgol o’r Cymoedd, yn haneswyr. Pobl y gellir taro ar eu traws bob dydd ydynt. Nid brenhinoedd neu uchelwyr fel y ceir mewn nifer o ddramâu yn y gorffennol mohonynt. Wrth edrych ar ddramâu Saunders Lewis, Thomas Parry, a dramodwyr fel Shakespeare a’i gyfoedion yn y Saesneg, gwelwn sut y mae brenhinoedd, tywysogion neu arglwyddi yn aml yn siarad mewn barddoniaeth neu o leiaf yn defnyddio iaith farddonol:

Siwan: Dyna gwmwl yn cuddio'r lleuad. Edrych ar y dde ymhell,
Dacw'r Haeddel a Seren y Gogledd
Ac Actwrws fawr ar eu hôl,
Mi hoffwn i eu clywed hwy'n canu
Wrth droi ar y gwydr uwchben,
Maen nhw'n dweud fod plant bach yn eu clywed wrth gysgu
Ac yn gwenu wrth y sain yn eu hun.
(Lewis, 1996, t. 548)

Dengys y dyfyniad hwn pam y cyhoeddwyd y ddrama *Siwan* gyntaf mewn cyfrol a chanddi'r teitl *Siwan a Cherddi Eraill*. Mae'r araith yn llawn barddoniaeth. Nid yn unig y mae Siwan yn siarad yn y mesur di-odl, mae'n personoli'r sêr, yn gweld yr wybren yn wydr ac yn cynnig delwedd deimladwy o blant yn cysgu. Weithiau, yn nramâu'r genre hwn, defnyddir barddoniaeth i wahaniaethu rhwng cymeriadau uchel ac isel eu statws. Yn nrama Thomas Parry, *Llywelyn Fawr*, mae'n arwyddocaol mai ond unwaith y ceir defnydd helaeth o ryddiaith. Ar ddechrau Act II, pan glywn Gruffudd, mab llwyn a pherth y Tywysog Llywelyn, yn siarad â'r Taeog (Parry, 1954, tt. 27-29), y digwydd hynny. Mae'r defnydd o farddoniaeth a rhyddiaith yn y ddrama hon, felly, yn gwahaniaethu rhwng cymeriadau uchel eu statws a chymeriadau sydd â statws is. Yn y ddrama *Hamlet* gan Shakespeare, a berfformiwyd gyntaf tua 1600 (Shakespeare, 1997a, tt. 1668-1756), mae'r Tywysog Hamlet ei hun yn newid o siarad yn y mesur pumban ddyrchafedig i ryddiaith pan sylweddola fod y ddynoliaeth yn ddim byd mwy na 'quintessence of dust' (II.2.298). Mae arwyddocâd i'r ffaith ei fod yn newid ei ffordd o siarad wrth iddo sylweddoli waeth pa mor rhesymegol, galluog, bonheddig, neu dduwiol hyd yn oed yr ymddengys dyn, nid yw'n ddim mwy na llwch ar ddiwedd y dydd. Awgryma hyn fod siarad mewn iaith farddonol neu fesur di-odl yn peri i gymeriad ymddangos fel un a all godi uwchben dynion arferol, yn gymeriad bonheddig a chanddo'r potensial i fod yn arwr.

Ond nid cymeriadau bonheddig mo cymeriadau fy nramâu i, ac ni ellir ystyried yr un ohonynt yn arwr yn yr ystyr draddodiadol. Wrth drafod ei ddramâu, dywed Aled Jones Williams, '[d]wi ddim yn siŵr iawn a ydy o'n bosib i ti gael arwr y dyddiau yma' (Williams a ddyfynnwyd yn Ros, 2006a, t. 8), ac yn wir, dyma bwynt sy'n codi yn fy nrama *Hawdd Cynnau Tân*. Yn fuan iawn y sylweddola Ieuan nad yw'r arwyr sydd wedi'u hanfarwoli yn y cerddi y mae'n hoffi'u hadrodd neu a grybwyllir mewn bwletinâu newyddion yn bodoli mwyach. Sylweddola na all fod yn arwr yn yr ystyr filwrol, a phenderfyna wrthod saethu unrhyw un oni bai ei fod mewn

sefyllfa lle y mae'n rhaid iddo naill ai saethu'r gelyn neu farw ei hun – sefyllfa 'fi neu fo', fel y dywed ef (t. 52). O gymharu â'r bwletin newyddion sy'n ymddangos ar ddiwedd y ddrama ac sy'n cuddio'r gwir am yr hyn sy'n digwydd i'r milwyr, mae Ieuan a Steve yn siarad yn blwmp ac yn blaen â'i gilydd:

Steve: Ti seriously ddim yn mynd nôl i ymladd?
Ieuan: Wrth gwrs bydda i'n mynd nôl i ymladd. Ga' i garchar os na.
Steve: O reit.
Ieuan: Na, mi â i nôl. Ond dwi ddim yn mynd i saethu neb. Does 'na'r un fwled yn mynd i ddod o 'ngwn i eto. Heblaw bod un o'r Taliban yn 'y nghael i mewn rhyw gornel, a'i bod hi'n fi neu fo.

(t. 52).

Ac yna:

Ieuan: Sut fyddan nhw'n ffeindio allan?
Steve: Bydda i'n dweud wrthyn nhw.
Ieuan: 'Sa ti ddim.
Steve: Bydda i yn dweud wrthyn nhw, os wyt ti'n mynd eto.

(t. 60)

Mae Ieuan a Steve yn amlwg yn dweud yr hyn y maent yn ei feddwl, heb fwyseirio o gwbl. Mae iaith seml, dafodieithol y cymeriadau, sydd wedi'i britho ag ebychiadau a rhegfeydd yn fodd i ddangos hynny hefyd:

Ieuan: Blydi hwntws! Dach chi'n meddwl boch chi'n ffantastig!
Steve: Beth ti'n meddwl?
Ieuan: Chi Sowth-Wêlians! Dach chi'n codi amball stadiwm newydd, a'n sydyn chi 'di'r Peles nesa! 'Yn gêm ni yn y gog 'di ffwtbol, cofia...

(t. 48).

Yn y ffilm ddogfen *Armadillo* (Metz, 2010), sy'n dilyn milwyr go iawn o Ddenmarc yn ymladd yn Affganistan, gwelwn ddynion ifanc ar faes y gad yn siarad am chwaraeon, yn ffonio'u cariadon, yn rhegi, yn gwylio pornograffi ac yn tynnu coes ambell ffrind – ymddygiad nid annhebyg i ymddygiad dynion a merched ifainc eraill. Effaith dangos yr ymddygiad hwn ochr yn ochr â brwydro difrifol yw bod y gwylwr yn tosturio dros bobl ifainc nad oes ganddynt fawr o obaith o newid y sefyllfa. Roeddwn innau hefyd am i Ieuan a Steve ennyn yr un math o deimladau mewn cynulleidfa, felly defnyddiais dafodiaith sy'n llawn ffraethineb yn ogystal â sgysiau am bêl-droed a chariadon i bwysleisio'r frawdoliaeth rhwng y ddau a gaiff ei difetha yn y pen draw.

Defnyddiais dafodiaith hefyd i ddangos y gwahaniaethau deallusol rhwng

Ieuan a Steve:

Ieuan: Da ni'n y gogledd â'n llygaid tua'r nefoedd o gopa'r Wyddfa, tra'ch bo' chi'n lluchio'ch hun i berfeddion y ddaear. 'Dan ni'n mynd yn ein blaena'n y byd 'ma, a chithau'n mynd, wel, am yn ôl, de... Backwards...

Steve: Who you calling backwards butt? Mae hyd yn oed geiriau chi'n backwards!

(t. 49).

Dim ond pan ddefnyddia Ieuan y gair Saesneg 'backwards' y mae Steve yn ei ddeall, ac yna mae ef yn dewis defnyddio'r gair hwnnw yn lle'r geiriau Cymraeg sy'n cyfateb iddo. Mae hynny, yn ogystal â'r ffaith fod iaith led-farddonol Ieuan yn gwrthgyferbynnu'n llwyr ag iaith gymysg Steve, yn rhoi'r argraff fod Steve yn is ei statws a'i allu na Ieuan. Gwelwn yma hefyd ddirmyg Ieuan tuag at iaith Steve wrth iddo gael ei orfodi i droi i'r Saesneg er mwyn i'w gyfaill ei ddeall. Awgryma hyn agwedd snobyddlyd Ieuan ynglŷn â Chymreictod hefyd, a'i ragfarn wrth Gymry sy'n wahanol iddo ef, pwnc sy'n codi mewn mannau eraill yn ystod y ddrama. Yn y theatr Gymraeg felly, gall gwahaniaethu rhwng cywair ieithyddol ac ychwanegu ambell i air Saesneg gael yr un effaith ag a gafodd defnyddio mydr a rhyddiaith ochr yn ochr â'i gilydd mewn dramâu cynharach. Gwelir y dechneg hon yn cael ei defnyddio yn y ddrama *Llwyth* (2010) gan Dafydd James, sy'n adrodd hanes grŵp o ddynton hoyw yng Nghaerdydd. Mae'r cymeriadau Rhys a Gareth mewn perthynas – mae Rhys yn athro mathemateg tra bo Gareth yn weithiwr swyddfa sydd newydd ddechrau dysgu'r Gymraeg. Ar un lefel, ymddengys mai Rhys sydd mewn awdurdod am ei fod yn helpu Gareth i ddeall beth sy'n mynd ymlaen trwy gyfieithu ac esbonio geiriau neu syniadau newydd iddo. Mae yna ambell dro pan deimlwn fod Rhys wedi hen alaru ar ddiffyg dealltwriaeth Gareth o'r byd Cymraeg, fel y gwelwn yn y dyfyniad hwn:

Gareth: Who's Iolo Morganwg?
Dada: Ti'n gwbod. Y boi nath greu'r orsedd.
Gareth: What? Mr Urdd?
Rhys: Gareth, shut up!
[...]
Rhys: Ti'n bod yn stupid.
[...]
Rhys: [...] 'Wi 'di dweud ymbiti Iolo Morganwg sawl tro.
Gareth: I'm not thick, Rhys.
Rhys: 'Wedes i 'na?
Gareth: Might as well have.

(James, 2010, tt. 19-20)

Mae'n amlwg yma fod Rhys, er iddo wadu hynny, yn teimlo ei fod yn well na Gareth, a hynny'n rhannol oherwydd ei adnabyddiaeth o'r iaith Gymraeg a'r profiadau a'r wybodaeth y mae'r byd Cymraeg wedi'u rhoi iddo. Ymddengys mai Rhys sydd yn rheoli'r berthynas yn hytrach na bod ganddo berthynas gyfartal â Gavin, ac mae'r ffaith ei fod yn medru'r Gymraeg yn cyfrannu at hyn. Ond erbyn diwedd y ddrama mae Rhys a Gareth wedi cyfnewid eu rolau o fewn eu perthynas. Wrth i Gareth ddod yn fwy cyfforddus â'i rywioldeb mae ei iaith yn newid. Yn hytrach na cheisio siarad Cymraeg pytiog, dechreua Gareth siarad mewn brawddegau cyflawn, Saesneg, ac mae Rhys yn ei ddynwared (gweler James, 2010, tt. 129-132). Gareth sy'n rheoli'r sefyllfa ac ef sy'n uwch ei statws yn y berthynas yn awr. Fel y dengys y ddrama hon a fy nrama innau felly, yn y theatr Gymraeg mae modd defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg i ddangos gwahaniaeth mewn statws neu densiwn rhwng cymeriadau.

Wrth drafod ei wrthwynebiad i iaith lafar ar y llwyfan, mae Saunders Lewis yn cyfaddef y dylai'r geiriau a ddefnyddir 'ddibynnu ar ruthum y frawddeg [...] ai ar frys ynteu dan dindroi y bo'r ymadrodd, ar angerdd neu bwyslais neu anadliad' (Lewis, 1968b, t. iv). Ymddengys felly mai sefyllfa'r cymeriadau a ddylai benderfynu pa ieithweddau yr ydynt yn eu defnyddio. Onid yw'n ddigon dilys felly bod Ieuan a Steve, a hwythau'n ddynion ifainc yn profi erchyllterau rhyfel, yn hepgor iaith rodresgar ac yn siarad iaith sy'n llai safonol? Mae'r ddadl am safon ieithyddol dramâu Cymraeg eu hiaith yn un sydd wedi bod yn flaenllaw ym meddyliau ein dramodwyr a'n beirniaid llenyddol ers canrif bron. Ym marn James Kitchener Davies, mae sefyllfa Cymru ei hun yn gorfodi dramodwyr i ddefnyddio tafodiaith neu iaith bro. Dywed ef 'nid oes ar lwyfan Cymru iaith safonol' gan esbonio'r mai'r ffaith fod Cymru 'yn wasgaredig, yn ddi-ganolfan, yn "answyddogol"' sydd i'w feio am hyn (Davies, 2002, tt. 68-69). Yn ysgrifennu yn 1934, yn ystod oes aur y Mudiad Drama, hawdd yw gweld sut y ffurfiwyd sylwadau Davies. Dywed Ioan Williams fod y mudiad wedi '[b]wrw gwreiddiau mewn cymunedau' mewn adeg pryd yr oedd y cymunedau hynny'n profi newidiadau diwylliannol a chymdeithasol aruthrol (Williams, 2006, t. 7). Esbonia ymhellach:

Er gwaethaf pob ymdrech i fagu theatr broffesiynol a theatr gelfyddydol ar sail y Mudiad Drama, fe wnaeth barhau'n fudiad a oedd yn perthyn yn agos i'r cymunedau a'i cynhaliai (Williams, 2006, t. 7).

Ymddengys fod y theatr hon yn fodd i gadw hunaniaeth ac ysbryd cymunedau unigol yn fyw yn wyneb newidiadau yn y byd ehangach. Ni lwyddodd yr ymdrech i greu theatr broffesiynol; yn hytrach cadwyd y mudiad yn un ‘ddi-ganolfan’, yn debyg i sut y gwelai Kitchener Davies Gymru ar y pryd. Yn yr un modd ag yr oedd Cymru heb ganolfbwynt gwleidyddol neu ddiwylliannol, nid oedd gan ei theatr ganolfbwynt na statws swyddogol. Wrth reswm, felly, roedd y dramâu a gynhyrchid yn mynd i fod yn ddramâu lleol wedi’u hactio gan gwmnïau drama lleol. Ond roedd hyrwyddwyr y meddylfryd goleuedig am bwysleisio pwysigrwydd Cymraeg safonol i ddyfodol y genedl. Wrth drafod y gwaith a wnaed gan John Morris-Jones wrth safoni’r iaith Gymraeg ar ddechrau’r ugeinfed ganrif, esbonia Simon Brooks fod ‘y broses hon o ymdrefnu gramadegol ynghlwm wrth weledigaeth deleolegol o’r genedl Gymreig’ (Brooks, 2004, t. 24). Ychwanega wedyn bod yr ‘weledigaeth hon o iaith safonedig [...] yn uno’r genedl i greu “cymuned gyfathrebu”, yn ganolog i’r Oleuedigaeth a chenedlaetholdeb [...]’ (Brooks, 2004, t. 25-26). Roedd iaith yn gyfystyr â’r genedl felly, a safoni iaith, neu ei chadw’n safonol, yn weithred o genedlaetholdeb. Gwelir dylanwad y meddylfryd hwn ar farn Ifor Williams ynglŷn â pha iaith sy’n addas ar gyfer drama genedlaethol. Ni does ganddo’r un cydymdeimlad â Kitchener Davies tuag at ddramodwyr sy’n defnyddio tafodiaith:

[...] os awn ymlaen i gynhyrchu dramodau, pawb yn ei dafodiaith ei hun, derfydd pob gobaith am ddrama cenedl, a bydd raid i ni fodlonni [sic] ar ddrama ardal (Williams, 1926a, t. iii).

[...] os yw’r ymddiddan mewn drama i fod yn llafar gwlad noeth, y mae ar ben arnom am ddrama genedlaethol, ni allwn mo’i chael (Williams, 1946, t. 54).

Diddorol yw gweld sut y mae Williams yn cyplysu ffawd y ddrama genedlaethol â safonau iaith y ddrama, yn union fel yr oedd y meddylfryd goleuedig yn cyplysu dyfodol y genedl â safonau ieithyddol cenedlaethol. Ymddengys bod Williams yn credu nad oes modd i ddrama sydd wedi’i hysgrifennu mewn iaith bro gynrychioli realiti Cymru ar y llwyfan.

Ond gellid dadlau bod yna lawer mwy o gyswllt erbyn heddiw rhwng pobl o wahanol gymunedau yng Nghymru. Yr hyn yr oedd Ifor Williams, Saunders Lewis a’u tebyg yn ei annog oedd purdeb iaith safonol. Os ystyriwn ddramâu, neu hyd yn

oed feirniadaeth lenyddol Saunders Lewis ei hun, gellid awgrymu fod y purdeb ieithyddol yn adlewyrchu'r Cymreictod pur y mae'n ceisio'i gyfleu trwy'n hatgoffa o'n traddodiadau a'n traddodiad llenyddol. Ond roeddwn am i'r math o iaith a ddefnyddir gennyf yn fy nramâu i adlewyrchu'r Gymraeg a ddefnyddir heddiw. Mae'r Gymraeg honno'n bell o fod yn bur, ac mae'r gwahanol ieithweddau a ddefnyddir gennyf yn fodd i bortreadu realiti ieithyddol y Gymru gyfoes. Mae'r iaith a ddefnyddir gennyf yn adlewyrchu'r elfen 'answyddogol' honno y soniodd Kitchener Davies amdani, ac yn frith o wahanol ddylanwadau. Wedi'r cyfan, ni fu'r iaith yn bur erioed. O ganlyniad, teimlais fod yna le i ddrama ag ynddi bedwar cymeriad o bedair ardal wahanol. Fy nrama *Hawdd Cynnu Tân* oedd hon. A chan fod y cymeriadau'n dod o wahanol drefi neu ardaloedd, mae gan bob un ei dafodiaith ei hun, a'r tafodieithoedd hynny'n gyfrwng, fel petai, ar gyfer gwahanol safbwyntiau ynglŷn â bywyd, rhyfel, gwleidyddiaeth, a Chymreictod hefyd. Mae Ieuan yn dod o Wynedd, ac oherwydd dylanwad ei dad arno, mae ganddo deimladau cenedlaetholgar cryf (gweler tt. 55-57). Daw Delyth o ardal Abertawe, ac mae hithau'n cynrychioli'r Gymraes ifanc. Mae'n siarad Cymraeg ond mae hi'n gyfarwydd â diwylliant poblogaidd y byd Saesneg, fel y byddwn yn disgwyl gan unrhyw ferch ei hoedran hi (t. 70). Un o Gaerdydd yw Arshad ac mae ei gefndir fel aelod o deulu o fewnfudwyr o Irac yn rhoi bydolg wahanol iddo (gweler tt. 64-65). O'r Rhondda y daw Steve, a'i iaith fratiog yn bradychu'r ffaith nad yw'n siarad Cymraeg yn aml. Cymro Prydeinig ydyw, a'i ffyddlondeb i'r fyddin sydd bwysicaf oll iddo ar hyn o bryd (gweler tt. 47, 58-60). Hoffwn feddwl mai oherwydd gwahanol dafodieithoedd y ddrama hon a'r gwahanol safbwyntiau y maent yn eu cynrychioli yma, ac nid er eu gwaethaf fel y tybiai Ifor Williams, y mae'r gwaith hwn yn dweud rhywbeth wrth Gymru gyfan. A hoffwn feddwl bod sawl math o Gymro yn cael ei gynrychioli mewn rhyw ffordd yn y gwaith, gan adlewyrch realiti dwyieithog ac amlddiwylliannol ein gwlad. A dadleuwn nad safbwyntiau Cymry Cymraeg yn unig a geir yma, ond safbwyntiau Cymry Saesneg eu hiaith hefyd. I mi, Steve sy'n cynrychioli'r garfan honno fwyaf, gyda'i ambell frawddeg Saesneg sy'n awgrymu mae Saesneg yw'r iaith y mae'n teimlo fwyaf cyfforddus yn ei siarad, yr iaith y mae'n ei defnyddio o ddydd i ddydd.

Mae'r awdur Owen Martell yn dadlau fod gan y Saesneg le mewn llenyddiaeth Gymraeg ac ymetyb yn chwyrn i feirniaid llenyddol, a beirniaid yr Eisteddfodau'n benodol, sy'n diystyru llenyddiaeth Gymraeg a chanddi'r mymryn lleiaf o Saesneg

ynnddi fel rhywbeth ‘anghymreig’ neu ‘aflan’ (Martell, 1998, t. 92). Gwelwyd y fath o ymateb y cyfeiria Martell ato gan feirniaid yr Eisteddfod wrth iddynt feirniadu *Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau* gan Llwyd Owen (2006). Maent yn cyfaddef mai ‘meddwl praffaf y gystadleuaeth’ a’i ‘hathrylith mwyaf [sic]’ yw’r awdur, ond yn gwrthod gwobrwyo’i waith am fod yr iaith yn ‘broblem fawr’ ac yn dangos ‘[t]erfynau adnoddau ieithyddol yr awdur’ (Pritchard, Mair a Davies, 2005, tt. 98-99). Ond mae eraill yn cefnogi’r math o iaith a ddefnyddir gan Owen yn ei nofelau, gyda sawl un yn nodi mai dyna yw’r math o Gymraeg a siaredir mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Wrth drafod un o nofelau diweddarach Llwyd Owen, dadleua Gwenan Mared fod:

[...] yr ieithwedd yn adlewyrchu’r gymdeithas gyfoes [ac] yn ennill cynulleidfa newydd i’r nofel Gymraeg. Y gwir yw, nid yw’r Gymraeg sy’n ffynnu yn y brifddinas ddim yr un fath â’r heniaith ry’n ni’n gyfarwydd â hi. Efallai nad felly y dymunem i bethau fod, ond felly y mae hi (Mared, 2008, t. 154).

Rhaid cydnabod mai dyna’r math o iaith y mae sawl person ifanc yn ei ddefnyddio; rhaid ystyried hefyd y gall y defnydd o’r iaith honno ddenu cynulleidfa newydd i’r theatr Gymraeg, fel y gwnaeth yn achos nofel Llwyd Owen.

Mae’r diwylliant trefol, dwyieithog hwn yn cael ei gydnabod yn aml bellach yn y byd Cymraeg. Mae’r ddrama deledu *Gwaith/Cartref*, er enghraifft, wedi denu llawer o sylw am ei bortread o Gymreictod ac iaith Gymraeg y de-ddwyrain. Yn ôl Sioned Williams, mae’r rhaglen yn ‘archwilio elfen bwysig o Gymreictod modern yn ei phortread o ddiwylliant ysgolion Cymraeg y de-ddwyrain’ ac yn portreadu ‘byd sy’n rhan o ddau ddiwylliant a dwy iaith Cymru ac sy’n fyd i gymaint o deuluoedd y mae’n rhaid ceisio eu denu i wyllo’r sianel’ (Williams, 2011, t. 55). Mae yna alw am bortreadu’r Cymry hyn felly, ac mae yna gydnabyddiaeth gan sawl cyfrwng celfyddydol bod portreadu’r gymuned hon yn fodd i ddenu dilynwyr newydd i lenyddiaeth a’r cyfryngau Cymraeg. Credaf hefyd fod angen cofio pa fath o gymeriadau neu gymdeithas sydd yn cael eu portreadu yn y llenyddiaeth a bwriad yr awdur wrth ysgrifennu. Dywed Llwyd Owen:

Wna i byth ymddiheuro am arddull fy nofel(au) gan fy mod i’n cadw’n driw i fy nghefnidir trefol, dwyieithog ac yn adlewyrchu realiti Cymry’r brifddinas (Owen a ddyfynnwyd yn Dienw, 2006, t. 129).

Yn yr un modd, roeddwn i am gadw fy ngwaith yn driw i’w bwriad gwreiddiol o bortreadu dwyieithrwydd a’r to newydd o Gymry Cymraeg sydd wedi tyfu dros y

blynyddoedd diwethaf. Hefyd os oeddwn am i fy ngwaith gynrychioli gwahanol fathau o Gymry, yna roedd rhaid i mi gynnwys y Saesneg yn fy ngwaith er mwyn adlewyrchu realiti y Gymru sydd ohoni heddiw. Yn wir, i mi, os ydym am gael drama holl-gynhwysfawr am fywyd Cymreig/Cymraeg, ‘drama genedlaethol’ (Williams, 1946, t. 54) fel y dymunai Ifor Williams ei gweld, yna mae’n rhaid cynnwys y Saesneg a meddylfrydau Cymry Saesneg eu hiaith yn y ddrama honno, boed y rheini’n symbol o fygythiad i’r bywyd Cymraeg a bortreëdir ynddi neu’n rhan o fywyd beunyddiol yn y Gymru sydd ohoni heddiw.

Daeth yr her arbennig y mae defnyddio’r Saesneg ar y llwyfan yn ei chynnig i’r amlwg wrth addasu stori fer Rachel Trezise, ‘Fresh Apples’ (2005) i’r llwyfan, o dan oruchwyliaeth Manon Eames. Stori ydyw am Matt, bachgen ifanc o’r Cymoedd sy’n ei chael hi’n anodd ymdopi â bywyd cul y cwm. Ar y pryd, roedd Manon Eames wrthi’n gweithio gyda Catrin Dafydd er mwyn addasu’r stori, ynghyd â straeon eraill Trezise, yn ddrama Gymraeg. Roedd y ddwy awdures am i’w haddasiad dramatig o’r straeon ddefnyddio’r grŵp bychan o gymeriadau fel meicrocosm o Gymru gyfan, ac oherwydd hynny symudwyd lleoliad y stori ‘Fresh Apples’ o Gymoedd y De i ystâd o dai cyngor yn y Gogledd. Drwy ail-leoli’r stori yn y Gogledd hefyd, dilyswyd y defnydd o’r iaith Gymraeg gan mai anodd iawn fyddai dychmygu plant ystadau cyngor y De oll yn siarad Cymraeg. Ond ar gyfer fy addasiad i, *Afalau Surion*, penderfynais gadw’r stori yn y De, gyda Matt yn dod o deulu dosbarth canol, Cymraeg ei iaith, a’i ffrindiau Rhys Davies a Kristian yn byw ar ystâd gyngor gyfagos. Er eu bod yn mynd i’r ysgol Gymraeg gyda Matt, yn wahanol iddo ef, maent yn siarad Saesneg yn unig yn y ddrama, fel y dengys y darn canlynol:

Rhys Davies:	Mate, why you down by ’ere for?
Kristian:	Bit fuckin’ brave for you, inni’?
Matt:	Ma’r wythnos ’ma ’di bod yn... Encumbrance.
Rhys Davies:	You wha’?
Matt:	Encumbrance.
Kristian:	Woss a mean?
Matt:	Ddim yn siŵr. O’dd e’n swno’n iawn.

(t. 100)

Teimlwn y byddai cyfuno’r ddwy iaith, fel y gwnaed uchod, yn gweithio gan fod y stori wreiddiol yn portreadu Matt fel cymeriad sydd ychydig yn wahanol i’w ffrindiau

o'r cychwyn cyntaf. Yn nigwyddiad cyntaf y stori, mae'r plant eraill am gynnau tân ar y mynydd ond mae Matt am eu rhwystro:

'Don't be stupid' I said. 'We should be proud of this mountain, Hol. They haven't got mountains like this in England. And you'll kill all the nature' (Trezise, 2005, t. 3).

Mae ymateb Matt yn datgelu llawer am ei gymeriad. I ddechrau, mae'n wahanol i'w ffrindiau sydd yn unfryd o blaid cynnau tân. Yn ail, mae ei bryder am fyd natur yn datgelu dealltwriaeth ehangach o'r byd sydd o'i gwmpas. Ac yn drydydd, mae ei sylw wrth gymharu mynyddoedd Cymru a Lloegr yn dangos rhyw gyffyrddiad o genedlaetholdeb, neu gariad at Gymru, a dyna sy'n ei gwneud hi'n bosib, yn fy marn i, i ddychmygu Matt fel rhywun a fyddai'n dewis siarad Cymraeg. A phenderfynais gadw'r Saesneg ar wefusau'r plant eraill, nid yn unig gan mai hynny, o'm profiad personol, sydd yn naturiol i blant yr ardal hon, ond hefyd gan fod y Saesneg a ddefnyddir ganddynt yn y stori wreiddiol mor driw i'r iaith a glywir yn y Cymoedd:

'I wouldn't poke 'er anyway,' Kristian was saying when I went back. 'She's a snobby bitch. She's the only form five girl I haven't poked and I don't want to poke 'er. She's frigid inshee?' (Trezise, 2005, t. 6).

Efelychaf yr iaith hon yn fy addasiad, gan ei gwneud hi'n fwy tafodieithol fyth:

Kristian: I wouldn't poke 'er. She's a snobby bitch. She's the only girl in our year I haven't poked and I don't wanna poke 'er. She's frigid inshee?

(t. 106)

Credaf fod y cyfuniad o'r Gymraeg a'r Saesneg yn fy addasiad yn portreadu sut brofiad yw perthyn i gymunedau dwyieithog y Cymoedd sydd yn defnyddio cymysgfa o'r ddwy iaith. Yn ogystal â hynny, i mi, os bwriad yr addasiad oedd defnyddio grŵp bychan o gymeriadau i gynrychioli'r Gymru sydd ohoni heddiw, yna doedd dim modd hepgor y Saesneg yn gyfan gwbl fel y gwna addasiad Manon Eames a Catrin Dafydd. Yn ogystal â hynny, nid Saesneg safonol mo'r iaith a ddefnyddir yn fy addasiad. Mae'n fersiwn o'r Saesneg sy'n perthyn yn agos i'r ardal hon o Gymru. Mae'n iaith Gymreig, hyd yn oed, ac yn iaith y mae plant a phobl yr ardal wedi'i pherchnogi. Ac yn hynny o beth, mae'r Gymraeg a'r Saesneg a ddefnyddir yn fy addasiad ill dwy'n ieithoedd difreintiedig. Mae'r Gymraeg wedi'i ddifreinio gan nad oes llawer o'r cymeriadau'n ei defnyddio hi; yn wir, mae Cymraeg Matt yn mynd ar goll yn llwyr weithiau gan fod cymaint o'i ffrindiau'n siarad Saesneg. Ond mae'r iaith Saesneg

honno hefyd yn ostyngedig gan mai fersiwn ansafonol, toredig a ddefnyddir yma, er gwaethaf ei chyfoeth tafodieithol. Felly, mae pwyslais y stori wreiddiol ar ddifreintedd y cymeriadau yn cael ei adlewyrchu yn ieithweddau fy addasiad.

Ond dadleuwn fod fy addasiad wedi ceisio ail-asesu'r berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn ffordd arall hefyd. Gwna hynny, yn fy marn i, trwy chwarae ar ystrydebau sy'n gweld y diwylliant Cymraeg ei iaith fel diwylliant dosbarth canol, dethol; ystrydebau sydd, o'm profiad i fel rhywun o gefndir Saesneg ei iaith, yn gwbl anwir. Yn fy marn i, mae arwyddion yn y stori wreiddiol bod Matt yn perthyn i ddosbarth cymdeithasol uwch na'i ffrindiau, a chyplysais hynny gyda'i gefndir Cymraeg ei iaith er mwyn chwarae ar y syniad bod y Gymraeg a'i diwylliant yn rhywbeth sy'n perthyn i ddosbarth canol, addysgedig, elitaidd. Mae defnydd Matt o'r Gymraeg yn adlewyrchu ei ddiddordeb yn naearyddiaeth Cymru, fel y gwelir uchod, a hanes y Gymru ddiwydiannol fel y gwelir wrth iddo drafod hanes y dref (gweler Trezise, 2005, tt. 8-9, a'm haddasiad innau, t. 110). Ac mae ganddo ddiddordeb mewn llenyddiaeth ac iaith hefyd. Mae'n dangos diddordeb yng ngwaith Shakespeare ac mae'n hoff iawn o ddysgu geiriau newydd (gweler Trezise, 2005, t. 5, a'm haddasiad innau, tt. 104-105). Mae gan Matt ddiddordeb yn y pethau hyn, hanes, iaith, llyfrau, tra bo'i ffrindiau'n eu diystyru. Mae ei dad hefyd yn athro. Ychwanega hyn oll at yr ymdeimlad mai bachgen dosbarth canol yw Matt, ac mae'i ddefnydd o'r Gymraeg yn ategu hynny yn fy addasiad, oherwydd mai trwy gyfrwng y Gymraeg y cawn glywed am ddiddordebau 'dosbarth canol' Matt.

Mae Rhys Davies, Kristian a'r merched ar y llaw arall yn yfed, yn siarad am ryw ac yn cynnau tân mynydd fel llawer o blant eraill. Mae enghreifftiau o deuluoedd ar chwâl yma hefyd gan fod tad Rhys Davies yn y carchar. Nid yw'n anodd dychmygu y byddai rhai yn dueddol o ystyried gweithgarwch y plant eraill a'u cefndiroedd teuluol yn rhywbeth israddol. Mae mam a thad Matt yn gwneud hyn wrth ddisgrifio Rhys Davies a Kristian yn '[f]echgyn o'r fath' gan dybio bod eu mab hwy yn well na'r bechgyn hynny (t. 105). Trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg hefyd, felly, y cawn glywed beirniadaeth rhieni Matt o ymddygiad 'israddol' ffrindiau eu mab. Y Gymraeg yw iaith safonau uchel, iaith ymddygiad moesol, iaith byd sy'n ymwrthod â direidi'r plant, gweithredoedd y mae'n rhaid iddynt gynnal trwy gyfrwng y Saesneg. Ond yn eironig, mae Matt yn ymddwyn yn waeth na'r bechgyn y mae'i rieni'n eu

beirniadu - awgrymwyd iddo dreisio merch anabl, pedair ar ddeg oed. Ond er difrifoldeb y cyhuddiad yn ei erbyn, mae ymddygiad troseddol Matt, a'r ffaith ei fod yn ymddwyn yn dramgwyddus fel ei ffrindiau, yn dangos nad yw'r ffaith ei fod yn dod o gefndir Cymraeg ei iaith yn ei wneud e'n well o gwbl na neb arall. Daw'r Gymraeg hefyd, yn bell o fod yn iaith aruchel neu elitaidd, yn iaith bywyd go iawn a'i holl ffaeiddau. Nid yw'r gwahaniaethau ieithyddol rhwng Matt a'r plant yn creu holltau rhyngddynt felly, ac yn golygu bod un yn fwy doeth na'r llall - maent oll yn gorfod ymdopi ag annoethineb a ffolineb eu hieuenctid waeth beth yw eu cefndir teuluol, ieithyddol neu gymdeithasol.

Mae'r Gymraeg eisoes wedi'i ddefnyddio ochr yn ochr â'r Saesneg ar y llwyfan er mwyn dangos gwahaniaeth yn statws cymdeithasol y cymeriadau yn addasiad cwmni Llundain Byw o *Miss Julie* gan August Strindberg (2010). Yn y ddrama honno, roedd y gweision yn siarad Cymraeg â'i gilydd, ond byddai Jean, gwas deallus, diwylliedig yn troi i'r Saesneg wrth siarad â Miss Julie, merch meistr y tŷ, gan sylweddoli y byddai perthynas gyda hi yn ffordd o wella'i hunan. Dywed Rhydian Jones, a fu'n chwarae rhan Jean, fod y cymeriad yn 'gweld y Saesneg fel iaith llwyddiant a chynnydd' (Jones, a ddyfynnwyd yn Dienw, 2010, t. 25) a dywed Ragna Weisteen a fu'n chwarae Miss Julie fod defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr wedi 'dod â dyfnder newydd i'r holl beth' (Weisteen, a ddyfynnwyd yn Dienw, 2010, t. 24). Dadleuwn fod defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr yn fy nrama *Afalau Surion* yn creu mwy o ddyfnder fyth. Mae'r gwahaniaethau ieithyddol yn gweithio mewn ffordd ddeublyg. Ar y naill law mae defnydd Matt o'r Gymraeg yn ymddangos fel petai'n ei ddyrchafu uwchben ei ffrindiau o ran paddosbarth cymdeithasol y gellir tybio ei fod yn perthyn iddo. Ond ar y llaw arall, gan mai Matt yw'r unig un o'r ffrindiau sy'n defnyddio'r iaith leiafrifol yn gymdeithasol, mae ef ei hun yn lleiafrif. Daw'r iaith i symboleiddio ei unigrwydd, y lletchwithdod hwnnw sy'n symptomatig o fywyd sawl un yn ei ardegau na all ddod o hyd i'w le yn yr hierarchaeth gymdeithasol.

Mae'r awdur Owen Martell wedi cyfeirio at broblemau tebyg sy'n gysylltiedig ag iaith a gafodd wrth gyfieithu drama Martin Crimp, *Attempts on Her Life* (1997), i'r Gymraeg. Dywed wrth drafod ei addasiad, *Ceisio i Bywyd Hi* (2009):

Mae tipyn o rym y ddrama wreiddiol yn dibynnu ar... [yr] ymdeimlad o fodoli mewn diwylliant mwyafrifol. Mae hi'n anodd cyfleu'r pethau hynny yn Gymraeg... Ry'n ni'n perthyn i brif ffrwd y diwylliant Gorllewinol... ond mae rhywbeth arall yna hefyd (Martell, a ddyfynnwyd yn Miles, 2009, t. 69).

Yn y ddrama *Attempts on Her Life*, traddodir sawl llinell mewn ieithoedd tramor gwahanol, er enghraifft yr iaith Tsiec neu ieithoedd Affricanaidd, er mwyn creu ymdeimlad o globaleiddio. Ond yng nghyfieithiad Martell, defnyddir Rwsieg a Sbaeneg De America (Martell, 2009, tt. 1, 42). Yn ogystal â chynrychioli ieithoedd mwyafrifol y byd, mae Sbaeneg De America yn arbennig o bwysig wrth ystyried sylwadau Martell uchod. Iaith concwest yw'r iaith honno, sy'n gwrthgyferbynnu'n effeithiol â'r Gymraeg, iaith lleiafrifol, a ddefnyddir yng ngweddill y cyfieithiad. Mae hynny'n helpu ffurfio'r ymdeimlad hwnnw o '[r]ywbeth arall' yr oedd Martell am ei greu, yr ymdeimlad o'r Gymraeg a'i diwylliant fel rhywbeth lleiafrifol. Mae ei gyfieithiad, felly, oherwydd ei ddewisiadau ieithyddol, wedi ychwanegu rhywbeth newydd at y ddrama. Mae'n portreadu sut brofiad yw hi i fyw mewn diwylliant lleiafrifol sy'n gorfod ymdopi â'r newidiadau a ddaw yn sgîl globaleiddio. Mae hynny'n newid rhywfaint ar y fersiwn gwreiddiol sy'n portreadu effaith globaleiddio ar unigolion. Dadleua Helen Gilbert a Joanne Tompkins y dylai drama mewn cyfieithiad ddweud rhywbeth gwahanol i'r gwreiddiol am y byd y mae'n ei bortreadu – dylai naill ai 'unsay the world' neu 'speak it otherwise' (Gilbert a Tompkins, 1996, t. 176). Dyma a wna addasiad Owen Martell. Ond i mi, mae fy addasiad o 'Fresh Apples' yn gwneud rhywbeth ychwanegol hefyd. Nid yw fy addasiad yn creu fersiwn Cymraeg o'r stori er mwyn ei gymharu'r â'r stori Saesneg wreiddiol yn unig. Mae methiant cymdeithasol Matt a bywydau llwm a dyfodol ansicr y plant eraill yn fodd i ddangos bod y ddwy gymuned ieithyddol yng Nghymru yn ddifreintiedig. Yn hynny o beth mae fy addasiad yn ffocysu ar brofiad sy'n gyffredin i'r ddwy gymuned ieithyddol, ac nid ar y pethau sy'n eu gwahanu.

Yn ogystal ag ystyried iaith y dramâu o'r safbwynt technegol, ystyriais iaith fel thema hefyd. Dewisais wneud hynny yma, yn hytrach nag yn y bennod gyntaf, oherwydd roeddwn am ystyried sut y mae'r geiriau penodol a ddewisir, ac nid rôl y thema o fewn y ddrama yn unig, yn dangos sut y mae profiadau dwy gymuned ieithyddol o'r un digwyddiad yn wahanol iawn i'w gilydd. Rôl iaith yn nychymyg, cof a hanes y genedl yw un o brif themâu fy nrama *Colli Iaith a Cholli Urddas*. Mae

Gavin, un o'r ddau gymeriad yn y ddrama, wedi bod mewn damwain car ddifrifol ac nid yw'n cofio unrhyw beth heblaw sut i siarad Cymraeg, ei ail iaith, ac yn fwy na hynny, iaith nad oedd ganddo lawer o ots amdani pan oedd yn yr ysgol. Adlewyrchir hynny gan y ffaith mai'r Gymraeg a gofia ef yw iaith ei wersi Cymraeg yn unig:

- Gavin: Am, ar, at, gan, heb, i, o, dan, dros, drwy, wrth, hyd, am, ar, at,
gan, heb, i, o, dan –
Huw: (*Gan bwyntio at yr arwydd 'Distawrwydd'*) Shhh!
Distawrwydd
Gavin: (*Heb deimlad, fel petai wedi dysgu'r llinell*) Ni all terfysgoedd
daear byth gyffroi distawrwydd nef.
Huw: Ma' hynny'n meddwl dim siarad.
(t. 117)

Mae atgofion Gavin am ddysgu arddodiaid a cherddi T. H. Parry-Williams yn atgofion a fydd yn gyffredin iawn i bobl a fynychai ysgolion Cymraeg yn ystod eu hieuenctid. Ond mae un o'r atgofion sy'n dod iddo wedyn, sef atgof o wyllo *Pam Fi, Duw?* (t. 121) yn awgrymu mai un o do newydd o siaradwyr Cymraeg a fynychodd ysgolion y De-Ddwyrain ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif hon yw Gavin. Atgyfnerthir hynny gan y ffaith ei fod yn gweld tebygrwydd rhyngddo ef ac un o gymeriadau *Pam Fi, Duw?*, nofel ac yna ddrama deledu a oedd yn portreadu'r union do hwnnw o siaradwyr Cymraeg. Gellir ystyried, felly, bod Gavin, cyn ei ddamwain, wedi bod yn siaradwr Cymraeg na wyddai lawer am gyd-destun hanesyddol yr iaith. Mae ei sylw fod Mr Pritchard, ei athro Cymraeg, wedi dweud wrtho nad oedd ganddo lawer o ots am yr iaith yn yr ysgol (t. 117) yn awgrymu hyn. Mae anwybodaeth Gavin ynglŷn â chyd-destun hanesyddol y Gymraeg pan oedd yn yr ysgol yn awr yn cael ei symboleiddio gan fath arall o anwybodaeth ieithyddol y mae Gavin yn dioddef ohoni yn sgil ei ddamwain, sef y ffaith nad yw'n medru'r Saesneg bellach.

Er hynny mae'r ieithweddau y mae Gavin a Huw yn eu defnyddio yn golygu bod yna gyfnewid aml rhyngddynt o ran awdurdod. O ran hynny, maent yn debyg i barau a welir yn y ddrama absŵrd sy'n pendilio rhwng hyn a'r llall, yn cyfnewid awdurdod heb ddod i fawr o gasgliad. Gwelwn enghreifftiau o'r rhain yn nramâu Wil Sam a Gwenlyn Parry, gyda'r parau fel petaent yn chwarae gemau ieithyddol. Yn *Bobi a Sami* (1988), gwyddom mai Sami sydd mewn awdurdod gan amlaf am fod ganddo'r gallu i drin geiriau'n well na Bobi:

Sami: Ma' nhw wedi hen arfar cael pobol o'u cwmpas.
 Bobi: Pwy?
 Sami: Meiri.
 Bobi: Be' 'di Meiri?
 Sami: Mwy nag un Maer.

(Sam, 1995, t. 96).

Mae'r ffaith bod Sami'n gwybod y gair am 'mwy nag un Maer' yn adlewyrchu'r ffaith ei fod yn fwy gwybodus na Bobi ynglŷn â'r Maer. Yn *Y Ffin* gan Gwenlyn Parry (1973), mae yna bwrpas gwahanol i gemau geiriol, fel y dengys yr enghraifft hon:

Now: Chi ddaru ddoe!
 Wilias: Ti!
 Now: Chi!
 ...
 Now: Echdoe oedd hynny!
 Wilias: Ddoe!
 Now: Echdoe.
 Wilias: Ddoe!
 Now: Echdoe, dwi'n deud wrthach chi.
 (Parry, 2001, t. 188).

Mae'r pendilio rhwng 'chi' a 'ti', 'echdoe' a 'ddoe', ac yn ddiweddarach 'unwaith' a 'dwywaith' (Parry, 2001, t. 188) yn dangos sut y mae eu perthynas y chwalu ac yn troi'n ddiffwrwyth.

Mae geiriau Gavin yn cael yr un effaith ar Huw ag y mae geiriau cymeriadau Parry'n cael ar ei gilydd. Wrth i Gavin fynd yn ei flaen, mae ei eiriau'n drysu ac yn cythruddo Huw fwyfwy. Ond mae i eiriau a brawddegau rhyfedd Gavin arwyddocâd arall. Maent yn dangos ei fod wedi colli'i gof, ac mae hynny'n adlewyrchu'r hunaniaeth bersonol a chenedlaethol na all wneud synnwyr ohoni oherwydd y ddamwain a gafodd, a'i sefyllfa fel siaradwr Cymraeg ail-iaith. Mae ei eiriau'n ymddangos fel petaent wedi'u dewis ar hap a damwain. Nid oes ganddynt unrhyw gyd-destun o fewn y sgwrs y mae Gavin yn ei chael gyda Huw, ac yn yr un modd nid oes gan Gavin unrhyw ymwybyddiaeth o gyd-destun hanesyddol y Gymru y mae ef yn perthyn iddi (gweler Pennod 1). Wrth sôn am y defnydd a wnaed o'r Saesneg gan awduron ôl-drefedigaethol sy'n teimlo bod y Saesneg yn gormesu eu hieithoedd brodorol, sonia Helen Gilbert a Joanne Tompkins am sut y mae'r awduron hyn yn addasu'r Saesneg, yn ei rhwygo'n ddarnau a'i hail-ffurfio. Gwnânt hynny er mwyn dangos eu dicter ynglŷn â'r ffaith eu bod nhw'n gorfod defnyddio'r Saesneg er mwyn

trafod profiadau sy'n perthyn i ddiwylliant iaith arall, leiafrifol (Gilbert a Tompkins, 1996, t. 176). Ond yn rhyfedd iawn, mae Gavin wedi'i orfodi i ddefnyddio'r Gymraeg, yr iaith arall, leiafrifol yn yr achos hwn, i geisio trafod rhai o'i brofiadau cynharach sydd wedi'u ffurfio gan y Saesneg, ac sy'n perthyn i fyd yr iaith honno. Y Gymraeg, felly, yw'r iaith y mae ef yn ei thorri'n ddarnau wrth siarad. Trwy osod y Gymraeg fel yr iaith y mae Gavin wedi'i orfodi i'w siarad, gwelwn y rhwystredigaeth y mae Gavin yn ei theimlo wrth iddo geisio mynegi ei hun drwy iaith nad yw'n hollol naturiol iddo.

Mae cyfnewid rolau ieithoedd mwyafrifol a lleiafrifol fel hyn yn ddyfais ddramatig sydd wedi'i defnyddio mewn ffyrdd diddorol mewn sawl drama sy'n trafod cenedligrwydd. Mae'r ddrama *Translations* gan Brian Friel (1981), a drafodwyd eisoes (gweler Pennod 1), yn defnyddio iaith mewn modd creadigol iawn er mwyn trafod y berthynas rhwng dwy gymuned ieithyddol Iwerddon. Mae'r cymeriadau oll, yn llythrennol, yn siarad Saesneg, ond yn fuan iawn, sylweddolwn ein bod ni fel cynulleidfa i fod i ddychmygu bod rhai yn siarad Gwyddeleg:

Maire	That's the height of my Latin. Fit me better if I had even that much English.
Jimmy	English? I thought you had some English?
Maire	Three words.

(Friel, 1981, t. 7).

Mae'r gynulleidfa felly'n ymwybodol bod y Gwyddelod yn siarad 'Gwyddeleg' a'r milwyr Saesneg yn unig sydd yn siarad Saesneg, mewn gwirionedd. Cawn ein hatgoffa o hynny yn gyson drwy'r ddrama, fel y dengys y sgwrs hon rhwng Yolland, milwr Seisnig sy'n siarad Saesneg, a Maire, merch Wyddelig sy'n siarad yr Wyddeleg:

Maire	The grass must be wet. My feet are soaking.
Yolland	Your feet must be wet. The grass is soaking.

(Friel, 1981, t. 62).

Mae'r ddau yn siarad mewn ieithoedd gwahanol ac yn hollol anymwybodol eu bod yn dweud bron yr un peth union â'i gilydd. Yn ogystal â phwysleisio'r diffyg cyfathrebu y sonia David Ian Rabey amdano, (gweler Pennod 1), dengys hyn hefyd sut y mae gwahanol gymunedau ieithyddol yn profi'r un pethau mewn ffyrdd gwahanol, ac yn gweld arwyddocâd gwahanol yn yr un profiadau. Mae Maire a Yolland yn profi'r un

peth, ac yn defnyddio geiriau tebyg i'w ddisgrifio, ond maent yn gosod eu geiriau mewn trefn wahanol er mwyn dangos sut y mae'r ddwy gymuned ieithyddol yn teimlo ynglŷn â'r un profiadau. Yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio'r profiad sydd yn ffurfio'r profiad ei hun, felly. Yn fy nrama i, dyna pam y mae Gavin am ail-ddarganfod ei allu i siarad Saesneg. Y mae angen y Saesneg a'r Gymraeg arno gan ei fod wedi arfer â phrofi ei fyd drwy'r ddwy iaith. Nid yw'r un iaith yn ddigon iddo ddeall y Gymru y mae'n perthyn iddi. Mae hwn yn syniad sy'n greiddiol i'm bwriadau wrth lunio'r dramâu hyn, a chredaf mai cymeriad Gavin sy'n adlewyrchu hyn orau. Mae'n benderfynol o gofio'r Saesneg, hyd yn oed pan fo Huw yn taeru nad oes angen y Saesneg arno a bod y Gymraeg yn mynd i fod yn iaith fawr yn y dyfodol (tt. 141-142). Mae'n mynnu cael mynegi ei hun yn y ddwy iaith.

A theimlaf mai dyma, i raddau, a bortreëdir yn fy nramâu innau hefyd. Mae angen lle i'r ddwy iaith a'r ddwy gymuned ieithyddol i fynegi eu hunain, ac mae angen adlewyrchu dwyieithrwydd hefyd yn ein cynnyrch llenyddol. Nid oes modd cael portread llawn o Gymru a Chymreictod heb ystyried profiadau'r cymunedau ieithyddol gwahanol sy'n perthyn i'r wlad. A gobeithiaf, yn y dyfodol, y bydd rhai awduron yn portreadu'r berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg a'r ieithoedd eraill sy'n cael eu siarad yng Nghymru er mwyn cael darlun llawnach fyth o dirlun ieithyddol Cymru. Credaf fod y ffordd y mae fy nramâu yn trin iaith fel dyfais dechnegol ac fel thema yn llwyddo i gynrychioli'r hyn y mae gwahanol gymunedau ieithyddol Cymru yn ei rannu, megis yn *Afalau Surion*, ac i gynrychioli hunaniaethau newydd, megis siaradwyr ail-iaith fel Gavin. Efallai y bydd y defnydd o'r Saesneg yn *Afalau Surion* yn cael ei ystyried yn wendid neu'n rhywbeth sydd yn ddiangen yn y theatr Gymraeg. Ond yn fy marn i, mae fy nefnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr â'i gilydd yn cynnal trafodaeth lawnach ar sut beth ydyw i fod yn Gymro neu'n Gymraes heddiw. Cawn ddeall sut brofiad ydyw i fyw gyda dylanwadau dwy iaith a sut y mae ymdopi â hynny. Os ydym am weld 'drama fawr' am natur ein hunaniaeth genedlaethol, fel y gobeithiodd Ifor Williams, yna efallai mai gwaredu'r rhwystrau ieithyddol sydd ei angen. Yn y bennod nesaf trafodir y cwynion a fu am ymdrechion aflwyddiannus amryw gwmmni theatr cenedlaethol yng Nghymru i gynrychioli realiti'r Gymru gyfoes. Efallai mai trwy gyfuno'r Gymraeg a'r Saesneg ar y llwyfan, neu drwy gyfuno gwahanol dafodieithoedd fel yr wyf i wedi'i wneud, y gallwn greu drama sy'n portreadu gwirionedd y profiad o fyw yng Nghymru heddiw.

Pennod 3: Ffurf, Arddull a Pherfformio

Wrth ystyried rôl iaith yn y ddrama, dangosodd y bennod ddiwethaf bod angen dyfeisio arferion theatrig sy'n gallu cynrychioli realiti ieithyddol a diwylliannol y cymunedau Cymraeg a Saesneg ei hiaith yng Nghymru. Bydd y bennod hon yn trafod sut y mae arddulliau llenyddol a pherfformiadol fy nramâu yn ychwanegu at y ffordd y maent yn ceisio portreadu'r Gymru sydd ohoni heddiw, a sut y gwnaed hynny gan ddramodwyr a chwmmniau theatr eraill yn y gorffennol. Byddaf yn trafod sut y gall addasu dramâu clasurol ar gyfer amgylchiadau'r byd modern gynnig portread amgen o'r genedl neu genedligrwydd. Ystyriaf hefyd sut yr aethpwyd ati i ddefnyddio technegau perfformiadol ac i ddewis lleoliadau y tu allan i'r theatr er mwyn osgoi arddull a oedd yn honni mai'r fersiwn swyddogol, caeëdig o Gymreictod sydd yn cael ei arddangos gennyf. Bydd y bennod hon yn ystyried i ba raddau y llwyddais i wneud hynny trwy'r arddulliau a'r ffurfiau y dewisais eu defnyddio yn fy nramâu.

Y ffurf ar theatr a gysylltir yn aml gyda realiti cenedl yw'r theatr genedlaethol. Credir mai'r theatr hon sy'n cynrychioli meddylfryd y genedl ac sy'n arddangos y gorau o'i doniau diwylliannol. Gwna hynny drwy gynhyrchu gweithiau gan ddramodwyr cenedlaethol ac ail-ddehongli clasuron y llwyfan. Ond mae'r math hwn o theatr yn aml yn codi mwy o gwestiynau am natur y genedl nag y mae'n eu hateb. Fel y gofynna Nadine Holdsworth:

Are national theatres representative of the wider populace in terms of the key identifiers of age, race, regionality and class? If they are not, can we regard them as national theatres? And what about the material that appears on the stages of national theatres? What and whom does a national theatre represent? Whose stories are told, and why are these stories that a nation needs to narrate? (Holdsworth, 2010, t. 35).

Mae'r cwestiynau hyn yn amlwg iawn yn y trafodaethau a geir am sefydlu theatr genedlaethol yng Nghymru. Dywed Anwen Jones mai'r hyn sy'n ddiddorol am Theatr Genedlaethol Cymru yw bod y ddadl ynglŷn â sut i bortreadu hunaniaeth genedlaethol Gymraeg/Gymreig wedi parhau, ac nid diflannu, ers ei sefydlu (Jones, 2007, t. xi). Gwelwyd y cwestiynau hyn yn codi yn sgîl ail gynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru, cyfieithiad o *Romeo and Juliet*, pan leisiodd sawl un eu pryderon fod hunaniaeth genedlaethol Cymru wedi'i rheoli gan werthoedd mewnfriedig (Jones, 2007, t. x). Ymddengys, felly, mai amser caled sy'n wynebu sefydliad theatrig

genedlaethol wrth geisio portreadu'r hunaniaethau cymhleth sy'n perthyn i'r Gymru sydd ohoni heddiw.

Fel y crybwyllwyd eisoes gennyf, traddodiad cymunedol yw'r traddodiad theatr yng Nghymru. Nid oes gennym draddodiad hir o theatr broffesiynol. Mae dramâu cymunedol megis Theatr yr Anterliwt a dramâu'r Mudiad Drama, dramâu a oedd yn perthyn i'w cymunedau lleol, yn dangos hynny. Ac mae'r traddodiad hwn wedi parhau hyd yn gymharol ddiweddar gyda dyfodiad cwmnïau theatr megis Theatr Bara Caws a Theatr Gorllewin Morgannwg a oedd yn 'creu theatr a wasanaethai gynulleidfa frodorol, dosbarth gweithiol ar ei thelerau a'i thiriogaeth ei hun' (Owen, 2003, t. 29). Ymddengys felly fod theatr gymunedol yn gyfrwng sy'n gweddu i genedl fach a chanddi hunaniaethau a diwylliannau lleiafrifol, brau i'w cynrychioli. Wrth drafod drama ôl-drefedigaethol, mae Helen Gilbert a Joanne Tompkins yn dadlau:

[...] the development of a contemporary post-colonial theatre praxis has necessitated the rejection of formal western theatre spaces in favour of 'outside' alternatives[...] Those plays that move out of the conventional theatre buildings become instantly more vibrant (Gilbert a Tompkins, 1996, t. 157).

Mae'r arfer hwn o fynd â theatr y tu hwnt i gyfyngderau'r llwyfan bwa proseniwm traddodiadol yn un a fabwysiadwyd gan Theatrau Bara Caws a Gorllewin Morgannwg wrth iddynt berfformio'u dramâu mewn 'clybiau chwaraeon, gwestai a thafarndai, capeli a neuaddau coffa' (Owen, 2003, t. 33). Roedd cynnyrch y cwmnïau hyn hefyd yn gymunedol – digwyddiadau yn ystod Streic Chwarel y Penrhyn oedd cynnwys *Bargen* gan Bara Caws (1979) a chyd-destun *Baled y Garreg Ddu* gan Theatr Gorllewin Morgannwg (1990) oedd Streic y Glowyr yn yr 1980au (gweler Owen, 2003, tt. 37, 65-66). Byddai trafferthion y cymunedau a bortreadid ar y llwyfan yn adlewyrchu'r trafferthion a geid yng nghymunedau'r cynulleidfaoedd a fu'n eu gwyllo. Ond yn ogystal â gwedd gymunedol eu sioeau, yn aml iawn gwelir neges i'r genedl gyfan yn eu perfformiadau, gan bwysleisio'r ffaith y 'bu gorthrwm a thlodi ymhob cornel o'n gwlad', fel y dywed Tim Baker, cyfarwyddwr Theatr Gorllewin Morgannwg hyd 1997 (Baker, a ddyfynnwyd yn Owen, 2003, t. 67). Ond trwy lynu at y theatr gymunedol hon, a oes yna berygl i'r dramâu a gynhyrchir golli'r gallu hwn i gyfathrebu eu negeseuon i gymunedau eraill? Rhaid, felly, ddod o hyd i ffurf a all gyfuno elfen o broffesiynoldeb a phoblogrwydd y theatr gymunedol. Yn y modd hwn,

gallwn ddod o hyd i ffurf theatrig gredadwy er mwyn cynrychioli'r profiad o fyw yn y Gymru gyfoes.

Un ffordd o arbrofi gyda ffurf ac arddull y ddrama yw ailwampio hen ddramâu, yn enwedig dramâu enwog o ganonau llenyddol gwledydd mawr Ewrop, gan newid rhai o elfennau craidd y dramâu hyn er mwyn siapio neges amgen ar gyfer cynulleidfa newydd. Yn aml, defnyddir y math hwn o weithgarwch theatrig gan wledydd neu ddiwylliannau a fu dan ormes pwerau trefedigaethol Ewrop, er mwyn ail-ystyried effaith y goresgyniad ar eu pobl. Mae Gilbert a Tompkins yn dadlau, pan fo awdur o un o'r diwylliannau llai hyn yn ail-ysgrifennu naill ai cymeriadau, neu naratif, neu gyd-destun drama diwylliant mwyafrifol, maent yn peri newid i strwythurau pŵer y ddrama honno megis y berthynas rhwng y gormeswyr a'r rheini sydd wedi'u gormesu, er enghraifft (Gilbert a Tompkins, 1996, t. 16). Penderfynais y byddai drama o'r fath yn gweddu i genedl fel Cymru; fel y soniwyd eisoes, weithiau cafwyd dipyn o wrthwynebiad i gynrychiadau o weithiau mawr Lloegr mewn cyfieithiad, ond efallai y byddai drama Gymraeg newydd wedi'i seilio ar un o ddramâu Shakespeare yn taro'r nod. Mae fy nrama *Hawdd Cynnau Tân* wedi'i seilio i raddau ar *Othello* a berfformiwyd gyntaf tua 1603 (gweler Shakespeare, 1997b, tt. 2100-2174). Fel *Othello* a *Desdemona*, cariadon drama Shakespeare, mae gan fy nrama innau gariadon, Arshad a Delyth. Ond yn bwysicach i'r ddrama o safbwynt ail-ystyried rôl Cymru a Chymreictod yn y byd sydd ohoni heddiw yw cymeriad Ieuan, sy'n cyfateb i Iago yn y ddrama wreiddiol. Fel ei ragflaenydd, mae Ieuan yn enghraifft o gymeriad y *malcontent*. I mi, roedd meddylfryd y math hwn o gymeriad yn debyg iawn i'r cenedlaetholwr brwd yr oeddwn am i Ieuan fod – fel cenedlaetholwr mae Ieuan, fel Iago gynt, yn anhapus â'r byd fel y mae, a'i sefyllfa ef oddi mewn i'r byd hwnnw. Ond yng nghyd-destun cenedlaetholdeb, roedd modd ehangu ar hynny fel bod anhapusrwydd Ieuan â'i sefyllfa ei hun yn adlewyrchu ei anhapusrwydd â sefyllfaoedd ei gyd-Gymry, boed y rheini yn Affganistan, nôl adref, neu'n perthyn i'r gorffennol. Mae Ieuan yn gweld cyfle i bob Cymro gael ei ddyrchafu'n arwr dros ei wlad, tra bo Iago am ddyrchafu ei hun ar draul pawb arall. Gwelir hyn wrth i Ieuan geisio perswadio Steve fod gan y Cymry y potensial i fod yn arwyr milwrol a all ddatrys eu sefyllfa anodd trwy ymladd:

Cwffio 'dan ni'r Cymry 'di g'neud erioed. Ers oes yr arth a'r blaidd. Cwffiws ydan ni. 'Di cael mileniwm a hanner o 'marfar (t.56).

Ond nid oes lle i arwyr, yn yr ystyr filwrol, yn fy nrama i nac yn nrama Shakespeare. Er eu bod ar faes y gad, nid yw'r un o'm cymeriadau yn ymladd – mae un yn ddoctor, un yn nyrs a'r ddau arall yn filwyr clwyfedig sy'n derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Yn *Othello* hefyd, erbyn i'r milwyr gyrraedd Cyprus i amddiffyn yr ynys rhag y Twrciaid, mae storm wedi dryllio llynges y gelyn, felly nid oes rhyfel i'w hymladd. Yn ogystal â hynny, un o brif themâu Shakespeare yw anallu Othello i ymddwyn fel yr arwr y dylai fod, boed hynny oherwydd lliw ei groen a'i gefndir diwylliannol 'egsotig' neu beidio. Ond yn wahanol i ddrama Shakespeare, Ieuan y *malcontent* yw'r prif gymeriad, ac felly daw'n rhyw fath o wrtharwr – er ei fod yn gymeriad y byddai cynulleidfa Gymraeg efallai'n cydymdeimlo ag ef, nid yw'n gymeriad hoffus mewn sawl man yn y ddrama. Ar y dechrau, mae Ieuan wedi troi yn erbyn y rhyfel, mae'n cydymdeimlo gyda phobl gyffredin Affganistan ac yn teimlo'n angerddol iawn dros Gymru (tt. 56-60). Ond erbyn y drydedd olygfa, mae Ieuan wedi newid. Try yn ymosodgar tuag at Delyth a'i galw hi'n 'hwren' (t. 79), a phan siarada yn hiliol am Arshad gwelwn fod ei angerdd dros Gymru wedi'i arwain i ymddwyn yn rhagfarnllyd tuag at garfanau eraill o Gymry (t. 79). Yn wahanol i'w ragflaenydd Shakespearaidd sy'n dangos ei bersonoliaeth gas i'r gynulleidfa bron ar unwaith, mae'n bosib y byddai cynulleidfa yn gallu gweld rhai o'u gwerthoedd eu hunain yng nghymeriad Ieuan ar y dechrau cyn i'r gwir am ei gymeriad ddod i'r golwg. Daw'r rhith i ben yn gyfan gwbl erbyn y diwedd, pan dry Ieuan yn hunan-fomiwr gan ladd ei hun a'i ffrind Steve, nid yn unig oherwydd ei deimladau angerddol dros Gymru, ond oherwydd y boen y mae'n ei theimlo o wybod bod ei berthynas â Delyth wedi dod i ben, ac oherwydd yr erchyllterau y mae ef wedi'u gweld wrth ymladd. Gan fod Ieuan yn marw yn y diwedd, mae fy nrama fel petai'n awgrymu bod angen gwaredu agweddau rhagfarnllyd am bwy sydd yn Gymry go iawn, fel sydd gan Ieuan, a symud tuag at Gymru amlddiwylliannol a gynrychiolir gan gymeriad Arshad. Yn wahanol i *Othello*, felly, lle mae Othello yn marw oherwydd ei fod yn wahanol ac yn methu cydymffurfio ag unffurfiaeth anhyblyg y wlad y mae'n ymladd drosti, mae marwolaeth Ieuan, a'r ffaith ei fod ef yn lladd rhywun goddefgar fel Steve, yn dangos i raddau y peryglon sydd ynghlwm wrth ragfarn tuag at gymunedau gwahanol. Trwy adleisio dadl Gilbert a Tompkins am ail-ysgrifennu drama glasurol er mwyn dweud rhywbeth newydd, rwyf wedi newid y drafodaeth ar hil a'r 'arall' yn *Othello* i

drafodaeth ar yr angen i werthfawrogi'r gwahanol gymunedau o Gymry sy'n bodoli yn y wlad.

Mae llawer o'r dramodwyr sy'n addasu'r hen weithiau clasurol ar gyfer cenedl amgen yn dewis adlewyrchu cyfoeth diwylliannol y genedl honno yn eu fersiynau hwy, trwy gynnwys enghreifftiau o'u traddodiadau llenyddol neu berfformiadol yn y ddrama newydd. Mae rhai dramodwyr Affricanaidd, er enghraifft, yn cynnwys dawns draddodiadol yn eu haddasiadau o drasiediau Groegaidd (gweler Gilbert a Tompkins, 1996, tt. 38-43). Yn y Gymraeg, wrth gyfieithu *Y Bacchai* gan Ewripides, dywed Gareth Miles ei fod wedi defnyddio 'ieithweddau'r Cynfeirdd, y Gogynfeirdd, y Salmau ac Actau'r Apostolion yn ôl William Morgan, ac emynau Williams Pantycelyn ac Ann Griffiths' (Miles, 1991, t. 3). Yn ogystal â hynny, defnyddia'r gair 'cyfaddasiad' yn hytrach na 'chyfieithiad' i ddisgrifio'i fersiwn newydd (Miles, 1991, t. 3). Ymddengys felly fod Miles am i'w addasiad ef ddathlu traddodiadau llenyddol a diwylliannol Cymraeg, yn union fel y mae'r ddrama wreiddiol yn arddangos diwylliant Groegaidd. Mae'n amlwg hefyd fod Miles yn gweld fod ei benderfyniad i gynnwys yr ieithweddau hynny yn ychwanegu rhywbeth at y ddrama, ac yn peri iddo ddweud rhywbeth am y Gymru fodern, gan olygu mai 'cyfaddasiad' ac nad 'cyfieithiad' yn unig ydyw. Wrth drafod cyfieithiadau o ddramâu canonaidd, dywed Willy Maley a Philip Schwyzer, 'there is probably no better way to attest to the vibrancy of a living language than to translate Shakespeare's works into it' (Maley a Schwyzer, 2010, t. 1). Ond dengys Miles y gellir mynd gam ymhellach na hynny trwy gynnwys enghreifftiau neu dynnu ar y diwylliant llenyddol sy'n perthyn i iaith yr addasiad newydd, a hynny er mwyn dangos cyfoeth y diwylliant hwnnw heddiw. Defnyddiais y dechneg hon yn fy nrama innau hefyd, ond er mwyn cyflawni effaith ddeublyg wrth i Ieuan adrodd *Y Gododdin* (t. 56). I Ieuan, mae'r gerdd yn cynrychioli sut y gormeswyd Cymru gan Loegr ers ei dechreuadau hi fel gwlad hyd heddiw, gan fod y gerdd yn trafod brwydro rhwng Cymry a Saeson ganrifoedd yn ôl. Mae'r sefyllfa hon bellach wedi newid, ond mae'n sefyllfa waeth yn ôl Ieuan gan fod y Cymry yn awr yn brwydro ar yr un ochr â'r Saeson (t. 56). Ond ar lefel arall, gwelwn fod Ieuan yn defnyddio'r gerdd fel rhyw fath o bropaganda dros y cynllun sydd ganddo i wrthryfela yn erbyn y Fyddin, sy'n ei ormesu yn ei farn ef. Mae'n defnyddio'r gerdd fel tystiolaeth i brofi mai 'cwffio 'dan ni'r Cymry di g'neud erioed...'Di cael mileniwm a hanner o 'marfar' trwy frwydro yn erbyn ein gormeswyr

(t. 56). Mae'n defnyddio hynny i gyfiawnhau ei ddewis i beidio ag ymladd dros y Fyddin o hyn allan. Mae Ieuan yn ei ystyried ei hun yn etifedd i'r rheini fu'n codi cleddyf yn erbyn y Saeson yn y gorffennol. Dyma ddangos peryglon ei farn eithafol wrth iddo ddefnyddio llenyddiaeth i gyfiawnhau gweithredoedd a fydd yn troi'n dreisgar yn y pen draw, yn debyg i'r hyn a wna coloneiddwyr, a hyd yn oed derfysgwyr, fel y rhai y mae Ieuan i fod i frwydro yn eu herbyn. Ond trwy ddefnyddio'r gerdd Gymraeg, a chan gofio symbyliad gwreiddiol y ddrama, sef ail-ystyried un o ddramâu Shakespeare, roedd modd cyflwyno Cymry a Chymreictod sy'n frith o ddylanwadau'r diwylliannau Cymraeg, Saesneg a diwylliannau eraill. Dyma a welir yng nghymeriadau Delyth, Arshad a Steve, sef Cymry sy'n amlldiwylliannol ac yn agored i ddylanwadau eraill. Mae rhyngdestunoldeb y ddrama felly yn tystio i'r amrywiaeth o ddiwylliannau sy'n bodoli yng Nghymru heddiw.

Ymddengys felly fod ail-ystyried yr hen ffurfiau dramatig yn fodd i ddweud rhywbeth newydd, ac y dylai'r dramodydd feddwl yn gyson am arddulliau newydd i'w defnyddio wrth bortreadu rhywbeth ar lwyfan. Ers troad yr Ugeinfed Ganrif, gwelir llawer o arbrofi gyda dulliau theatrig wrth i ddramodwyr geisio portreadu'r newidiadau syfrdanol a ddaeth i'r byd. Dywed y dramodydd August Strindberg yn 1888:

[...] men have tried to create a new drama by pouring new ideas into the old forms. But this has failed [...] because we have not succeeded in adapting the oldforms to the new content, so that the new wine has burst the old bottles (Strindberg, 1998, t. 90).

Roedd angen i'r ffurfiau newydd hyn, felly, fod yr un mor ffrwydrol â'r newidiadau cymdeithasol yr oeddent yn eu portreadu. Yn sgîl hynny, ymddangosodd sawl grŵp o ymarferwyr theatr newydd, arbrofol, megis y Dadawyr, y Swrealwyr a'r rhai a ymlynai wrth y math o theatr a elwid Theatr Epig. Roedd y Theatr Epig yn ceisio dieithrio'i chynulleidfa er mwyn atgoffa'r gwylwyr mai gwyllo drama oeddent a bod gan y ddrama honno neges i'w throsglwyddo iddynt. Cyflawnid hynny drwy arddangos pethau ar sgriniau, neu osod caneuon yng nghanol golygfeydd, er enghraifft, er mwyn torri ar rith y ddrama. Ers y 1970au, gwelir dylanwad y Theatr Epig ar sawl cwmni theatr yng Nghymru, megis Theatr Bara Caws a Theatr Gorllewin Morgannwg (Owen, 2003, t. 29).

Wrth addasu'r stori fer 'Fresh Apples' gan Rachel Trezise felly, penderfynais ddefnyddio'r dull hwn o ddieithrio. Yn fy addasiad, *Afalau Surion*, mae'r bechgyn yn eistedd gyda'u coesau dros ochr y llwyfan gan dorri ar rith y bedwaredd wal (t. 101). Hefyd, mae yna gymeriadau sy'n ymddangos fel rhithiau ym meddwl Matt (t. 99), a chyffyrddiadau o ffars (t. 103). Nid yw'r digwydd yn unionlin gan fod y ddrama'n dechrau ar ddiwedd y stori, ac mae ôl-fflachiadau'n mynd a dod. Yn ogystal â hynny, ar y gefnlen mae sgrin fawr sy'n dangos lluniau fflamiau arni. Ymddengys y fflamiau hyn yn gyntaf ar ôl i'r plant gynnu tân ar y mynydd, ond dônt yn ôl bob tro y mae Matt yn teimlo'n rhwystredig am ei fywyd. Gwnaed defnydd tebyg o'r math hwn o sgrin yng nghynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru o *Gwlad yr Addewid* (2010), cyfieithiad Sharon Morgan o *House of America* gan Ed Thomas (1988), sy'n trafod tranc teulu o'r Cymoedd yn sgîl cau'r pyllau glo yn yr 1980au. Yr unig beth a welir ar y sgrin yw taith Boyo i ymweld â'i fam yn yr ysbyty seiciatrig. Mae'r hyn a welir ar y sgrin yn dangos y dieithrio sydd wedi digwydd rhwng aelodau'r teulu. Nid yw'r fam i'w gweld yn unman, a thra bo Boyo i'w weld ar y sgrin yn byw yn y byd go iawn, ar y llwyfan mae ei frawd a'i chwaer, Gwenny a Sid, yn byw mewn byd ffantasi. Mae'r defnydd o'r sgrin hefyd yn symboleiddio'r diwylliant Americanaidd, byd y ffilmiau a'r enwogion y mae Gwenny a Sid yn breuddwydio amdanynt, sydd yn raddol ddinistrio'u bywydau. Dywed Sharon Morgan am ei chyfieithiad:

[...] er ei lleoli yn yr wythdegau, mae'r neges yr un mor berthnasol heddiw, i ni yng Nghymru, ac ym mhobman yn y byd lle mae angerdd gwirionedd hunaniaeth yn cael ei wyrddroi (Morgan, a ddyfynnwyd yn Theatr Genedlaethol Cymru, 2010, t. 7).

Yn ogystal â dieithrio'r gynulleidfa, roedd Morgan felly am i'w chyfieithiad ddangos y dieithrio sydd wedi digwydd rhwng pobl a chymunedau wrth i'r Cymoedd newid yn syfrdanol, ac mae'r sgrin yn gwneud hyn drwy wahanu'r cymeriadau oddi wrth ei gilydd. Felly, yn fy addasiad i o 'Fresh Apples' penderfynais ddefnyddio'r sgrin mewn modd tebyg, er mwyn pwysleisio'r anawsterau y mae bywyd y Cymoedd yn ei gyflwyno i Matt sy'n ceisio ymdopi â'r newidiadau i'w fywyd wrth iddo dyfu'n oedolyn ac wrth iddo ei leoli'i hun rhwng gwahanol ddiwylliannau'r cwm. Mae'r sgrin yn dod yn fyw, ac yn arddangos tân neu fflamiau bob tro y mae Matt wedi'i ddal rhwng dau fyd - byd ei ffrindiau wrth iddynt ddilyn prif ffrwd y diwylliant Eingl-Americanaidd poblogaidd a byd Cymraeg, dosbarth canol, llawn llyfrau a geiriau ei fam a'i dad. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysau a'r rhwystredigaeth y mae Matt yn ei

deimlo wrth iddo gael ei dynnu hwnt ac yma rhwng disgwyliadau croes a diwylliannau gwahanol ei rieni a'i ffrindiau.

Yn ogystal ag arbrofi ag arddulliau perfformio neu gyflwyno sy'n dieithrio'r gynulleidfa, mae arbrofi gyda lleoliad neu ofod y cynhyrchiad yn fodd i greu teimlad mwy dieithr ymhlith gwylwyr y ddrama nag y mae eistedd mewn cadeiriau moethus theatr arferol yn ei roi. Hefyd, i ddiwylliannau lleiafrifol, fel y diwylliant Cymraeg, mae symud cynyrchiadau tu hwnt i furiau'r theatrau safonol yn gallu bod yn fodd i ail-gydio mewn arferion perfformio sy'n gweddu'n well i'r diwylliant hwnnw. Disgrifia Gilbert a Tompkins theatrau arferol fel lleoliadau anaddas i ddramâu ôl-drefedigaethol neu ddiwylliannau lleiafrifol am eu bod yn 'elitist' ac yn aml yn mabwysiadu dulliau perfformio nad ydynt yn perthyn i'r diwylliant y mae'r ddrama yn ceisio'i bortreadu (Gilbert a Tompkins, 1996, tt.156-157). Mae'r symudiad hwn allan o'r theatr gonfensiynol eisoes wedi digwydd yng Nghymru, fel y crybwyllwyd uchod wrth drafod Theatr Bara Caws a Theatr Gorllewin Morgannwg. Ond cyn mynd ati i arbrofi â lleoliadau fy nramâu fy hunan, gwyliais ddwy ddrama a gynhyrchwyd y tu allan i gyfyngderau'r theatr, a hynny'n amlygu pa mor llwyddiannus y gall y math hwn o theatr fod yng Nghymru. Y dramâu hynny oedd *The Passion*, cynhyrchiad yr actor Michael Sheen mewn cydweithrediad â National Theatre Wales (2011), a *Measure For Measure*, cynhyrchiad Sherman Cymru o ddrama William Shakespeare (2010).

Fel un o drigolion Port Talbot, roeddwn yn ymwybodol o gyn lleied o ddiddordeb mewn drama a theatr a oedd gan bobl y dref, er gwaetha'r ffaith bod rhai o actorion mwyaf llwyddiannus ac enwog y byd, fel Richard Burton ac Anthony Hopkins, yn hynu o'r ardal. Ni wnaed fawr ddim defnydd o theatr y dref chwaith, gydag ambell ddigrifwr yn perfformio yno yn unig, neu ysgolion lleol yn ei defnyddio unwaith y flwyddyn ar gyfer eu cynyrchiadau blynyddol. Ond wrth i Sheen ddychwelyd adref, roedd theatr a drama ar flaenau tafodau pawb yn y dref, ac yn digwydd o flaen eu llygaid yn ddyddiol. Deugain niwrnod cyn y perfformiad, gosodwyd posteri o gwmpas y dref a oedd yn crybwyll fod dyn (y cymeriad a chwaraewyd gan Michael Sheen) wedi diflannu, a gwelwyd ei fam (yr actores Di Botcher) o gwmpas y dref yn gofyn i bobl wrth iddynt siopa yn Tesco neu brynu peint yn y dafarn a oeddent wedi gweld ei mab. Yn fwy na hynny, perfformiwyd y ddrama

yn y ganolfan siopa, ar draeth Aberafan, yn un o glybiau cymdeithasol y dref ac yng nghanol strydoedd ac ystadau o dai, gan wneud cymaint o bobl yn rhan o'r gynulleidfa ag a oedd yn bosib. Taflwyd y gymuned leol i ganol y ddrama yn llythrennol, a hanes y gymuned leol hefyd oedd wrth wraidd neges y ddrama wrth i hen luniau o'r 'dref a fu' (Griffiths, 2011, t. 11) gael eu harddangos yn ystod y golygfeydd olaf. Wrth adolygu'r cynhyrchiad, dywedodd Paul Griffiths: 'profodd pobol [sic] y Porth rywbeth arbennig iawn' (Griffiths, 2011, t. 11). Roedd hynny'n wir, ac roedd hi'n amlwg fod pobl wedi'u heffeithio'n fawr gan y cynhyrchiad gyda nifer yn uwchlwytho lluniau a fideos o'r perfformiad ar y we am wythnosau wedi'r digwyddiad. Trwy fynd â theatr at y bobl, felly, roedd Sheen wedi llwyddo i ddeffro diddordeb yn y ddrama mewn cymuned dosbarth gweithiol a arferai gadw draw o'i theatr safonol.

Gyda *Measure For Measure* hefyd, cafwyd effaith debyg. Er nad oedd cydweithrediad amlwg gyda'r gymuned wrth wraidd y cynhyrchiad, ac er nad oedd gan y ddrama ddim byd i'w wneud â Chymru neu Gymreictod ar yr olwg gyntaf, o'i lleoli yn Nhref-Biw, dechreuodd neges amgen ddod i'r golwg. Mewn hen fanc, moethus gyda lloriau a muriau marmor y perfformiwyd y cynhyrchiad. Ac, yn annisgwyl, gorfodwyd rhai aelodau o'r gynulleidfa i eistedd yng nghanol y llwyfan, gyda'r cymeriadau yn eu dillad coeth yn dawnsio'n eu hymyl. O gofio bod y ddrama yn trafod pŵer a'r camddefnydd a wnaed ohoni, dechreuodd y cynhyrchiad hwn, yn hollol annisgwyl, ddweud rhywbeth am Gymru. Cofiais am yr ardal a oedd yn bodoli y tu hwnt i'r adeilad crand a rhwysg y dawnsio. Roedd y cynhyrchiad fel petai'n gorfodi'r gynulleidfa i feddwl am yr holl gyfoeth a ddaeth trwy ddociau Caerdydd, ac yna i'w gymharu â pha mor dlawd a difreintiedig oedd trigolion yr ardal. Ymddengys felly y gall symud cynhyrchiad y tu allan i furiau'r theatr fod yn ffordd bwysig o adrodd hanes pobl a anwybyddwyd hyd yn hyn gan y ddrama. I mi, dyna oedd fy newis ar gyfer drama olaf fy mhortffolio.

Mae'r ddrama hon, *Colli Iaith a Cholli Urddas*, yn ystyried rôl hanes yn hunaniaeth genedlaethol Cymru, gan ofyn pa werth sydd i ni fel cenedl mewn edrych yn ôl drwy hanes er mwyn datrys y problemau sy'n ein hwynebu ni fel cenedl heddiw. Oherwydd hynny, a chan fod un o'r cymeriadau, Huw, yn hanesydd, mae'r ddrama wedi'i lleoli mewn amgueddfa. Ond credaf y gellir arbrofi â'r lleoliad wrth ei

chynhyrchu, ac yn lle ail-greu amgueddfa ar lwyfan, gellid cynnal perfformiad o'r ddrama mewn amgueddfa go iawn, fel rhan o arddangosfa newydd er enghraifft. Byddai hynny, ar un lefel, yn gwneud y ddrama, a'r arddangosfa ei hun, yn fwy hygyrch. Yn lle'r distawrwydd a fynnir gan theatrau ac amgueddfeydd yn arferol, byddai sŵn y ddau actor yn siarad â'i gilydd yn torri ar y tawelwch, ac wrth glywed eu trafodaethau am hanes a'i werth i ni fel cenedl, byddai'r gwylwyr yn gallu ymateb i weddill yr arddangosfa mewn modd tebyg hefyd, gan gwestiynu sut y mae'r amgueddfa yn ceisio llunio darlun awdurdodol o'n hanes, fel y gwna Huw yr hanesydd. Mae'r ddrama hefyd yn pwysleisio fod hanes yn stori ddetholus, rhywbeth sydd wedi'i greu ar gyfer pwrpas penodol. Mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y ffaith fod Huw a Gavin, cymeriad arall y ddrama, am ba resymau bynnag, yn datgelu rhannau penodol o'u hanesion yn unig i'w gilydd. A chyda dewis gofalus o leoliad, gellid pwysleisio'r neges hon ymhellach. Pe perfformid y ddrama yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ym Mharc Cathays er enghraifft, gellid codi cwestiynau amlwg ynglŷn â pha fath o hanes cenedlaethol y mae'r adeilad yn ceisio'i bortreadu i'r byd ehangach. Yn y modd hwn, credaf y gallai'r ddrama godi mwy o gwestiynau fyth am allu'r math hwn o sefydliad i gynrychioli'r gwahanol fathau o gymunedau Cymraeg a Chymreig, a'r gwahanol fersiynau o hanes Cymru sy'n perthyn i wahanol unigolion a chymunedau. Byddai modd cwestiynu i ba raddau mae sefydliad o'r fath yn portreadu realiti y Gymru hanesyddol a'r Gymru gyfoes. Mae cymeriadau Gavin a Huw yn dehongli'r hunaniaeth genedlaethol mewn ffyrdd hollol wahanol i'w gilydd. O ystyried hynny, a'r ffaith y byddai'r ddrama'n cael ei pherfformio heb yr angen am theatr swyddogol, gall y ddrama gwestiynu dilysrwydd a hawl unrhyw sefydliad, megis yr amgueddfa lle y'i perfformir hi, neu sefydliad megis theatr genedlaethol, i honni ei fod yn cynrychioli sut brofiad yw perthyn i'r genedl honno. Adlewyrchir hynny yn y ddrama wrth i Huw ddadlau fod ei waith ef yn cynrychioli dymuniadau'r genedl gyfan:

Dyna'r pwynt! Bydd pawb fel ti! Bydd pawb yn siarad Cymraeg, unwaith y bydden nhw'n sylweddoli taw ni'r Cymry sydd wedi bod yn rheoli'r wlad 'ma am y saith can mlynedd ddiwetha'! (t. 142).

Mae'r iwtopia y mae Huw'n ei ddychmygu lle mae'r Cymry'n rheoli, a phawb yn siarad Cymraeg, yn mynd yn groes i ddymuniadau Gavin, sydd eisiau siarad Saesneg er mwyn siarad â'i fam a'i dad – '[o]nd dyw Mam a Dad ddim yn siarad Cymraeg' (t.

142). Mae cynnwys y ddrama'i hun, felly, yn ein hannog i herio'r darlun swyddogol o hanes a roddir i ni, a chredaf fod y cyfrwng hwn, sy'n symud y perfformiad y tu hwnt i adeilad theatr swyddogol, yn un addas iawn ar gyfer y ddrama hon.

Dadleuwn felly fod arddulliau fy nramâu yn creu cyfrwng sy'n gallu cynrychioli sawl dehongliad gwahanol ar hunaniaeth genedlaethol Cymru ac sydd yn herio'r ffordd yr ydym yn meddwl am bwy sydd yn llunio'n syniadau ynglŷn â sut brofiad yw hi i berthyn i Gymru. Dulliau llwyfannu *Afalau Surion* a *Colli Iaith a Cholli Urddas* sy'n llwyddo i wneud hynny orau yn fy marn i am eu bod yn gweithio'n agos â'r gynulleidfa, ac yn dieithrio'r gwylwyr, trwy fynd i'w canol. Mae hynny'n fodd i herio'r theatr swyddogol sydd hyd yn hyn heb fod at ddant pawb yng Nghymru. Trwy wneud hynny, mae modd sicrhau nad un math o Gymreictod 'swyddogol' yn unig sy'n cael ei gynrychioli yn fy nramâu, ond ystod eang o wahanol fathau o gymunedau o Gymry sydd, yn fy marn i, yn adlewyrchiad gwell o realiti ieithyddol a diwylliannol sy'n bodoli ymhlith y cymunedau Cymraeg a Saesneg eu hiaith yng Nghymru.

Casgliad

I ba raddau, felly, y mae fy nramâu yn llwyddo i adlewyrchu realiti ieithyddol a diwylliannol y Gymru gyfoes? A wyf wedi llwyddo i bortreadu'r gymuned ddwyieithog yn unol â'm profiad i fel aelod o'r gymuned honno? Ac os felly, i ba raddau y mae'r portreadau hynny'n bortreadau newydd, gwreiddiol? I raddau helaeth, dadleuwn fod fy nramâu yn llwyddo i gyflawni'r amcanion hyn. Un rheswm am hynny yw'r ffaith bod fy nghymeriadau yn dod o wahanol ardaloedd o Gymru, a'u bod yn dod o gefndiroedd gwahanol; mae ganddynt, felly, syniadau gwahanol am sut beth yw hi i fod yn Gymro neu'n Gymraes. Dadleuwn fod hyn yn adlewyrchu sut brofiad yw hi i berthyn i Gymru heddiw, gan ei bod hi bellach yn wlad sy'n frith o wahanol ddiwylliannau a dylanwadau. Credaf mai'r ddrama *Hawdd Cynnau Tân* sy'n amlygu hyn orau. Trwy ddefnyddio'r pedwar cymeriad o wahanol ardaloedd yng Nghymru, a phob un yn siarad mewn tafodiaith neu gywair ieithyddol gwahanol, roedd modd gosod gwahanol fersiynau o Gymreictod ochr yn ochr â'i gilydd. Ond yn fwy na hynny, roedd modd dangos yr hyn y mae Cymry o wahanol gefndiroedd neu gymunedau'n ei rannu, a sut y maent yn gallu uniaethu â'i gilydd er gwaetha'r gwahaniaethau rhyngddynt. Mae'r ffordd y mae fy nramâu, yn enwedig y ddrama *Afalau Surion*, yn portreadu'r gymuned ddwyieithog yn ychwanegu at hyn hefyd, trwy ddangos fod y to ifanc dwyieithog, sy'n rhannu'r diwylliannau Cymraeg a Saesneg, yn ei chael hi'n eithaf hawdd i drosgynnu'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhyngddynt. Ac yn y ddrama *Colli Iaith a Cholli Urddas*, wrth i Gavin ymdrechu i gofio'r Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, cawn weld fod dwyieithrwydd yn golygu bod lle i'r ddwy iaith a'r ddau ddiwylliant sy'n perthyn iddynt yn y Gymru gyfoes.

Mae'r defnydd o iaith a wnaethpwyd gennyf yn fy nramâu yn heriol, ond y mae'n helpu i'm dramâu gyrraedd fy nod o bortreadu realiti ieithyddol y Gymru gyfoes, yn enwedig y gymuned ddwyieithog. I ddechrau, mae rhai o'r cymeriadau, megis Steve o'r ddrama *Hawdd Cynnau Tân*, yn siarad Cymraeg gwallus neu lediaith. Ond o'm profiad personol, mae ei ddefnydd ef o iaith yn realistig gan fod llawer o siaradwyr Cymraeg yn britho'u hiaith gyda geiriau Saesneg. Yn ogystal â hynny, yn y ddrama *Afalau Surion*, mae yna rai cymeriadau sy'n siarad Cymraeg a rhai sy'n siarad Saesneg. Mae hyn yn ffordd wreiddiol iawn o bortreadu Cymru gan nad yw'r Saesneg yn cael ei defnyddio'n aml iawn mewn llenyddiaeth Gymraeg wrth bortreadu'r wlad

a'i phobl, ac ni chaiff y Gymraeg ei defnyddio'n aml iawn mewn dramâu Saesneg Cymru. Mae pethau fel rheol iaith yr Eisteddfod yn cyfyngu ar faint o Saesneg sy'n cael ei ystyried yn addas i'w defnyddio mewn gweithiau llenyddol Cymraeg. Ond pe bawn am i'm dramâu bortreadu'r profiad ieithyddol yn y Gymru gyfoes yna teimlwn fod yn rhaid imi ddefnyddio Saesneg yn y dramâu. Yn fwy na hynny, mae'r defnydd o'r Saesneg ochr yn ochr â'r Gymraeg yn adlewyrchu'r Gymru yr wyf yn teimlo fy mod i'n perthyn iddi. Yn y ddrama *Colli Iaith a Cholli Urddas*, ceisiais ddangos pa mor bwysig yw'r Saesneg i'r Gymru sydd ohoni heddiw, gan fod y cymeriad Gavin am ail-ddarganfod yr iaith Saesneg er mwyn parhau â'i ddatblygiad personol. Mae hwn yn syniad heriol i'r gymuned Gymraeg draddodiadol ac i lenyddiaeth Gymraeg. Mae yna duedd wedi bod yn y gorffennol i bortreadu'r Saesneg fel bygythiad i'r Gymraeg ac i Gymry Cymraeg. Mae fy nrama'n ystyried y pwnc o safbwynt newydd a gwreiddiol felly trwy ystyried y Saesneg fel rhywbeth sy'n angenrheidiol i hunaniaeth Gavin, ac nid fel rhywbeth sy'n bygwth ei hunaniaeth fel siaradwr Cymraeg.

Trwy ddefnyddio cyfuniad o'r Gymraeg a'r Saesneg yn fy nramâu rwyf yn portreadu cymunedau o Gymry sydd ond yn ddiweddar wedi dechrau derbyn sylw yn ein cynnyrch creadigol. Gobeithiaf y bydd hynny'n gwneud fy nramâu yn fwy hygyrch pe'u perfformid hwy yn y dyfodol, oherwydd gallent ddenu cynulleidfaoedd newydd a fyddai'n gwerthfawrogi dyfodiad cymeriadau gwahanol i'r llwyfan sydd efallai'n fwy tebyg iddynt hwy a'r bobl y maent yn eu hadnabod. Dadleuwn hefyd fod y modd yr wyf wedi mynd ati i arbrofi â lleoliadau neu ddulliau llwyfannu rhai o'm dramâu yn eu gwneud yn fwy hygyrch hefyd. Yn fy marn i, felly, mae fy nramâu yn cyflawni fy amcanion o bortreadu realiti ieithyddol a diwylliannol y Gymru gyfoes a'r hyn y mae diwylliannau Cymraeg a Saesneg Cymru yn ei rannu er gwaetha'r gwahaniaethau sydd rhyngddynt. Ond yn fwy na hynny, trwy wneud hynny, a thrwy bortreadu'r gymuned amlieithog ar y llwyfan, gobeithiaf y bydd gan fy nramâu y gallu i ddenu cynulleidfa newydd i'r theatr gan beri i'r theatr fod yn beth arall y gall gwahanol gymunedau o Gymry ei rannu.

Hawdd Cynnau Tân

Cymeriadau

Ieuan	-	Milwr, 24 oed
Steve	-	Milwr, 22 oed
Delyth	-	Nyrs yn y fyddin, 24 oed
Arshad	-	Meddyg yn y fyddin, 27 oed

Golygfa 1

Ganol bore, mewn ysbyty milwrol ger maes y gad yn Nhalaiith Helmand, Affganistan. Mae Steve yn cysgu'n aflonydd yn ei wely. Mae differwr wedi'i gysylltu i'w fraich ac mae yna gadair olwyn ger ei wely. Mae Ieuan yn gorwedd yn effro ar ei wely yntau, yn dal ei dalcen. Mae'n griddfan mewn poen. Mae'n dal potel ddŵr sydd â symbol y fyddin arni. Clywir sgrechen y tu allan ac yna gynnau'n cael eu tanio. Â Ieuan allan i ddarganfod ffynhonnell y mwstwr. Mae Steve yn dechrau deffro. Wedi sbel, daw Ieuan yn ôl. Tynn y top ymaith a rhydd y botel o dan ei drwyn. Mae arogl cynnwys y botel yn amlwg yn gryf a chymra Ieuan joch o'i chynnwys. Â Ieuan draw at Steve a rhoi'r botel wrth geg ei gyfaill. Mae Steve yn dechrau deffro ac yn aflonyddu'n fwy.

Ieuan: Cym beth o hwn...

Mae Ieuan yn arllwys cynnwys y botel i geg Steve.

Ieuan: Mi neith o les i ti.

Mae Steve yn blasu'r cynnwys ac yn gwthio'r botel ymaith.

Steve: Na... Na... Fi'n fine... Jyst breuddwyd, ife...

Ieuan: Na, dim breuddwyd tro 'ma... Hunanfomiwr.

Steve: Ti'n siŵr ddim yr Americans...

Ieuan: Na, Affgan dwi'n meddwl... Taliban...

Steve: Yn y gwerysll? Faint sydd wedi marw tro yma?

Ieuan: 'Mond y fo... Saethon nhw ato fo cyn iddo fo allu tanio'r peth.

Steve: So mae'r bois i gyd yn ok?

Ieuan: Yndyn.

Steve: A dim plant wedi lladd?

Ieuan: Na, na, pawb yn iawn...

Steve: (*Yn cynhyrfu*) Good, achos fi ddim mo'yn i hwnna ddigwydd eto...
Ddim yn gallu mynd trwyddo fe...

Ieuan: Dwi'n gw'bod, Steve. Ond ddim yr Iancs fuodd wrthi tro 'ma... (*Gan gynnig y botel i Steve*) Cym joch...

Steve: Na.

Saib.

Ieuan: Sut mae dy gefn di?

Steve: Poenus.

Ieuan: Ydyn nhw 'di rhoi painkillers i ti?

Steve: (*Yn pwyntio at y diferwr*) Ma' tipyn o morphine dal yn y peth 'ma.

Ieuan: Ddylia nhw roi mwy i ti.

Steve: Na, na, mae'n oreit.

Ieuan: A' i nôl rhywun.

Steve: Na, mae'n iawn.

Ieuan: (*Yn codi i adael*) Na, mi a' i. 'Di o ddim trafferth.

Steve: Na, Ianto...

Mae Steve yn ceisio codi i fynd ar ôl Ieuan, ond nid yw'n gallu sefyll a chwmp ef i'r llawr.

Steve: Ianto!

Mae Ieuan yn troi nôl ac yn gweld Steve ar y llawr. Rhuthra draw i'w godi yn ôl i'w wely.

Ieuan: W't ti'n iawn?

Steve: (*Mewn poen*) Ie, jyst coes fi.

Ieuan: Be'? O'n i'n meddwl mai dy gefn di oedd yn brifo?

Steve: Ie. Ond mae coes fi'n teimlo'n rhyfedd.

Ieuan: Sut? Ydi hi'n brifo?

Steve: Na. Fi methu teimlo fe.

Ieuan: Wir?

Steve: Ie. So, paid mynd i nôl doctor.

Ieuan: Pam? Ella 'sa doctor yn gallu 'neud rhywbeth?

Steve: Na. Bydden nhw'n danfon fi adref.

Ieuan: Wel dyna fysa ora' – ma' isio i ti wella. A mi fydd y doctoriaid yma'n siŵr o ddod o hyd i dy anaf di'n y pen draw...

Steve: Milwr ydw i. Fi fod yma. Fi ddim mo'yn mynd nôl i Gymru, does dim byd yno i fi. Fi mo'yn ymladd! Fi mo'yn gwneud rhywbeth!

Ieuan: Iawn. Iawn. Ty'd rŵan. Dwi'n siŵr y byddi di nôl ar dy draed cyn pen dim, yn chwarae ffwtbol efo ni allan fan'na.

Steve: Efallai.

Ieuan: Ella, efo'r holl gyffuria' maen nhw'n 'u rhoi i ti, bydd gen ti goes fionig...

Steve: Wel, well i ti wotcho mas. Bydda i hyd yn oed yn fwy amazing yn chwarae pêl-droed nag oeddwn i o'r blaen.

Ieuan: Ha! Dos o 'ma! Ti'n siŵr ges di ddim slap go hegar ar dy ben hefyd?

Steve: Serious...

Ieuan: Blydi hwntws! Dach chi'n meddwl boch chi'n ffantastig!

Steve: Beth ti'n meddwl?

Ieuan: Chi Sowth-Wêlians! Dach chi'n codi amball stadiwm newydd, a'n sydyn chi 'di'r Peles nesa! 'Yn gêm ni yn y gog 'di ffwtbol, cofia...

Steve: Hey, beth am Craig Bellamy, Gareth Bale. Ac Aaron Ramsey...

Ieuan: Mark Hughes, Ian Rush o'r gogledd...

Steve: Maen nhw'n hen, myn! Past it...

Ieuan: Wel, synnu ydw i boch chi hwntws yn medru sefyll yn syth, heb sôn am chwara' ffwtbol... blydi mwncwns...

Steve: Beth ti'n meddwl?

Ieuan: Ar eich pedwar yndê, lawr yn y pylla glo 'na.

Steve: (*Yn ceisio torri ar draws*) Oi, now... Dim pyllau ar ôl nawr, ffatris nawr... On our feet all day myn...

Ieuan: Da ni'n y gogledd â'n llygaid tua'r nefoedd o gopa'r Wyddfa, tra'ch bo' chi'n lluchio'ch hun i berfeddion y ddaear. 'Dan ni'n mynd yn ein blaena'n y byd 'ma, a chithau'n mynd, wel, am yn ôl, de...
Backwards...

Steve: Who you calling backwards, butt? Mae hyd yn oed geiriau chi'n backwards!

Ieuan: (*Yn wawdlyd*) Paid â malu...

Steve: Rŵan. Mae 'rŵan' yn 'nawr', ond jyst wedi sillafu backwards. Roedd athrawes fi yn yr ysgol yn gweud hwnna.

Ieuan: Ella mai 'nawr' 'di 'rŵan' wedi'i sillafu o chwith? A ta waeth, paid â newid yr hyn oedan ni'n siarad amdano fo. Ti a dy sgilia ffwtbol *amazing*...

Steve: Mate, seriously nawr, ti'n mynd i edrych yn dwp pan fi'n profi bo fi'n iawn. Ti'n gwybod o'n i ar y books gyda City pan o'n i'n teenager, cyn bo' fi'n dod fan hyn.

Ieuan: (*Yn wawdlyd*) Wir yr? Pa City? Abertawe, Caerdydd, ta Dodge City?

Steve: Ha ha. Doniol. Caerdydd.

Ieuan: Os oeddat ti'n chwaraewr crystal â hynny, pam w't ti'n 'r'armi?

Steve: Rhy dda, mate. Pawb yn jealous ac yn gwrthod pasio'r bêl i fi. A, wel, roedd rhaid i fi gael swydd, swydd go iawn, nag oedd? I helpu Mam

mas gyda'r bils a pethau. A, anyway, beth amdana ti? Os yw Duw ar ochor y gogs, pam wyt ti 'di endo lan yn yr hell-hole hyn?

Ieuan: *(Yn feddylgar)* Dwn i'm. Ma'n rhaid bod gin rywun gynllun i mi, yn does?

Steve: Ti'n meddwl?

Ieuan: Mmm. Ond mae'n anodd credu bod dŵad yma'n rhan o gynllun unrhyw un...

Mae Ieuan yn rhwbio'i ben ac yn gwingo.

Steve: Ti'n iawn?

Ieuan: Yndw. Cur pen, dyna gyd.

Saib.

Ieuan: Dwi dal 'im yn medru credu...

Steve: Paid...

Ieuan: Iancs ddiawl! Be' oeddau nhw'n feddwl?

Steve: Jyst gad e...

Ieuan: Yr holl dechnoleg 'na, yr holl gudd-ymchwil milwrol – 'sa ti'n meddwl medran nhw ollwng y bom yn y lle iawn!

Steve: Stop...

Ieuan: Yn lle 'i ollwng o arnon ni a'r holl blant 'na! A rhoi rhywun fatha ti, sy'n ymladd ar eu hochr nhw, yn yr ysbyty!

Steve: Leave it! Fi methu stopo meddwl am e as it is, heb ti'n dechrau siarad am e mor gynnar yn y bore.

Ieuan: (*Yn ei gysuro*) Iawn, iawn, paid â chynhyrfu 'wan... 'Neith o ddim lles i dy gyflwr di... (*Yn ystumio tuag at Steve gyda'r botel*) T'isio peth?

Saib.

Ieuan: (*Yn cymryd joch o'r botel*) Fel'na... Cym gegiad... Wir i ti... Mi gallith di... Mond cegiad...

Mae Steve yn oedi cyn cymryd y botel. Mae'n yfed cegiad yn wylriadwrus.

Ieuan: Gwell?

Mae Steve yn cytuno.

Steve: Diolch...A diolch am aros yma gyda fi hefyd...

Ieuan: Fedrwn i ddim gadael Cymro arall ar 'i ben 'i hun.

Steve: O, reit... Diolch. Roeddwn i'n meddwl bydde ti mo'yn mynd nôl mas i ymladd... Ar ôl beth sydd wedi digwydd...

Ieuan: Wel, ma'n rhaid i mi aros i gael 'yn rhyddhau o'r lle 'ma gin y doctor, yn does? A ta waeth, dwi'n berffaith hapus yma...

Steve: Mae rhyfel yn mynd 'mlaen, ond ti'n hapus mewn fan hyn yn chwarae doctors and nurses?

Ieuan: (*Gan chwertthin*) Yn union...

Steve: Ti off dy ben...

Ieuan: Ma'n well na chael dy chwythu 'fyny gan IED, tydy? Gwell fyth na chael dy chwythu 'fyny gan d'ochr dy hun...

Steve: Ond mae job gyda ni i 'neud...

Ieuan: Dwi 'di g'neud 'yn siâr. (*Yn pwyntio at goes Steve*) A chditha hefyd.

Steve: Ti seriously ddim yn mynd nôl i ymladd?

Ieuan: Wrth gwrs bydda i'n mynd nôl i ymladd. Ga' i garchar fel arall.

Steve: O reit.

Ieuan: Na, mi a' i nôl. Ond dwi ddim yn mynd i saethu neb. Does 'na'r un fwled yn mynd i ddod o 'ngwn i eto. Heblaw bod un o'r Taliban yn 'y nghael i mewn rhyw gornel, a'i bod hi'n fî neu fo.

Steve: Beth? Ti methu gwneud hwnna. Bydd pawb yn gweld beth ti'n gwneud.

Ieuan: Ti'n meddwl fydd y gweddill yn edrych arna i pan fydd y gelyn yn taflu grenêds atan ni?

Steve: Wel mae pawb yn edrych mas am ei gilydd...

Ieuan: Ia, wel, 's'dim isio poeni am hynny rwan. Mi fyddwn ni yma am dipyn. Ma' ffawd wedi dod â fi i'r 'sbyty 'ma.

Steve: Paid â siarad nonsens.

Ieuan: Na, ma' gin i reswm arall dros aros 'ma...

Steve: Beth?

Ieuan: Ma' na dîm meddygol newydd 'di cyrraedd yn does...

Steve: A...

Ieuan: Dwi'n gobitho bod hen fflem i mi'n un ohonyn nhw. Delyth Llywelyn.

Steve: Y ferch 'na? Oeddet ti'n siarad am hi o'r blaen?

Ieuan: Ia. A mi w't ti'n gwybod be ma'n nhw'n ddeud am hen fflamia', d'wyt?

Steve: C'mon baby light my fire?

Ieuan: (*Yn chwerthin*) Ia. Wel, ma'n hawdd cynnau tân ar hen aelwyd, yn dydy?

Steve: Ti'n gobeithio mynd nôl mas gyda hi te?

Ieuan: Pam lai? Mi oeddau ni'n grêt efo'n gilydd.

Steve: Nag o't ti wedi gorffen gyda hi? Achos bod hi mo'yn setlo lawr, a ti ddim?

Ieuan: (*Yn ansicr*) Wel, o'n.

Steve: (*Yn synhwyro bod rhywbeth o'i le*) Ianto?

Ieuan: Wel... Paid â deud wrth yr hogia er'ill. 'Nes i ddim gorffen y berthynas - nethon ni dyfu ar wahân.

Steve: O, reit.

Ieuan: Nethon ni gwarfod tra buon ni'n hyfforddi i 'r'armi 'ma, yn do - ar ynys Cyprus. Roedd hi fatha paradwys yno, 'sti. Traeth gwyn a'r tywod yn gynnes dan draed. Môr yn las las. Bwyd ffantastig! Fuo ni yno 'fo'n gilydd am ryw flwyddyn. Popeth yn berffaith. Ro'n i isio i ni adael 'r'armi, mynd adra i Gymru. Priodi a ballu. Roedd gin i gynlluniau - ro'n i'n mynd i ddechrau busnes, cyfrifiaduron ne' rwbeth, a galla hi 'di edrych ar ôl y plant. Ond mi roedd ganddi hi syniadau er'ill. Roedd hi isio aros a chael gweld y byd gynta'. Yn y pen draw, gathon ni'n danfon i lefydd gwahanol, hithau i Irac a minnau i'r Almaen. Ac un diwrnod, ges i lythyr oddi wrthi'n dweud bod hi 'di ffeindio rhywun arall.

Steve: So, gwnaeth hi dumpo ti?!

Mae Steve yn chwerthin.

Ieuan: Na! Ro'n ni ar wahanol gyfandiroedd. Yn rhy bell oddi wrth ein gilydd.

Steve: Ond, beth os mae hi dal gyda fe nawr? Bydd dim lot o siawns gyda ti.

Ieuan: Gallwn ni fod yn ffrindia 'fo'n gilydd. 'Nes i drïo sgwennu ati gwpwl o weithiau, ond ches i ddim ateb ganddi. A roeddni ni'n grêt efo'n gilydd. Ella 'sa hi'n cofio hynny, mi fydd gin i gyfle.

Steve: Ond fel ti'n gwybod bod hi yma nawr?

Ieuan: Welis 'i henw hi ar y bwrdd allan fan'na. Fy Nelyth i ydi hi. Dwi'n gw'bod.

Steve: O.

- Ieuan: Roeddau ni'n grêt efo'n gilydd. Hi oedd yr un, dwi'n meddwl. Roedd Mam hyd yn oed yn 'i licio hi. Ac roedd hi'n fodlon dal 'i thir wrth ddadlau efo 'Nhad am y rhyfel 'ma, a'r armi.
- Steve: Be' ti'n meddwl?
- Ieuan: Wel mi roedd o'n pissed off efo fi am ymuno, yn doedd?
- Steve: O ie. Fi ddim yn deall pam. Ti'n ymladd dros dy wlad. Mae Mam yn proud o fi am joino'r fyddin, bod yn mature, stopo eistedd o gwmpas a gwneud dim.
- Ieuan: 'S'gin 'yn rhieni i ddim i'w ddweud wrth yr armi – 'n'enwedig Dad a barn Dad 'di barn pawb de – Mam, Al ac Osh, y 'mrodyr. Dad wastad yn iawn. Mi roedd o am i mi 'studio'r Gyfraith, felly mi 'nes i... Am i mi hyfforddi fel cyfreithiwr... Ond hanner ffordd drw'r flwyddyn, mi ges i ddigon ar 'i reola fo, felly 'nes i ymuno 'fo'r armi... Doedd o ddim yn hapus a deud y lleia...
- Steve: Mae lan i ti though, os ti mo'yn mynd i ymladd. Fi'n doubto bod mam fi mo'yn i fi ddod mas fan hyn, risgo marw, ond penderfyniad fi ife?
- Ieuan: Ie, ond nid dyna be' oedd yn poeni 'nhad. Cenedlaetholwr 'di o... Welsh Nash yndê... Pennaeth adran Gymraeg yn yr ysgol... Cymru a'r iaith 'di fywyd o... Protestio fan hyn a fan draw... "Pam 'dach chi'n pleidleisio dros Llafur, yn lle Plaid... Pam 'dach chi'n cefnogi Lerpwl? Ma' Bangor City lawr y lôn acw!" Popeth yn Gymraeg, 'sti. Meddwl bod y rhyfel 'ma mond yn ffordd arall i 'Merica a Lloegr ennill mwy o bŵer dros wledydd llai ffodus, de, fel g'nethon nhw i Gymru. Mynd 'mlaen a 'mlaen am y peth. Arfar mynd dan 'y nghroen i, 'i farn o...
(*Yn ymgolli yn ei feddyliau*).
- Steve: Fi'n gwybod. Everyone should pull together, ife, pawb yn erbyn y gelyn...

- Ieuan: Ond debyg fod o'n iawn, yn doedd!
- Steve: Beth?
- Ieuan: Dad... yn iawn, 'doedd? 'Da ni r'union r'un fath â nhw, tydan? Ni a'r Affgans... Mi ddyliau ni fod yn 'i helpu nhw, nid 'u saethu nhw...
- Steve: Cadw llais ti lawr. Os bydd rhywun yn clywed ti... Wel ti'n gw'bod... Ymladd gyda'r fyddin ni yma i wneud...
- Ieuan: 'Drycha arnat ti, alli di ddim cwffio ar ôl be' ma' nhw 'di 'neud i ti! Y Saeson a'r Americanwyr 'di'r rheswm mi wyt ti yn yr 'sbyty 'ma!
- Steve: Na, na... Jyst rhyfel yw hwnna myn... Ni gyd yn mynd trwyddo fe... Ymladd cyntaf, meddwl am y consequences wedyn...
- Ieuan: Cwffio 'dan ni'r Cymry 'di g'neud erioed. Ers oes yr arth a'r blaidd. Cwffiwr ydan ni. 'Di cael mileniwm a hanner o 'marfar. *(Yn adrodd gan estyn draw at Steve wrth ystumio ei ymladd gyda chleddyf)* 'Gwŷr a aeth Gatraeth oedd ffraeth eu llu, Glasfedd ei hancwyn a gwenwyn fu. Trichant drwy beiriant yn cattaau. A gwedy elwch, tawelwch fu.' Cwffio yn erbyn y Saeson, a wedyn cwffio drostyn nhw!
- Steve: I knew it! Ti off dy ben. Roedd y bois arall yn meddwl bo ti wedi dod i'r fyddin achos bo ti methu ffindo job arall. Na pam roedd rhaid i fi fynd i'r fyddin, dim jobs yn y Rhondda. Ond, wedais i 'No way would he not be able to get a job. He speaks Welsh, proper like. People like 'im always get jobs.' Ife? Fel y bobl really Cymraeg yn yr ysgol gyda fi - maen nhw gyd yn athrawon a pethau fel'na nawr. Gallet ti wedi bod yn athro, ond ti wedi dewis dod fan hyn. Pam ti wedi dewis dod fan hyn? Lan bwys fi, bechgyn yn dod i'r fyddin i osgoi mynd i'r

carchar neu'r Job Centre. Fel roedd brawd fi, Scott, wedi gwneud. Actually, Scott 'naeth persuado fi ddod i'r fyddin - cael dy dalu i deithio'r byd, ife? Never been further than Tonyrefail before! Ond ti? Roedd dewis gyda ti, a ti wedi *dewis* dod fan hyn?

Ieuan: Ia, wel 'yn newis i oedd hynny, yn de? Ond o ddifri, 'wan, meddylia amdano fo – ti'm yn medru cael swydd heblaw am r'armi? Be' 'di'r rheswm am hynny, deuda? A phawb yn dlawd neu ar gyffuria, dim gobaith gynnon nhw am fywyd gwell? Am fod Lloegr 'di cymryd 'yn cyfoeth ni i gyd, 'de, cymryd popeth sy' gynnon ni. Cymryd y glo, cymryd y dŵr, a rŵan cymryd y gwynt hyd yn oed! Meddylia am y Rhondda, yn y ganrif ddiwetha a'r ganrif cyn hynny – y Cymry'n gweithio'n galed yn y pylla glo 'na am 'mond ceinioga yr wythnos, tra bod y meistri Seisnig yn byw fatha brenhinoedd ar y holl elw!

Steve: Wel...

Ieuan: (*Yn torri ar draws*) A nawr ma' 'Merica yn g'neud 'r'un peth! Yn Irac, y peth cynta na'thon nhw oedd sicrhau rheolaeth dros y meysydd olew. A rŵan, er mwyn i 'Merica fod ar y blaen, ma' 'na ryw ddyn yn Virginia wedi gwasgu botwm yn g'neud i ryw ddrôn fyny'n r'awyr ollwng bom a dy anafu di, lladd tri o filwyr eraill, a dwn i'm sawl Affgan diniwed! Yng nghanol y stryd... Ddim mewn brwydr... Tra'n bo' ni'n ceisio cadw'r heddwch... Pobl yn y farchnad... Plant yn chwarae'n y stryd... A'n sydyn... BANG! Cynnydd waeth be' fo'r gost... 'Mond 'i bod nhw'n ddiogel... Malio dim am neb arall...

Steve: Fi'n gwybod.

Ieuan: Y basdads...

Steve: Ie.

Ieuan: A ti'n gorwedd yno...

Steve: Ond fi'n iawn nawr.

Ieuan: A'r plant yn sgrechian...

Steve: Fi ddim mo'yn siarad am e! Mae pen tost gyda fi, a fi wedi blino a fi jyst mo'yn anghofio am e. A gwella, fel bo' fi'n gallu mynd mas 'na eto, gwneud lan am beth ddigwyddodd i nhw.

Ieuan: Mi w't ti dal am fynd nôl i ymladd?

Steve: Ydw. Milwr ydw i.

Ieuan: Ia, wel paid ag anghofio pwy 'na'th dy roi di'n y lle 'ma. (*Yn estyn y botel ddŵr i Steve*) Dyma ti...

Steve: (*Yn cymryd y botel*) Diolch. (*Mae'n cymryd joch.*) Argh, ble ti'n cael y stwff 'ma o?

Ieuan: Un o'r hogia... Un o'r Affgans sy' 'ma, un o'r heddlu, sy'n cwffio efo ni.

Steve: O... Ti'n siŵr bod e'n ok? Y stwff 'ma? Ddim yn dodgy fel...

Ieuan: Mae o'n iawn. Hogia ffeind ydyn nhw. Mi aethon nhw â mi allan i'r pentre...

Steve: (*Yn uchel*) Beth? Ti'n mynd i weld *nhw*, y gelyn, yn dy amser rhydd?

Ieuan: Ddim y gelyn ydan nhw. Pobl gyffredin ydan nhw. Fel ti a fi, cofia. Ma' 'na debygrwydd rhwng Cymru ag Affganistan cofia di. Gwledydd mynyddig...

Steve: A...?

Ieuan: Wel, ma'r ddwy wlad wedi cael eu gormesu ddigon. Ni gan Loegr, Affganistan gan Rwsia, a'r Iancs. Ma' nhw'n ddigon tebyg i ni, coelia di fi. Nid eu dewis nhw oedd bod yn rhan o'r rhyfel 'ma.

Steve: Ie, ond ma' nhw dal ar ochr y bastards sy'n trio saethu ni...

Ieuan: A basdads 'yn hochr *ni* sy' 'di dy roi di'n yr ysbyty 'ma!

Saib.

Ieuan: Fues i draw 'no... I'r dre... Echnos... Ar ôl... (*Ystumia tuag at anafiadau Steve*)... Be' ddigwyddodd... Na'th hogia'r heddlu Affgan wisgo fi fyny a 'nghymryd i yno... Roedd rhaid i mi weld... Am lanast... Llundw 'mhobman... Pawb yn colli'u pwyll... Daeth y dyn 'ma fyny ata i... Bues i'n sgwrsio efo fo cyn... Ti'n gw'bod... Ac mi ddaeth o fyny ata i... Do'n i ddim yn gwybod be' ar y ddaear oedd o am wneud i mi... Ond mi gydiodd o yn 'yn llaw i... Doedd gen i ddim byd i'w roi'n ôl iddo... 'Mond amball Affgani oedd gin i'n y'mhocad... Ro'n i'n crynu...

Steve: Hold on! Ti'n rhoi arian i *nhw*? Ti'n gwybod beth mae nhw'n mynd i 'neud gyda'r arian...

Ieuan: Gwella'r dinistr ma' 'Merica 'di g'neud?

Steve: Unlikely...

Ieuan: Mi benderfynais i bryd hynny 'mod i ddim yn mynd i saethu'r un bwled at y bobl 'ma fyth eto.

Steve: Ond ni yma i 'neud job. Does dim dewis gyda ni. (*Yn pwyntio at ei hun*) And we're already a man down... A'r tri arall...

Wrth iddo siarad, sigla Ieuan ei ben.

Steve: Efallai bod rhai o nhw fel ti a fi... Yn filwyr sydd jyst yn dilyn gorchmynion... Ond mae rhai o nhw mo'yn lladd ni, efallai ddim pob un, ond rhai o nhw. And not just that, maen nhw mo'yn lladd ein teuluoedd a ffrindiau ni nôl adref, yn ein gwlad ni ein hunan, ac maen nhw mo'yn lladd ei hunan ar yr un pryd! Fi ddim yn hiliol ond fi ddim yn rhoi lan gyda fe!

Ieuan: Mae'u bywydau nhw 'di difetha. Y peth lleia fedrwn ni 'neud 'di dangos bach o drugaredd... Cydymdeimlad.

Steve: Na. Dim lle ti yw gwneud hynny. Paid mynd eto. Bydd e ond yn achosi trwbwl. Beth os fydd rhywun yn ffindo mas?

Ieuan: Sut fyddan nhw'n ffeindio allan?

Steve: Bydda i'n dweud wrthyn nhw.

Ieuan: 'Sa ti ddim.

Steve: Bydda i yn dweud wrthyn nhw, os wyt ti'n mynd eto.

Ieuan: Paid â deud gair.

Steve: Paid mynd te.

Mae Ieuan yn meddwl am y peth.

Steve: So?

Ieuan: *(Yn anfodlon)* Iawn.

Golau i lawr.

Golygfa 2

Prynhawn. Mae Steve ac Ieuan ill dau'n gorwedd ar eu gwllâu. Mae Steve wedi'i gysylltu i'r differwr o hyd. Mae'r ddau ynghanol sgwrs.

Steve: What you on about myn? Efallai bydd hi'n edrych arna fi a completely anghofio amdana ti!

Ieuan: Ti ddim o ddifri? Y mwnci hyll...

Daw Arshad i mewn yn cario clipfwrdd.

Steve: Hiya, doc!

Arshad: Shwmae? (*Yn cyfeirio at Ieuan*) Ti yw Steve? (*Yn cyfeirio at Steve*) Ieuan?

Steve: Na, fi yw Steve.

Arshad: Wel, mae'n neis clywed cwpwl o leisiau Cymraeg i groesawu fi i'r lle 'ma! Arshad yw'n enw i, fi bydd ych meddyg chi.

Ieuan: Ieuan 'di'n enw i... 'Da ni o'r un section.

Arshad: Iawn. 'Na i gymryd cip arna ti gyntaf, Ieuan - gwneud yn siŵr nad wyt ti'n dioddef o concussion neu rywbeth tebyg. Wedyn 'na i ddod draw atat ti, Steve.

Mae Arshad yn dechrau trin Ieuan, trwy edrych ar ei lygaid gyda thorsh, ac yna edrych ar ei ben a'i glustiau.

Steve: So, ble yng Nghymru ti'n dod o?

Arshad: Caerdydd.

Steve: No way! Fi'n dod o'r Rhondda! Bluebirds fan?

Arshad: (*Yn chwerthin*) Ydw. 'Wy 'di cael season-ticket ers pan o'n i'n ifanc.

Mae Ieuan yn codi'i aeliau.

Steve: O't ti 'na pan naeth Chopra sgorio pedwar gôl yn erbyn Derby ddwy flynedd yn ôl?

Arshad: O'n, diwrnod ffantastig. Nethon nhw gawlach o'r play-offs, though, yn do fe?

Steve: Tell me about it! Actually, don't mention it! Bouncing I was! Dal yn tampin' nawr. Ond, no worries, our year this year, a bydd y Swans byth yn aros lan yn y Prem.

Arshad: Collon nhw penwythnos diwetha cofia...

Steve: Ie, fi'n gw'bod. Gutted.

Arshad: Ti'n hoffi rygbi?

Steve: Ydw. Weles di'r gêm dydd Sadwrn?

Arshad: Do, methu credu'r peth! Mor agos i gyrraedd y ffeinal! A'r garden goch! Beth oedd hwnna?

Mae Arshad yn gorffen trin Ieuan ac yn ysgrifennu ar ei glipfwrdd.

Ieuan: Y blydi dyfarnwr 'na! Mi a'th pob penderfyniad – popeth - yn 'yn herbyn ni.

Arshad: Ie, wel gewn ni ddangos i bawb pwy yw'r gorau yn y Chwe Gwlad flwyddyn nesaf.

Steve: Exactly.

Arshad: Wel, Ieuan, 'wy'n meddwl dy fod ti'n ddigon iach i adael y lle 'ma cyn hir. O'n i'n meddwl efallai bod concussion gyda ti, ond heblaw am gwpwl o gleisiau, ti'n iawn.

Ieuan: *(Yn siomedig braidd)* Iawn. Diolch.

Â *Arshad* draw at *Steve* yn awr. Wrth iddo siarad edrycha ar gynnwys y diferwr i ddechrau gan godi nodiadau ac yna parha i drin *Steve* trwy edrych ar ei ben a'i lygaid, cyn symud ymlaen i drin ei goes.

Arshad: Sut wyt ti'n teimlo heddi, Steve?

Steve: Ok, ife. Jyst methu cysgu. Ti'n gwybod, ar ôl...

Arshad: Ie, 'wy'n deall. 'Wy' methu credu'r peth...

Steve: A'r holl saethu bore 'ma.

Arshad: 'Wy'n gwybod. 'Wy' heb gael brêc ers dros ddeuddeg awr.

Ieuan: Pam ddes di i fod yn feddyg fan yma, o bob man?

Arshad: 'Wy' mo'yn arbenigo mewn trauma surgery, a fan hyn yw'r lle gorau i gael profiad. Typical, ife!

Ieuan: Ia...

Arshad: Ond, o'n i'n meddwl gallwn i 'neud rhywfaint o ddaioni 'ma.

Ieuan: *(Yn siarad ag Arshad)* Rhaid bod hi'n anodd i chdi, doc?

Arshad: Y job? Wel, ydy... Rhai pethau'n erchyll...

Ieuan: (*Yn torri ar ei draws*) Na, na... Y rhyfel 'ma...

Arshad: O...

Ieuan: Rhaid dy fod ti 'di rhannu'n ddwy.

Arshad: Be' ti'n feddwl?

Ieuan: Helpu'r ochr yma, fel petai, tra bod gin ti gydymdeimlad efo'r ochr arall...

Arshad: Ni'n trin cleifion yr ochr arall yma hefyd. Affergans, y rhai sy'n ymladd yn 'yn herbyn ni....

Ieuan: Ond rhaid fod gen ti gydymdeimlad efo'u hachos, yn does? 'Mond meddwl oeddwn i, y bysat ti'n deall eu cwynion. Dwi ddim yn dy gyhuddo di o ddim byd...

Arshad: Na. Na.

Ieuan: Na?

Arshad: Na, na, ddim o gwbl. 'Wy' ddim yn grefyddol. Crefydd sy' wedi rhoi ni yn y mess 'ma i ddechrau. So teulu fi'n grefyddol, chwaith. Ma'n nhw'n dod o Irac ond pan oedd Dad tua dau ddeg pump roedd rhaid iddyn nhw ffoi i Brydain. Comiwnyddion oedden nhw, chwel, ac roedd Saddam Hussein yn 'u herlid nhw. Ma' 'da ni'r un cyfenw ag e, Hussein! Ond roedd e mo'yn 'yn lladd ni. Meddylwch am y peth! A wedyn pan ddechreuodd y Mujahideen ac ati ennill pŵer yn y Dwyrain Canol, roedd hi'n rhy beryglus iddyn nhw aros.

- Steve: Mor stupid. Roedd dad-cu fi'n communist. Dychmygu os oedd pobl yng Nghymru'n trio lladd e oherwydd hynny?
- Ieuan: Ond beth am yr ormes ma'n nhw'n 'i dodda? 'Da ni'n (*yn pwyntio at ei hun, Steve ac Arshad yn eu tro*) gwybod yn well na phawb be 'di gormes, yn dydan? Beth am y bobl gyffredin gafodd eu hanafu ddoe...
- Arshad: 'Wy'n helpu'r ddwy ochr... Y milwyr a'r bobl gyffredin... A ta beth, 's'neb yn y byd 'ma'n hollol ddiuog... Mae'r bobl gyffredin yma wedi diodda o achos yr eithafwyr 'ma ers blynyddoedd... Ma' 'na rai mas fyn'na sy'n plotio yn erbyn ni, cofia di... Ddim pawb o bell ffordd, ond rhai... Cofia 'ny cyn bod ti'n amddiffyn nhw gyd...
- Ieuan: (*Yn torri ar draws*) Ia, ond tydan nhw ddim 'di cael chwara teg. America a gwledydd eraill oedd yn ariannu'r Mujahideen yn y lle cynta', a phobl fatha Bin Laden, a Saddam de, a rŵan ma'n nhw am ladd y cwbl lot! Efo pwy mae'r bobl gyffredin fod i ochri?
- Steve: Gobeithio bydd y rhyfel hyn y sorto popeth mas.
- Arshad: (*Yn ceisio dod â'r sgwrs i derfyn*) Ie. Reit, well i fi edrych ar dy goesau di, gwneud yn siŵr bod dim anafiadau yno...
- Steve: O, iawn. Sori, doc, got a bit carried away, ife...
- Mae Arshad yn mynd i edrych ar goes Steve. Daw golwg o bryder i'w wyneb.*
- Arshad: Steve, wyt ti'n gallu teimlo fy llaw ar y droed? (*Mae Arshad yn cyffwrdd â throed Steve.*)
- Steve: (*Yn betrusgar*) Na, na fi ddim... Beth sy'n bod?
- Arshad: Alla i ddim bod yn sicr ar hyn o bryd... Bydd rhaid 'neud mwy o brofion...

Steve: Ond fi'n mynd i fod yn oreit, ie? Bydd ddim rhaid i nhw torri coes fi bant?

Arshad: Ma' jyst angen gwneud mwy o brofion... Efallai bydd rhaid i ti fynd adre i wella...

Steve: O.

Ieuan: 'Drycha be' ma' nhw 'di 'neud i ti! 'Dy hyn ddim yn deg. 'Drycha be' ma'r rhyfel ma'n 'i 'neud.

Steve: Mae'n oreit, Ianto. Gallu gweld pawb adre nawr, ife? Ie...Ie...Mae'n oreit.

Arshad: Bydd nyrs yn dod mewn i siarad â ti cyn bo hir, i sicrhau bo' ti'n iawn.

Steve: Iawn. (*Yn meddwl*) Ife Delyth yw enw'r nyrs?

Ieuan: Steve!

Arshad: (*Wedi drysu*) Ie...

Steve: Ianto, hi!

Arshad: Ti'n nabod hi?

Steve: Na, ddim fi. Ianto yn.

Ieuan: Fuon ni ar yng Nghyprus 'fo'n gilydd.

Arshad: (*Yn nerfus*) O, reit. 'Na i weud wrthi. Fydd hi'n falch o dy weld di.

Ieuan: (Gyda gobaith) Bydd?

Arshad: Wrth gwrs.

Ieuan: (Yn gyffrous) O.

Arshad: Reit, gwna'n siwr bo' ti'n gorffwys ddigon nawr Steve. A ti Ieuan. Bydd Delyth mewn i siarad â ti cyn bo hir, Steve.

Steve: Diolch, doc.

Ieuan: Diolch.

Â **Arshad** allan. Golau i lawr tipyn ar **Ieuan** a **Steve**, ond golau i fyny o hyd ar y cyntedd tu allan i'r ystafell wrth i **Arshad** gerdded tuag ato. Wrth iddo gyrraedd y cyntedd, mae **Delyth** yn cyrraedd hefyd.

Delyth: Heia!

Arshad: 'Na gyd-ddigwyddiad.

Delyth: Beth?

Arshad: Jyst y ferch o'n i'n edrych amdani...

Delyth: Ie?

Arshad: Ti'n mynd mewn fyn'na nawr?

Delyth: Odw. Jyst 'neud 'yn rownds.

Arshad: (Yn dangos ei glipfwrdd i **Delyth**) Wyt ti 'di gweld pwy sydd mewn 'na?

Mae Delyth yn darllen.

Delyth: *(Yn cydio yn y clipfwrdd wrth sylweddoli beth y mae'n ei ddweud)*
Beth?! Ti o ddifri?

Arshad: Ydw.

Delyth: Be' fi'n mynd i 'neud?

Arshad: O'n i jyst mo'yn dy rybuddio di.

Delyth: O's rhywun yn gallu 'neud e yn 'yn lle i?

Arshad: Na, ma' pawb yn brysur, ar ôl y bom ddoe, a wedyn y bom iwr bore
'ma. Ma' pawb ar ddyletswydd yn barod.

Delyth: Daro.

Ochneidia Delyth.

Arshad: Alla i drïo gweld os oes rhywun arall ar gael.

Delyth: Na, na, mae'n iawn. O'dd hyn yn bownd o ddigwydd ar ryw adeg.
Well wynebu fe nawr.

Arshad: A meddylia, ar ôl i ti orffen, fydd gen ti nosweth rydd.

Delyth: Ha ha. Sa i'n siwr bod hynny'n wobwr ddigon mawr, ond diolch. Ti dal
yn rhydd heno?

Arshad: Wrth gwrs.

Delyth: Iawn. Wela i di tua saith?

Arshad: Saith it is.

Mae'r ddau yn cusanu.

Delyth: Wela i di wedyn.

Arshad: (*Yn cellwair*) Pob lwc.

Delyth: (*Yn hoffus*) Cer o 'ma.

Mae Arshad yn gadael.

Golau i lawr.

Golygfa 3

*Mae'r llwyfan wedi'i rannu'n ddau ran gan oleuadau. Ar un ochr, y mae **Delyth** yn sefyll gyda'r golau arferol arni. Ar weddill y llwyfan, y mae **Ieuan** a **Steve**, yn eu lleoliadau arferol. Golau pŵl yn unig sydd arnynt hwy. Ni allwn glywed yr hyn y mae'r ddau'n ei ddweud ond gwelwn fod **Ieuan** yn chwarae solitaire tra bo **Steve** yn ceisio siarad ag ef. Mae **Ieuan** yn anwybyddu **Steve**. Mae ffôn **Delyth** yn canu. Mae hi'n ei ateb.*

Delyth: Heia... (yn sydyn) Fi'n iawn! Fi'n iawn! Ma' popeth yn iawn. Ti'n wa'th na Mam! (Saib.) Na, o'n i ddim yn gweitho ar y pryd. 'Wi newydd ddechre'n shift nawr. 'S'dim byd fel diwrnod tawel i ddechrau chwe mis o waith caled yma. (Saib.) Ydy. A, tra'n bo' ni'n sôn am bethau'n mynd o ddrwg i waeth, dyfala pwy sy' 'ma, wedi'i anafu, ar 'yn ward i... (Saib, Mae **Delyth** yn ateb trwy ailadrodd yr hyn mae'i ffrind wedi'i ddweud) Tom Hanks?! (Saib.) Wel, nid Fietnam yw fan hyn, a dyw Forrest Gump ddim 'ma chwaith. (Saib.) Cliw? Umm... Cymro yw e. (Saib.) Na, nid Tom Jones! O ddifri' nawr, meddylia... Nid Tom yw 'i enw e, os yw'n hwnna'n helpu o gwbl. (Saib hir. Yn y diwedd mae ateb **Delyth** yn llawn siom) Cywir. (Saib.) Bendant. (Saib.) Wel, ti'n nabod unrhyw un arall 'da'r enw 'na? Sy' jyst yn digwydd bod yn y fyddin? (Saib.) Positif... Cant y cant. (Saib.) Na, ma' pawb yn fishi ar ôl yr ymosodiad bore 'ma, ac o'dd friendly fire ddo'... (Saib.) Na! Ma'n rhaid i fi drin pawb - milwyr, pobl gyffredin, Taliban... (Saib. Yn ateb drwy ailadrodd yr hyn mae'i ffrind wedi'i ddweud) Hyd yn oed cyn-gariadon... Yn anffodus. (Saib. Ochneidia **Delyth**) 'Wi'n gw'bod, 'wi'n gw'bod, ond mae'n llet'with... T'mod, ar ôl be' ddigwyddodd. (Saib.) 'Wi'n gw'bod, ond 'wi dal yn t'imlo'n wael am y peth. (Saib.) Ie... Reit, well i fi fynd i'w wynebu fe nawr. (Saib.) Ocê, siarada i 'da ti cyn hir. (Saib.) Ie, fe wna i... A ti... Ta-ra, tara.

*Mae **Delyth** yn rhoi'r ffôn yn ei phoced. Ochneidia a cherdda mewn i ystafell Steve ac Ieuan. Mae'r golau'n pylu ar y lle yr oedd **Delyth** yn sefyll, a daw golau arferol y ddrama i fyny ar weddill y llwyfan lle y mae'r tri chymeriad yn awr wedi'u lleoli. Wrth yr olwg ar wyneb **Delyth**, y mae hi'n amlwg wedi digalonni wrth gael*

*cadarnhad mai **Ieuan** sydd yno. Nid yw **Ieuan** na **Steve** wedi sylwi ar ei phresenoldeb.*

Delyth: (Yn ceisio ymddangos yn sicr iawn ohoni ei hunan) Helo.

Steve: Hiya. Alright?

Ieuan: (Yn torri ar draws Steve) Delyth!

*Mae **Ieuan** yn codi ac yn mynd at **Delyth**. Mae e'n amlwg wedi cynhyrfu.*

Ieuan: O'n i'n meddwl... Ti... Ti... Ti yma! Pan... Daeth... Ond... 'Nes i byth...
Dwi'n methu coelio...

Delyth: Ieuan, ma' 'da fi...

Ieuan: (Yn torri ar draws) Sut w't ti?

Delyth: Fi'n iawn. Ond Ieuan, ma' rhywbeth...

Ieuan: (Yn torri ar draws) Dwi mor falch o dy weld ti.

Delyth: Ieuan, dwi'n brysur...

Ieuan: Ty'd yma.

*Mae **Ieuan** yn cofleidio **Delyth**. Mae hi'n amlwg wedi'i syfrdanu. Mae ei llonyddwch yn pwysleisio'r lletchwithdod y mae hi'n ei deimlo. Mae'r cofleidiad yn parhau yn llawer rhy hir. Mae **Ieuan** yn ddagreuol. Yn araf, mae **Delyth** yn codi un llaw a'i rhoi ar gefn **Ieuan**.*

Steve: Ianto?

*Mae **Ieuan** yn sylweddoli yr hyn y mae'n ei wneud ac yn gollwng **Delyth**. Teimla ei fod wedi datgelu gormod am ei deimladau.*

Ieuan: (Yn sychu ei lygaid) Mae'n ddrwg gen i.

Delyth: Mae'n iawn.

*Saib. Mae **Steve** yn teimlo'n lletchwith iawn. Nid yw'n gwybod lle i edrych. Nid yw **Delyth** na **Ieuan** yn gwybod beth i'w ddweud. Mae **Ieuan** yn edrych i lawr, ac mae **Delyth** yn edrych o'i chwmpas. Mae'r ddau yn teimlo bod rhaid tarfu ar y tawelwch.*

*Mae **Ieuan** a **Delyth** yn dweud y llinellau nesaf ar yr un pryd:*

Ieuan: Sut w't...

Delyth: Wel, y...

Mae'r ddau'n chwerthin yn anghyfforddus.

Ieuan: Dos di'n gynta.

Delyth: Ie, y... Wel... Shwd y ti? Heblaw... Wel, bod yn fan hyn.

Ieuan: O, dwi'n iawn. 'Mond amball friw yma ac acw. Steve fan'ma sy'n diodda' fwya'. Fo 'di'r arwr go iawn.

Delyth: Do, glywes i. Steve yw'r un 'wi 'ma i weld, mewn gwirionedd. Wedodd Dr Hussein 'mod i'n dod, do?

Steve: Do...

Ieuan: (Yn torri ar draws **Steve**) Do, ddwedodd o.

Delyth: O, reit. Shwd ti'n t'imlo erbyn hyn Steve?

Steve: Oreit... Been better ife, ond mae'n iawn.

Ieuan: Paid â malu cachu, mi fuodd o'n griddfan drwy'r nos.

Delyth: (*Yn gwneud ei gorau i anwybyddu Ieuan*) 'Sdim ishe ti fod yn ddewr o 'mhla'n i. Ddim un o'r bois y fi. Shwd ma'r boen? O's ishe rhywbeth i helpu?

Ieuan: Be' am painkillers? Tabledi?

Steve: Ie, byddai panikillers yn dda, diolch.

Delyth: Iawn. Arhosa di am eiliad, Ieuan. (*Wrth Steve*) 'Na i jyst edrych ar y clwyfau 'ma ac wedyn gweld Ieuan yn gyflym, ac yna a' i nôl peth i ti.

Mae Delyth yn mynd at ei gwaith.

Ieuan: Sut w't ti ta, Del?

Delyth: Iawn, diolch. Bishi.

Saib. Mae Delyth yn edrych ar glwyfau Steve.

Steve: Fi wedi clywed lot amdana ti.

Delyth: O, reit...

Steve: Ie, mae Ianto yn siarad amdana ti trwy'r amser.

Delyth: (*Yn edrych ar Ieuan*) Ianto? Ers pryd y ti'n cael dy alw'n 'Ianto'?

Ieuan: Hogia'r section sy'n 'y nglaw i'n lanto. (*Yn swil*) A siarad am Gyprus yn gyffredinol oeddwn ni wrth Steve, nid jyst amdana ti...

Delyth: O. Iawn. (*Yn troi'n ôl at Steve*) Jyst un ne' ddou arall i edrych arnyn nhw.

Mae Delyth yn parhau gyda'i gwaith.

Saib.

Ieuan: Ti'n cofio'r lle, Del?

Nid yw Delyth mo'yn siarad..

Ieuan: Gwych, yn doedd? Treulio diwrnoda' rhydd ar y traeth, yn dal lliw haul, ne' fynd ar jet sgîs, ne' paraseilio, ne' be' bynnag liciet ti! A'r môr yno, fatha bath, yn doedd? Ti'n cofio'r tro 'na esh i paraseilio? Des i nôl, a mi oeddat ti'n cysgu ar dy gefn. Oeddat ti'n gorwedd yno'n frown i gyd, gyda dy sbectol haul mawr, fatha rhyw mwfistâr. A dy groen di'n pilio oddi ar dy drwyn. Do'n i'n methu peidio mynd yn ôl i'r môr, llenwi'n nwylo 'fo dŵr, a'i arllwys o dros dy fol di! A ti'n codi'n syth efo'r sioc, a rhedeg ar 'yn ôl i efo botel o ddŵr. Pe baet ti 'di llwyddo i beidio chwerthin am fwy nag eiliad, fyddwn i 'di gallu coelio dy fod ti mor flin ag oeddet ti'n 'i ddeud.

Delyth: (*Yn ymuno rhywfaint yn yr hwyl*) O't ti 'di 'nglychu i!

Ieuan: 'Nes di 'nglychu i nôl, do? Arllwys potel llawn o ddŵr dros 'y mhen!

Delyth: Ie, ond 'nes di godi fi lan, mynd â fi mewn i'r môr a dala fi o dan y dŵr nes 'mod i bron â boddi, y diawl dwl!

Ieuan: Oeddat ti'n haeddu hynny. 'Mond 'chydig o hwyl.

*Mae brawddegau olaf **Ieuan** a hithau yn atgoffa **Delyth** ei bod wedi'i swyno'n ormodol gan stori **Ieuan**. Mae'n rhoi ei sylw i'w gwaith unwaith eto.*

Delyth: Reit, 'na ti Steve. Ma' popeth yn edrych yn iawn. 'Sdim haint ar un o'r clwyfe hyd y galla i weld.

Steve: O, iawn. Cheers.

Delyth: Shwd ma' dy glwyfe di Ieuan?

Ieuan: Popeth yn iawn efo fi, Del.

Delyth: Y... Wel, well i fi jyst 'neud yn siŵr.

*Mae **Delyth** yn mynd at **Ieuan**.*

Ieuan: Gwych, yn doedd?

Delyth: Beth?

Ieuan: Cyprus? Roedd o'n le hyfryd, yn doedd? Pobman fatha cerdyn post. Hei, ti'n cofio'r eglwys fach 'na, fuon ni'n ymweld â hi? Y tro cynta' es i a ti allan? Mi gerddon ni fyny'r holl risia' bach cerrig 'na i ben y mynydd i'w gweld. Gwell sesiwn ymarfer corff nag unrhyw beth 'nes i 'rioed efo'r armi 'ma! Pan gyrhaeddod ni'r brig, roedd dy fochau di'n goch i gyd, fel y byddan nhw ar ôl diwrnod prysur, neu os oedd 'na betha'n dy boeni di. Roedd camu fewn i'r eglwys 'na fatha camu i fyd arall, yn doedd? Y ffenestri lliw, a'r holl aur ym mhobman, ac arogl yr insens. Roedd o fatha rhyw fyd tylwyth teg, ne' hen balas rhyw frenhinoedd 'mhell bell yn ôl. A'r golygfeydd dros y bae islaw. Dwi'n meddwl i ni fedru gweld dros y môr i Israel a'r Aifft o lle oeddod ni. A chymryd yr oreinnau mawr 'na oddi ar y goeden tu allan, a'u bwyta nhw. A wedyn, yr offeiriad yn dod allan a gweiddi arnan ni am wneud, a ninnau'n 'i heglu hi'r holl ffordd lawr y grisia' 'na eto!

Delyth: (*Yn ymwrthod â'r hiraeth y mae Ieuan yn ei deimlo*) Wel, nag o'dd un ohonon ni'n grefyddol iawn, o'n ni?

Ieuan: (*Yn ffugio siom*) Be' ti'n feddwl? A finna'n hogyn capal!

Delyth: Ca'l dy orfodi i fynd gan dy dad o't ti, wedest di wrtha i.

Ieuan: Ond dwi 'di gweld y goleuni yn rhai o'i eiria fo erbyn hyn. 'Da'n ni'n cytuno ar lawer iawn mwy o betha' dyddia' 'ma, 'Nhad a fi.

Delyth: (*Yn amlwg wedi synnu*) O. Reit.

Ieuan: Byddwn i 'di licio priodi yn yr eglwys yna, yng Nghyprus. Ac eniwê, be' amdana ti?

Delyth: Fi?

Ieuan: Ia, priodas capal oeddat ti isho. Pan ddaru ni ddyweddïo, roeddat ti'n mynnu y bysan ni'n priodi yn y capal Cymraeg 'na... Tabernacl... Lawr yr lôn o dŷ dy rieni.

Delyth: Dim ond achos dyna le briododd Mam a Dad, a Mam-gu a Tad-cu.

Ieuan: Ia, siŵr. Wel dwi'n gw'bod un peth yn sicr – chawn ni ddim mynd nôl i'r eglwys fach 'na yn Nghyprus i briodi!

Nid yw Delyth yn ymateb. Mae Ieuan yn sylweddoli'r hyn y mae ef newydd ei wneud.

Saib hir tra bod Delyth yn trin Ieuan.

Delyth: Iawn. A' i nôl tabledi i ti nawr Steve.

Ieuan: *(Yn torri ar draws wrth sylweddoli bod **Delyth** ar fin gadael)* Be' am fynd nôl ryw ddydd?

Delyth: Beth?

Ieuan: Mynd nôl i Gyprus?

Delyth: Ti a fi?

Ieuan: Ie, a'r gweddill ma'n siŵr.

Delyth: Ma' Beth a James a Rich 'na o hyd.

Ieuan: O, wel, gawn ni'n dau fynd i'w gweld nhw, ta. Fydd o'n gyfle bach neis i ymlacio, 'n bydd, ar ôl bod fan'ma am fisoedd.

Delyth: Bydd, ond ma' gen i lwyth i 'neud pan fydda i adre'. Ni'n prynu tŷ, a ma' pethe 'da ni sorto allan 'da'r banc a...

Ieuan: *(Yn torri ar ei thraws)* Ni?

Delyth: *(Yn lletchwith)* Ie.

Ieuan: *(Yn ceisio ymddangos yn bles drosti)* O, 'dach chi dal efo'ch gilydd ta?

Delyth: Na. Rhywun arall.

Ieuan: O. Reit.

*Saib. Mae **Ieuan** yn edrych i ffwrdd.*

Delyth: Iawn. Sori Steve. Painkillers.

Ieuan: *(Cyn i **Delyth** gael cyfle i adael)* Ga i gwarfod o?

Delyth: Beth?

Ieuan: Y boi newydd. Dy gariad di. Bysa'n dda petawn ni'n gallu bod yn ffrindia, yn bysa?

Delyth: O.

Roedd Ieuan yn disgwyl ateb mwy cadarnhaol. Edrycha i'r llawr.

Delyth: Na... Jyst... Wel... Ti 'di cwrdda fe'n barod.

Ieuan: Pwy?

Delyth: Dr Hussein.

Ieuan: Y doctor 'na ddoth fan'ma bore 'ma?

Delyth: Ie. Arshad yw 'i enw e.

Ieuan: Ac mae o'n mynd i fod yma, yn 'y nhrin i?

Delyth: Wel, ydy, doctor yw e.

Ieuan: Dwi'n methu coelio hyn! Dwi'n mynd i orfod 'i weld o yma bob dydd? Yn gw'bod dy fod ti ac o'n...

Delyth: Fyddi di ddim yn yr ysbyty am lawer mwy o amser.

Ieuan: Be' am yr holl gynllunia o'dd gynnnon ni? I briodi, gadael 'r'armi, prynu tŷ? A rŵan, mi w't ti'n g'neud yr holl betha 'na efo fo! A dwi fod i orwedd 'ma, a'i weld o'n brolio?

Delyth: Ddim un fel 'na yw Arshad.

Ieuan: Sut w't ti'n gw'bod hynny. 'Mond rhyw flwyddyn yn ôl oeddat ti efo fi, ac wedyn y boi arall 'na. Ers faint w't ti'n nabod Arshad?

Delyth: Naw mis.

Ieuan: Naw mis! A 'dach chi'n prynu tŷ 'fo'ch gilydd? Tri dyn mewn blwyddyn? Record newydd i chdi, yr hwren.

Delyth: Ieuan! O'n i'n meddwl bo' ti 'di newid... Bo' ti 'di tyfu lan... Pan wedes di bo' ti mo'yn cwrdda fe...

Ieuan: Ia, wel, mi oedd hynny cyn 'mod i'n sylweddoli y byddwch chi'ch dau'n gwthio'r peth i ngwyneb i bob dydd. Ac efo rhywun fatha fo!

Delyth: Beth?

Ieuan: 'Sa well gin ti fynd efo rhywun fatha fo?

Delyth: Beth 'y ti'n feddwl, 'rhywun fatha fo'?

Ieuan: Boi du, de. Deud wrtha i – sa well gen ti fynd efo boi du nag efo fi?

Delyth: Fi wir methu credu bo' ti jyst 'di gweud 'na! Ac i ateb dy gwestiwn di - ie, *bydde* well 'da fi fynd mas 'da boi du, fel ti'n gweud. Bydde well 'da fi fynd mas *unrhyw* foi arall, unrhyw *ferch* hyd yn oed, na mynd mas 'da ti! Bydde well 'da fi farw'n hen ferch na hyd yn oed 'styried y peth! Be' sy'n bod arna ti? Dyw'r rhyfel 'ma ddim 'di dysgu unrhyw beth i ti? Bod ishe i bawb ddod mla'n 'da'i gilydd? Ma' bechgyn, rhai'n iau na ti, yn marw mas 'ma, miloedd o filltiroedd oddi cartre'... Dy ffrindie di, Steve fan hyn 'co, yn cael eu 'nafu... Ond 'na gyd 'y ti'n becco am yw ti dy hunan. Fel arfer. O'n i'n meddwl, falle bo' ti 'di newid, ond o'n i'n anghywir, yn do'n i? Ti dal i feddwl amdanat ti dy

hunan - neb arall. Dim ond 'ma i bisho dy dad off wyt ti, fel rhyw blentyn pymtheg ô'd, ddim i helpu neb, ddim i 'neud gwahanieth.

Ieuan: Mi rydw i yn meddwl am bobl er'ill! W't ti 'di bod allan, tu hwnt i'r gwerysll 'ma? Dwi wedi, a dwi 'di gweld y dinistr 'dan ni 'di 'neud. Mi es i weld y pentre' draw fan'cw ar ôl y bom 'na ffrwydrodd ddoe. Es i efo rhai o'r heddlu Affgan. Dwi'n ffrindia efo criw ohonyn nhw, a ma' nhw 'di dangos i fi sut ma'r rhyfel 'ma 'di difetha'r wlad! A phaid ti â sôn wrtha i am falio am bobl eraill! Doeddat ti ddim yn malio dim amdana i, nag oeddat, pan redest di ffwr' efo'r boi arall 'na? Heb fwy na llythyr bach i ddeud bo ti'n 'y ngadael i? Mi rydw i'n meddwl am bobl eraill! Dwi 'di deud, dwi'm yn mynd i saethu neb arall yn y rhyfel 'ma rhagor, heblaw ei fod o'n sefyllfa fi ne' fo. Ddudis i hynny, 'do fe, Steve?

Nid yw Steve yn ymateb. Mae wedi'i synnu o hyd gan yr hyn a ddywedodd Ieuan am Arshad. Edrycha Ieuan arno. Nid yw'n ymateb o hyd.

Delyth: (At Ieuan, yn sarcastig) Anrhydeddus iawn. Get real Ieuan! Ti 'ma i ymladd rhyfel, ti 'di ca'l hyfforddiant ar sut i ladd pobl. So ti'n ddim gwell na neb arall 'ma o ran hynny. Dyma'r union beth 'y fi'n feddwl - bod yn blentynnaidd, meddwl bo' 'da ti'r ateb i bopeth! Wel do's dim! Ti'n gw'bod taw un o'r heddlu Affgan 'na'th chwythu'i hunan lan tu fas i'r ysbyty 'ma bore 'ma? Er mwyn dial am y bom 'na ddoe?

Ieuan: Na! Celwydd 'di hynna!

Delyth: Ma'r awdurdode newydd gadarnhau'r peth, tua hanner awr yn ôl. (Yn sarcastig) Ond, wel, dy ffrindie di ydyn nhw. Ti 'di cwrdd â'u teuluoedd nhw. A dwyt ti ddim yn mynd i saethu neb rhagor, nag wyt, achos bo' nhw 'di dangos i ti beth ma'r rhyfel 'ma'n 'i wneud? (Yn taflu geiriau Ieuan yn ôl ato) Ers faint wyt ti'n 'u nabod nhw, gwed?

Ieuan: Dwi'n 'u nabod nhw'n dda. Ddim un o'r rhai dwi'n ffrindia efo'n nhw 'na'th. Ma' nhw am weld diwedd yr holl ladd. 'Sa nhw ddim am ladd mwy o bobl, na fasan?

Delyth: (*Yn ochneidio*) Alla i ddim godde' hyn rhagor... Steve, a' i nôl tabledi i ti nawr.

Dechreua Delyth adael.

Ieuan: Del... Ma'n ddrwg gen i.

Delyth: Rhy hwyr, Ieuan.

Ieuan: Del... Do'n i ddim yn meddwl yn strêr.

Â Delyth allan.

Golau i lawr.

Golygfa 4

*Yn hwyrach y prynhawn hwnnw. Mae **Steve** yn gorwedd ar ei wely, ac mae gwely **Ieuan** yn wag. Mae yna gadair olwyn rhwng y ddau wely. Mae **Delyth** ger gwely **Steve** yn rhoi tabledi iddo. Mae **Steve** yn cymryd y tabledi.*

Delyth: Shwd ŷt ti?

Steve: Iawn.

Delyth: Steve...?

Steve: Beth?

Delyth: Shwd ti'n teimlo?

Steve: Iawn... A bydd y tabledi'n gweithio cyn bo hir.

Delyth: Sa i'n sôn am dy goes di.

Steve: O.

Saib.

Delyth: So, shwd ti'n teimlo?

Steve: Iawn. Ie...

Delyth: Fe alli di 'weud wrtha i.

Steve: Fi wedi blino. Fi methu cysgu.

Delyth: Fe alli di siarad amdano fe 'da fi, ti'n gw'bod.

Steve: Fi jyst yn fed-up o fod fan hyn. Fi mo'yn bod mas 'na, yn ymladd eto.
Yn lle bod yn stuck fan hyn, yn gwneud dim.

Delyth: Ti'n gw'bod fod hynny ddim yn bosib.

Steve: Ydw, fi'n gwybod.

Saib.

Delyth: Wi'n gw'bod beth... Ti'n ffansio mynd am dro? Awn ni i weld y bois eraill. Bydden nhw'n falch o dy weld di. Byse'n 'neud lles iddyn nhw, i dy weld di o gwmpas y lle. Ac i ti hefyd, i dreulio amser i ffwrdd o'r lle 'ma. Cymryd dy feddwl di oddi ar bethau.

Steve: Ie. Can't do any harm.

Delyth: Iawn. (*Gan dynnu'r gadair olwyn tuag at wely Steve*) Co ti.

Mae Delyth yn helpu Steve i mewn i'r gadair.

Steve: Awww!

Delyth: Sori, fi'n gw'bod fod e'n boenus.

Daw Arshad i mewn.

Arshad: Gwella'r boen ti fod i wneud, cofia...

Delyth: Ha ha, doniol iawn.

Arshad: Lle chi'n mynd?

Steve: Gweld bois y section.

Delyth: O'n ni'n meddwl 'wnele fe les i Steve fod mas o'r lle 'ma am awr neu ddwy.

Arshad: A 'wnele fe les i ti fod mas o'r lle 'ma er mwyn osgoi rhywun arall, efallai?

Delyth: Falle...

Arshad: Lle *mae* Ieuan?

Steve: Roedd e wedi gadael tua hanner awr yn ôl. Roedd e'n siarad gyda'i hunan a wedyn gwnaeth e jyst codi a mynd mas.

Delyth: Gobeithio ddaw e ddim nôl.

Saib.

Delyth: Sori, ddylwn i ddim fod wedi gweud 'na. Mae e'n ffrind i ti. Fi jyst methu credu be' 'wedodd e. Glywes di fe? 'Boi du'? O ddifri? Pwy sy'n meddwl pethe fel'na dyddie 'ma!

Arshad: Delyth, paid â phoeni am hynny nawr...

Delyth: Effaith 'i dad e yw e... 'Neud iddo fe gredu fod e'n well na phawb arall. A dishgwl i fi faddau iddo fe'n syth! Ma' fe wostod 'di bod yn un am golli'i dymer. Ond bod yn hiliol? (At **Arshad**) Ti 'di gorfod gwrando ar ddigon o bethau fel'na o'r blaen.

Steve: Fi'n siwr bod e wedi clywed lot gwaeth tra oedd e'n gwyllo'r Bluebirds yn chwarae.

Arshad: Yn union. (At **Delyth**) Anghofia amdano fe.

Delyth: Fi'n gw'bod. A Steve, paid gwed 'tho fi bo' Arshad 'di bod yn sôn am y Bluebirds wrtho ti 'fyd! Fi 'di clywed hen ddigon amdanyn nhw. Y Swans y fi'n cefnogi – wel ma' dad yn 'u cefnogi nhw.

Steve: (*Yn cellwair*) Booooo!

Mae Arshad yn chwertthin.

Delyth: Ddim ti 'fyd! Gwed 'tho fi, ti'n cytuno da fe? (*Yn pwyntio at Arshad*) Mae e'n meddwl bod e'n rhyw fath o fix bod y Swans 'di mynd lan i'r Uwch-gynghrair 'lenni?

Arshad: Come on! Mae'n amlwg! Ni 'di bod reit lan 'na yn agos i'r top am y pum mlynedd diwethaf. Llynedd oedd y flwyddyn gyntaf i'r Swans hyd yn oed gyrraedd y play-offs!

Delyth: Ti'n cytuno?

Steve: Wrth gwrs! Caerdydd yw'r gorau, hands down.

Arshad: 'Wy' wedi gwed wrth Delyth yn barod – ein mab cyntaf ni, 'newn ni'i alw e'n Earnshaw.

Delyth: Ti erioed 'di clywed shwd beth mor dwp?

Arshad: Ha-ha. Wel, fi'n gorfod mynd nawr, ond Steve, ti'n iawn am y Bluebirds, mêt. Paid gadael i Delyth newid dy feddwl. (*Gan fwytho cefn gwddf Delyth*) Wela i chi wedyn.

Delyth: Hwyl.

Steve: Ta-ra.

Mae Arshad yn gadael.

Steve: Earnshaw Hussein – swno'n dda i fi.

Delyth: Sa i'n galw'r un o'n plant ni'n 'Earnshaw'. Pan ddown ni i gael plant, fi'n siwr bydd 'na sgwrs ddifrifol ynglŷn â pha dîm fydden nhw'n 'i ddilyn.

Daw Ieuan i mewn.

Ieuan: Dwi 'di cael hen ddigon ar y lle 'ma! (*Yn gweld Delyth*) O.

Delyth: Well i fi fynd. Ddo i'n ôl wedyn.

Nodia Steve.

Ieuan: Del! Ty'd nôl! Dwi'n gadael y lle 'ma!

Mae Delyth yn gadael.

Ieuan: (*Yn gweiddi ar ôl Delyth*) Wnei di plis siarad efo fi?!

Steve: Ti'n gadael? Sut?

Ieuan: (*Yn orwyllt*) Es i weld y Sarj. Gofyn iddo fo ga' i adael.

Steve: A dywedodd e ie?

Ieuan: (*Yn grac*) Naddo! Ddudis i 'mod i isho gadael am resymau personol. Geshia be na'th o?

Steve: Dweud na?

Ieuan: Chwerthin yn 'y ngwynab i!

Steve: Wel...

Ieuan: Felly, ddudis i 'mod i'n consienshys objectyr. 'Mod i ddim isho ymladd dros America a Lloegr mewn rhyfel anghyfiawn. A na ddylwn i fel Cymro orfod ymladd ochr yn ochr efo nhw wrth iddyn nhw ormesu gwlad arall. A 'mod i ddim yn mynd i saethu'r un Affgan arall tra 'mod i yma, felly waeth iddyn nhw ddanfôn fi adra. Ti'n gw'bod be ddudodd o?

Steve: Na?

Ieuan: 'Mod i 'di dewis seinio fyny i'r armi 'ma, ac felly ma'n rhaid i mi aros! A ga' i garchar os meiddia i adael!

Steve: He's got a point...

Ieuan: Ond doedd gen i ddim dewis, nac oedd? 'Mond byddin Prydain sy' gynnwys ni? 'Sgynnwys ni ddim byddin yng Nghymru, nac oes? Dyna be' sy' isio arno ni, er mwyn ymladd nôl!

Steve: (*Yn poeni*) Cool heads, nawr. Paid dweud pethau fel'na. Mae rhyfel gyda ni i ymladd fan hyn. A ti'n gorfod aros yma. Neu byddi di'n mynd i'r carchar. Am amser hir iawn. A bydd y Sarj a'r bois arall yn galw ti'n fradwr. Cofio beth oedd ti wedi dweud. Bod ti ddim yn mynd i saethu unrhyw un, heblaw bod e'n fe neu ti? Jyst cofia hwnna.

Mae Ieuan yn anadlu'n uchel.

Steve: Gwnaeth y Sarj ddweud bo' ti ddim yn gallu gadael?

Ieuan: Do.

Steve: So pam oedd ti wedi dweud wrth Delyth bod ti'n gadael?

Ieuan: Am 'mod i yn gadael.

Steve: Beth?!

Ieuan: Dwi'n methu aros yma gyda'r ddau 'na'n brolio, yn gwthio'r peth i 'ngwynab i drwy'r dydd bob dydd.

Steve: Gwnaeth Delyth ddweud bod ti ddim yn mynd i fod mewn 'ma am lot fwy o amser. Bydd dim rhaid i ti weld nhw.

Ieuan: Fedra i'm parhau fel hyn. Pan o'n i'n meddwl bysa 'na gyfle i mi gael Del, i mi fod efo hi ar ôl i'r rhyfel 'ma orffen... Ro'n i'n fodlon aros. Mi allwn i ymdopi efo'r lle 'ma... Efo unrhyw beth. Ond rwan, 's'gin i ddim cyfle, nac oes? 'Di hi ddim yn fodlon siarad efo fi. Gwrthod sbïo arna i, hyd yn oed. Be fedra i 'wneud? Efo hi yma. A fo. Paid â sôn amdano fo. Pwy mae o'n feddwl ydi o? Glywis di sut oedd o'n trio bod yn fêts efo fi gynnau? 'Fydd hi'n falch o dy weld di', ddudodd o. Yn gwybod yn iawn 'mod i 'di colli 'nghyfle. Un slei ydi o. Dwyt ti'm yn meddwl? Ga i byth siarad efo hi tra'i fod o o gwmpas y lle 'ma. Ma'n rhaid i mi adael, yn does?

Steve: Ianto...

Ieuan: Dim dewis. Dwi'n mynd. Os oes rhywun yn gofyn, dwyt ti'm yn gwybod lle'r ydw i.

Steve: Ble ti'n mynd i fynd? Ti yng nghanol yr anialwch!

Ieuan: Wn i ddim, ond mae'n rhaid i mi adael. Fedra i'm bod yn yr un lle â hi am fisoedd a pheidio siarad efo hi.

Steve: So, ti jyst yn gadael?

Ieuan: Fedri di siarad efo hi?

Steve: Beth?

Ieuan: Delyth. Mi roeddech chi'n siarad yn iawn pan ddes i mewn.

Steve: Ianto...

Ieuan: 'Mond gofyn iddi gwrdd â mi – fi a hi, ar ein pennau'n hunain.

Steve: Fi ddim yn meddwl bydd hi mo'yn siarad gyda ti.

Ieuan: 'Na fo, dos di. (*Yn gwthio Steve yn y gadair olwyn tuag at y drws*)
Gadwa i draw am gwpwl o oriau, osgoi'r ddau ohonyn nhw am ychydig. Rhoi cyfle i Del feddwl am y peth. Ie. Ella â i weld bois yr heddlu Affgan, heb eu gweld nhw ers neithiwr. (*Yn cyfeirio Steve tuag at y drws.*)

Steve: Roeddet ti wedi addo bore 'ma byddi di ddim yn mynd i weld nhw eto.

Ieuan: Dwi'n gwybod, ond fydda i'm yn hir...

Steve: Ianto, ti'n gwybod beth oedd Delyth wedi dweud amdanyn nhw?
Efallai taw nhw oedd wedi trio bomio'r ysbyty bore 'ma!

Ieuan: A be' ma' hi'n 'i wybod amdanyn nhw? Dwi'n 'u nabod nhw. Ac nid nhw 'naeth.

Steve: Os wyt ti'n mynd, gwna i ddweud wrth Delyth.

Ieuan: Deud wrthi, ta. S'gin i ddim ots.

Â **Ieuan** allan.

Golau i lawr.

Golygfa 5

Bore trannoeth. Mae Steve, Arshad a Delyth yn aros am rywbeth. Mae gwely Ieuan yn wag. Mae Steve yn eistedd mewn cadair olwyn. Mae Delyth yn eistedd ar waelod gwely Steve, ac mae Arshad yn sefyll wrth ei hochr. Daw Ieuan mewn. Coda Delyth ar ei thraed.

Arshad: Ble wyt ti 'di bod?

Ieuan: (At Steve) Be' mae o'n 'neud yma? 'Mond fi a hi ddudis i...

Steve: Ble ti wedi bod trwy'r nos?

Ieuan: Allan.

Steve: Ble?

Ieuan: Del, ddudodd Steve 'mod i angen siarad efo ti?

Delyth: Do –

Ieuan: (Yn torri ar draws) Lle'r awn ni?

Delyth: Ateba Arshad a Steve – lle ti 'di bod?

Ieuan: Efo ti dwi am siarad rŵan. Awn ni tu allan?

Delyth: Fi'n aros fan hyn, Ieuan.

Ieuan: Ond 'naeth Steve ddim deud? (Yn troi at Steve) 'Nes di ddim deud wrthi bo' rhaid i ni siarad?

Delyth: Mae Steve wedi dweud wrtha i, ond fi'n dweud na.

Ieuan: Na?

Delyth: Na.

*Saib. Mae **Ieuan** yn dechrau anadlu'n drwm ac yn uchel. Eistedda ar ei wely.*

Delyth: Ti'n edrych yn ofnadwy! Dishgwyl arnat ti dy hunan. Lle ti 'di bod drwy'r nos? Ma' Steve 'di bod yn becco amdanat ti.

*Mae **Ieuan** yn ei hanwybyddu. Mae'n anadlu'n drwm ac yn uchel o hyd.*

Delyth: Ieuan, ti'n mynd i 'weud lle fues di neithiwr?

*Mae **Ieuan** yn ei hanwybyddu o hyd ac yn anadlu'n drymach fyth.*

Delyth: Ieuan –

Ieuan: (*Yn torri ar draws*) Ddudis di bo' ti ddim am siarad efo fi, felly, 'newn ni ddim siarad, iawn.

*Ochneidia **Delyth**. Mae **Ieuan** yn anadlu'n drwm o hyd.*

Arshad: (*Yn symud at **Ieuan***) Well i fi gael golwg arna ti.

Ieuan: (*Yn neidio i 'w draed*) Paid â 'nghyffwrdd i!

*Mae **Ieuan** yn mynd draw at **Delyth**.*

Arshad: Ieuan...

Steve: Cool heads, nawr Ianto.

*Mae Ieuan yn ceisio penderfynu a ddylai siarad â **Delyth** ai peidio.*

Delyth: Be' sy'n bod arna ti?

Ieuan: Del, gawn ni siarad, plŷs?

Delyth: Fan hyn, iawn.

Ieuan: Na, rhywle arall.

Delyth: Na.

Ieuan: 'Mond ti a fi.

Delyth: Na Ieuan!

Saib.

Delyth: Well i ti fynd i orffwys.

Ieuan: Dwi'n rhoi un cyfle arall i ti.

Delyth: Beth 'y ti'n feddwl?

Ieuan: Dyma dy gyfle ola' di. Gallwn ni naill ai fynd tu allan i siarad neu dyna'i diwedd hi.

Delyth: Wŵw, dewis anodd.

Ieuan: Felly, awn ni tu allan i siarad?

Delyth: Na!

Ieuan: Iawn. Ti 'di 'ngyrru i i hyn. Cofia hynny. Dy fai di 'di hyn.

Dechreua Ieuan dynnu ei grys oddi amdano.

Delyth: Ieuan...

*Wrth i **Ieuan** dynnu 'i grys, gwelwn ei fod yn gwisgo siaced hunan-fomiwr llawn ffrwydron.*

Delyth: Beth ar y ddaear...

Arshad: Shit.

Steve: Cymryd y thing 'na off nawr.

Delyth: (*Yn crynu*) Ie, ma' Steve yn iawn.

Steve: Nawr!

Arshad: (*Yn ceisio tynnu **Delyth** draw*) Cadwch draw oddi wrtho fe! Fi'n mynd i nôl rhywun.

*Dechreuwa **Arshad** redeg allan. Cydia **Ieuan** yn **Delyth**, gan ei dal hi gyda 'i fraich o gwmpas ei gwddf.*

Delyth: Arshad!

*Try **Arshad** i edrych. Stopia redeg wrth weld sefyllfa **Delyth**.*

Ieuan: Os ei di i nôl rhywun, mi wna i o.

Delyth: (*Yn brwydro*) Ieuan!

Arshad: (*Yn cerdded draw*) Gad hi fynd.

Ieuan: (*Yn cydio 'n dynnach yn **Delyth***) Cadwa draw. Ti'n meddwl wna i ddim 'i 'neud o? Meddwl mai llwfrgi ydw i? Fatha chdi? Y milwyr yn

cam-drin dy bobl di. Ac yn lle ymladd yn 'u herbyn nhw, 'na lle w't ti'n 'u helpu nhw'n fan'ma?

Arshad: Doctor ydw i, nid milwr. Fy lle i yw trin unrhyw un sydd wedi'i anafu.

Steve: Yn cynnwys ti, Ianto.

Delyth: Ti'n rhan o'r rhyfel 'ma hefyd, Ieuan.

Ieuan: Cau dy ben, yr hwren! Dwyt ti ddim gwell. Mynd o ddyn i ddyn, fatha ast ar grwydr. Be' am ein holl gynllunia' ni? Mynd nôl i Gymru, fi'n dechrau busnes, ti'n magu'r plant. Na, o'dd rhaid i ti luchio hynna i gyd i ffwrdd er mwyn mynd efo dyn arall! Dwi fod i jyst anghofio am y petha' 'na? A rŵan, dyma ti efo dyn arall eto! A dwi'n gorfod y'ch gweld chi'ch dau bob dydd, yn chwerthin tu ôl i 'nghefn i! Gallwn i fod wedi ymdopi â'r rhyfel 'ma, yn gwybod bydden ni'n dau efo'n gilydd ar 'i diwedd hi. Ond be' wna i rŵan? Dy fai di 'di hyn i gyd. Bysa'r Affgans 'ma ddim yn gadael menyw fatha ti allan o'r tŷ. Bysa ti'n dod â chywilydd i'r teulu cyfan.

Delyth: Dyna lle ges di'r peth 'na sy' amdana ti? Wrth dy ffrindiau Affgan?

Ieuan: Ia. Mi roeddan nhw am fy helpu i a dwi am 'u helpu nhw. Dwi ddim yn mynd i d'adael di allan o 'ngolwg i. Ac os na wnei di wrando arna i, mewn llai nag eiliad, fyddwn ni efo'n gilydd am byth. W't ti'n deall?

Nid yw Delyth yn ateb.

Ieuan: W't ti'n gwrandu arna i, Del?

Dim ateb.

Ieuan: Achos, os nag w't ti, mi wna i ffrwydro'r bom 'ma yr eiliad hon. W't ti'n gwrandu? W't ti?

Delyth: (Yn dawel) Ydw.

Ieuan: 'Nes i'm clywed hynna...

Delyth: (Yn uwch) Ydw.

Ieuan: 'Na fo. Rŵan, 'da ni'n mynd i fynd allan i gael sgwrs efo'n gilydd, yn tydan?

Mae Ieuan yn ceisio symud Delyth allan o'r ystafell. Gyda hynny, mae Delyth yn cicio Ieuan yn ei ben-glin. Mae e'n ei gollwng hi, ac y mae hithau'n rhedeg at Arshad. Mae'r ddau yn cofleidio.

Steve: Dywedais i! Ti'n cofio? Dywedais i fod rhaid i ti fod yn ofalus, a byddai bod yn ffrindiau gyda nhw yn achosi problemau! A gwnaeth Delyth warno ti hefyd am beidio bod yn ffrindiau gyda nhw! O'n i'n gwybod! Jyst cymryd y thing 'na off nawr, ie?

Ieuan: Ma' nhw'n fy helpu i. Dangos i mi faint o hunlle' 'di'r lle 'ma. 'Da ni union 'r'un fath â nhw. 'Di diodde gormes, ar ôl gormes, ar ôl gormes. A 'di'r Saeson 'ma ddim yn mynd i adael i ni anghofio hynny. Y Sarjiant 'na, yn chwerthin yn 'y 'ngwynab i? A 'nanfon fi nôl i flaen y gad fel rhyw fath o was bach ufudd. Mae'n hen bryd i rywun ymladd nôl. A dyma be' 'di hwn, (yn pwyntio at y siaced). Dyma be' dwi'n mynd i 'wneud.

Dechreua Ieuan gerdded allan. Wrth iddo siarad mae Steve yn symud yn nes ac yn nes at Ieuan.

Steve: Ianto! Beth sy'n bod gyda ti? (Yn pwyntio at ei ben) Lan fyn'na? Nag wyt ti wedi gweld digon o bobl yn cael eu lladd? Gethon ni lucky escape pan wnaeth y bom 'na ffrwydro. Second chance. Ti'n mynd i daflu hwnna i ffwrdd? Ti'n cofio'r mess oedd 'na? Ti mo'yn bod yn

gyfrifol am rywbeth fel'na? Nag wyt ti'n cofio'r holl blant yn sgrechen? Ti mo'yn clywed hwnna eto? Pobl ddiniwed yn cael eu lladd. Ti mo'yn gwneud rhywbeth fel'na? Efallai lladd pobl ti'n gwybod? Ffrindiau ti?

Ieuan: 'S'gin i ddim dewis.

Steve: Ond *mae* dewis gyda ti!

Ieuan: Nag oes! Fedra i'm parhau fel hyn.

Steve: Ond beth fydd teulu ti'n dweud?

Ieuan: 'S'gin i ddim ots.

Steve: (*Yn symud yn agosach fyth at Ieuan*) Beth am ffrindiau ti?

Ieuan: Cadwa draw. Paid â dod yn nes. Mi wna i o.

Mae Ieuan yn cydio yn y taniwr. Mae'n crynu.

Steve: Cymryd y thing 'na off.

Ieuan: Na.

Delyth: Jyst rho'r taniwr i lawr te.

Ieuan: Na...

Arshad: Dere, nawr.

Delyth: Ie, 'sdim ishe ti 'neud hyn.

Ieuan: Ma'n rhaid i mi.

Steve: Nac oes! Does dim!

Ieuan: Oes!

Steve: Na!

Ieuan: Dwi'n mynd i'w 'neud o.

Delyth: Paid.

Ieuan: Dwi'n 'neud o.

Steve: Plîs.

Ieuan: Mae'n ddrwg gin i.

*Wrth sylweddoli bod **Ieuan** yn mynd i danio'r siaced, mae **Steve** yn hyrddio 'i hun o 'i gadair olwyn er mwyn gwthio **Ieuan** allan o'r ystafell. Mae'n rhy hwyr. Mae **Ieuan** wedi tanio'r siaced a chlywir ffrwydrad mawr a gwelir fflach o oleuadau oren ar ochr y llwyfan. Mae **Arshad** a **Delyth** yn cysgodu rhag y ffrwydrad y tu ôl i wely Steve. Wrth i'r golau bylu'n raddol, clywir llais yn adrodd bwletin newyddion.*

Llais: Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Amddiffyn heddiw fod dau filwr o Gymru wedi'u lladd. Bu farw'r ddau mewn ffrwydrad yn Nhalaithe Helmand, Affganistan. Maent wedi'u henwi fel Ieuan ap Owain o Gaernarfon a Steven Grey o Ystrad Rhondda. Dywedodd llefarydd ar ran eu catrawd bod y golled yn fawr ar ôl y ddau filwr dewr, ymroddedig a phroffesiynol hyn.

Afalau Surion

Addasiad o'r stori 'Fresh Apples', o'r gyfrol *Fresh Apples* gan Rachel Tresize (Cardigan: Parthian, 2005)

Cymeriadau

Matt	-	16 oed
Kristian	-	Ffrind Matt, 16 oed
Rhys Davies	-	Ffrind Matt, 16 oed
Holly	-	Ffrind i'r tri bachgen, 16 oed
Jamie	-	Ffrind i'r tri bachgen, 16 oed
Sarah	-	Chwaer Jamie, 14 oed, a chanddi <i>cerebral palsy</i>
Mam	-	Mam Matt, ar ganol ei 40au
Dad	-	Tad Matt, ar ganol ei 40au
Tad Jamie a Sarah	-	Ar ddiwedd ei 30au
Johnny Mental	-	Cymeriad lleol, 30 oed

Golygfa 1

Y Rheilffordd, nos Sadwrn.

Tywyllwch. Sŵn trê'n yn pasio ar frys. Mae goleuadau'r trê'n i'w gweld ar y gefnlen ond nid yw'n amlwg beth ydynt.

*Golau'n codi ar **Matt**. Mae ef wedi bod yn gorwedd ar ei gefn, ond nawr coda ar ei eistedd gan wynebu'r gynulleidfa, ac yna coda i'w draed. Clywir sŵn ei galon yn curo. Mae'n fyr ei anadl. Gwisga jîns, siaced ledr a bŵts. Dechreuwa frwsio baw oddi ar ei siaced a'i drowsus, a daw o hyd i batsiyn o olew ar ei ben ôl. Ochneidia'n flin wrth sychu'i ben ôl.*

*Daw **Rhys Davies** a **Kristian** i mewn yn chwerrthin ar **Matt**. Maent yn gwisgo siorts a festiau a fflip-fflops.*

Rhys Davies: Look at 'im!

Kristian: Wha you 'oldin' yer arse for you dopey twat?

*Â'r ddau ymaith yn chwerrthin yn afreolus. Symuda **Matt** ei ddwylo oddi ar ei ben ôl yn gyflym gan godi un ohonynt i'w wyneb. Golau i lawr ar **Rhys Davies** a **Kristian**. Rhwbia **Matt** ei fysedd gyda'i gilydd ac yna mae'n gwynto'i law.*

Matt: Olew. Pam nes i wisgo'n stwff gorau?

*Gyda hynny, golau i fyny ar **Mam**.*

Mam: Cofia di wisgo pants glân, rhag ofon i ti ga'l damwain.

*Golau i lawr ar **Mam** wrth i **Matt** ddweud -*

Matt: Dyw e ddim fel bydde unrhyw un 'di sylwi os o'n i'n gwisgo pants ne' beidio. Be' 'na'th y Johnny Mental 'na 'weud wrth Kristian am y lle 'ma nawr?

*Ymddengys **Johnny Mental** yn gorwedd ar ei gefn ar y fainc sydd tua chefn y llwyfan.*

Johnny Mental: When I was at school, the pigs paid me they did, to go down to the railway at the end of the day and look for bits of fingers, and intestines and shit. Found a woman tied up in a black bag down 'ere one day. Stupid slag – tied 'erself in a bin bag so she couldn't get up...

*Golau i lawr ar **Johnny Mental**.*

Matt: Os yw'r trê'n gallu torri dy diwbs di fel spaghetti, pwy sy'n mynd i fecso bo' dy bants di 'di trochi?

*Rhwbia **Matt** y chwys oddi ar ei dalcen a thynna ei siaced.*

Matt: Rhy boeth, y tywydd hyn...
(*Ochneidia.*)
'Wy' dal yn fyw beth bynnag...
Gwaed yn pwmpo... Gwastraff amser...
Y gair 'na... ffindes i e ym mhapure dad... Encumbrance! Ie.
Blydi encumbrance.

*Daw **Rhys Davies** a **Kristian** i mewn yn chwerthin.*

Rhys Davies: Mate, why you down by 'ere for?

Kristian: Bit fuckin' brave for you, inni'?

Matt: Ma'r wythnos 'ma 'di bod yn... Encumbrance.

Rhys Davies: You wha'?

Matt: Encumbrance.

Kristian: Woss a mean?

Matt: Ddim yn siwr. O'dd e'n swno'n iawn.

*Mae **Rhys Davies** a **Kristian** yn edrych ar ei gilydd.*

Kristian: C'mon, le's go. Holly and Jamie've gone to change into bikinis.

Rhys Davies: Nice. (*Yn troi at **Matt***) So, why was you down 'ere?

Matt: Stori hir...

Kristian: Yeah, mate, we got all night like, so speak up myn...

Matt: Iawn. Nos Iau, lan ar ben y Bwlch... a daeth Holly, a Jamie a Sarah... a chi'ch dau...

Wrth i **Matt** ddechrau adrodd y stori mae'r tri yn symud i'w lleoliadau nesaf ac mae'r tair merch yn ymuno â nhw.

Golygfa 2

Mynydd y Bwlch, hwyrddydd dydd Iau.

*Mae yna ford bicnic ar ochr chwith y llwyfan. Mae **Matt** yn eistedd ar y ford, ac mae **Holly** yn eistedd ger llaw ar y fainc. Ar y fainc gyferbyn mae **Jamie**'n eistedd. Mae **Holly** a hithau'n ymestyn dros y ford, yn siarad gyda'i gilydd. Wrth ochr **Jamie** mae **Sarah** yn eistedd. Mae **Holly** a **Jamie** wedi'u gwisgo'n bryfoclyd, mewn sgertiau byrion a festiau. Mae **Sarah** wedi'i gwisgo mewn ffrog hir a siwmpwr drwchus ac esgidiau ysgol. Mae hi'n ddiwrnod twym iawn. Er mwyn atal y gwres, mae **Holly** yn rhwbio potel oer o bop ar ei hwyneb ac yn symud blaen ei fest yn ôl ac ymlaen er mwyn ffanio'i chorff. Wrth iddi wneud, mae **Matt** yn ciledrych i lawr ei fest, gan sicrhau ei fod yn ddigon gofalus i neb sylweddoli. Mae **Jamie**'n ffanio'i hun gyda chylchgrawn. Mae **Sarah** yn cnoi gwm cnoi yn frwdfrydig iawn. Mae **Rhys Davies** a **Kristian** yn eistedd gyda'u coesau dros ymyl y llwyfan yn taflu cerrig at geir. Mae **Kristian** yn dynwared sŵn y ceir wrth iddynt basio.*

Matt: (At **Holly**) Ga' i peth o hwnna, plîs?

*Mae **Holly**'n rhoi'r botel i **Matt** heb edrych arno nac ychwaith dweud gair wrtho.*

Matt: Diolch.

*Mae **Matt** yn yfed. Mae'n rhoi'r botel nôl i **Holly**. Nid yw'n edrych ar **Matt**, nac ychwaith dweud gair wrtho. Mae hi'n sychu top y botel gyda'i sgert.*

Kristian: Ooooooh!

Rhys Davies: Nearly 'ad 'im!

*Mae **Matt** yn mynd draw atynt.*

Matt: Be' chi'n 'neud?

Kristian: Ee was about two millimetres away from 'ittin' tha' Ford Escort b'there!

Matt: Pam chi'n 'neud 'na?

Rhys Davies: Well, we tried cow tippin' and tha' di'n work, cos we wer'n strong enough to tip 'em over...

Kristian: And, iss nor night-time yet, so they wern' sleepin'.

Matt: Ond os chi'n gwthio nhw drosodd, dŷ'n nhw methu codi eto.
Ma' nhw'n marw.

Kristian: Tha's the idea.

Matt: O.

*Mae **Holly** 'n codi ar ei thraed.*

Holly: Let's start a fire!

Jamie: (*Yn syth*) Yeah!

Matt: Peidiwch â bod yn ddwl! Dylen ni fod yn falch o'r mynyddoedd 'ma, Hol. 'S' dim mynyddoedd fel hyn gyda nhw yn Lloegr. A byddwch chi'n lladd yr holl natur.

*Mae **Holly** a **Jamie** 'n edrych ar ei gilydd. Mae **Rhys Davies** a **Kristian** yn edrych ar ei gilydd. Mae'r bechgyn yn lled chwerthin.*

Holly: It's not the fuckin' Amazon, Matt! *And*, when there's a fire, what else is there?

Jamie: A fire engine?

Holly: Exactly. Firemen. Proper men! Cos I'm done with boys see.

*Mae **Kristian** a **Rhys Davies** wedi'u siomi.*

Holly: From now on it's men only.

Kristian: Looks like Jamie's sister's ready for a man too.

*Mae pawb yn troi i edrych ar **Sarah**. Mae hi'n anadlu'n drwm ac yn rhwbio rhwng ei choesau. Mae **Rhys Davies** a **Kristian** yn dechrau chwerthin.*

Jamie: Leave my sister alone! She's got cerebral palsy, dick'ead!

Holly: C'mon Jame...

*Mae **Holly** 'n rhedeg bant. Mae **Jamie** yn ei dilyn. Mae **Rhys Davies** a **Kristian** yn eu dilyn. Mae **Sarah** a **Matt** ar y llwyfan. Â **Matt** i eistedd ar bwys **Sarah**.*

Matt: Helo Sarah.

Dim ateb. Mae Sarah yn gwneud swigod gyda'i gwm cnoi. Mae Matt yn edrych yn ôl ac ymlaen rhwng Sarah a'r gofod sydd o'i flaen. Ceisia ddweud rhywbeth, ond ni all gynhyrchu mwy nag ambell 'Ie' neu 'Hmmm'. Wrth i Sarah a Matt eistedd yn dawel, mae fflamiau i'w gweld ar waelod y sgrin ar y gefnlen. Mae Matt yn cyfnewid ei ffocws rhwng Sarah a'r gofod o'i flaen yn amlach, ac yn edrych i'r awyr weithiau hefyd. Mae synau cnoi Sarah yn mynd yn uwch. Wrth i'r olygfa fynd yn ei blaen mae'r fflamiau ar y sgrin yn codi'n uwch ac yn uwch. Clywir synau tân yn clecian a seiren injan dân. Mae'r fflamiau'n annioddefol. Mae Matt yn sychu'r chwys oddi ar ei ben. Rheda Holly ar draws y llwyfan yn tynnu pibell ddŵr y dynion tân gyda hi. Rheda dyn tân ar ei hôl.

Holly: Come and get me you sexy fucker!

Golau i lawr. Mae'r tân yn pylu'n raddol.

Golygfa 3

Cegin Tŷ Matt, bore Gwener.

Golau i fyny. Tawelwch. Mae Matt yn yr un lle. Mae Mam am y bwrdd ag ef yn gosod lliain bwrdd gingham coch dros y ford. Yn eistedd gyferbyn â Matt mae Dad. Mae ef yn marcio llyfrau ysgol. Mae Mam yn estyn powlen i Matt.

Mam: Grawnfwyd... (Yn estyn cwpan i Matt) A te. Lle fues di neithiwr, Matthew?

Matt: Mas.

Mam: Mas yn lle?

Matt: Jyst mas. (Yn codi un o lyfrau'i dad) Beth yw'r rhain?

Dad: Traethode blwyddyn deuddeg. Hamlet.

Mae Matt yn darllen un. Tawelwch.

Mam: O's rhaid i ti farcio nhw wrth y ford, yn ystod brecwast?

Dad: Hei, ma ishe coffi cryf i ddarllen rhai ohonyn nhw.

Mae Matt a Dad yn darllen. Mae yna dawelwch, heblaw am sŵn Mam yn yfed ei the yn uchel.

Matt: Beth yw necromancy?

Mam: (*cyn i **Dad** gael cyfle i ateb **Matt***) Gewn ni'r radio mla'n, ie?

Â **Mam** i droi'r radio ymlaen. Mae sŵn y radio'n uchel iawn.

Llais y Gohebydd:
Radio Mae Gwasanaeth Tân Cwm Rhondda wedi apelio ar blant i beidio â chynnuau tân ar y mynyddoedd, yn dilyn sawl achos yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Matt: Tro fe lawr, fi'n trio darllen!

Mam: Mae e 'di torri. Dim ond sŵn llawn neu miwt gallwn ni gael.

Llais Dyn Tân:
ar y Radio Naw gwaith allan o ddeg, llosgi bwriadol yw e. Plant yn chwarae 'da matsis.

Matt: (*Yn ceisio meddwl*) Necromancy...

Mam: Plant 'naeth hynna neithiwr? O'n i'n meddwl taw darnau bach o wydr ar y gwair sych o'dd e. Ma' hynny'n digwydd pan mae'n boeth, nag yw e?

Dad: Wrth gwrs taw plant o'dd e! Cael rhyw, cymryd cyffuriau, cynnuau tân ar fynydd – 'na gyd ma' nhw'n 'neud draw ffor' hyn. (*At Matt*) Ffyliaid dy flwyddyn di, siŵr o fod, Matthew. Y Kristian 'na. Gorffon ni'i wahardd e o'r ysgol, reit cyn 'i TGAU e, am orchuddio car Miss Cousins gyda... Wel chi'n gwybod...

*Nid oes gan **Mam** na **Matt** yr un syniad beth y mae **Dad** yn ei olygu.*

Dad: Chi'n gwybod... Pethau menywod.

*Mae **Matt** yn gwingo. Mae'r tân wedi ymddangos eto ar waelod y sgrin ar y gefnlen.*

Llais Dyn Tân:
ar y Radio Mae'r mynyddoedd yn sych grimp, felly peidiwch mynd â matsis yn agos atyn nhw. Tra'n bo ni'n delio gyda llosgi bwriadol, gall fod tân difrifol yn un o dai y dref.

*Sycha **Matt** y chwys oddi ar ei dalcen. Parha i ddarllen.*

Matt: (*I'w hunan*) Encumbrance... Encumbrance... Fi'n hoffi hwnna.

Dad: A'r bachan 'na, Rhys Davies John Davies - byddet ti'n meddwl galle fe feddwl am rywbeth bach mwy gwreiddiol gan 'i fod e 'di cael 'i enwi ar ôl un o awduron gorau Cymru. Ond na, be' mae e'n 'neud? Yr hen ffefryn - canu'r holl larymau tân ar ddiwrnod olaf blwyddyn un ar ddeg. Dilyn ail hanner 'i enw-John Davies, y lleidr o dad sydd ganddo fe. Wneith e bennu lan fel yr hen John, credwch chi fi - yn y carchar, heb obaith o wneud diwrnod onest o waith yn 'i fywyd.

Mam: Diolch byth bod 'yn Matthew ni ddim yn ffrindiau 'da bechgyn o'r fath. (At **Matt**) Yf dy de.

Matt: Mae'n rhy dwym i yfed te. (*Yn pwyntio at air yn y llyfr*) Dad, beth yw psychodrama?

Dad: Byw yn y blydi cwm 'ma.

Llais Holly: Come and get me you sexy fucker!

Matt: Fi'n mynd nôl i'r gwely.

*A **Matt** i orwedd yng nghanol y gofod. Golau i lawr. Mae sŵn y radio a'r tân yn pylu i ddim byd.*

Golygfa 4

Mynydd y Bwlch, prynhawn Gwener.

*Golau i fyny ar **Rhys Davies** a **Kristian** yn eistedd a'u coesau dros ymyl y llwyfan. Wrth ochr **Rhys Davies** mae yna focs o win coch. Mae **Rhys Davies** a **Kristian** yn yfed y gwin, y naill allan o jwg mesur a'r llall o wydr peint. Mae Matt yn codi ar ei eistedd ac yn dod i ymuno â hwy.*

Rhys Davies: (*Yn estyn mŵg o'r gwin i Matt*) 'Ere you are.

*Mae **Matt** yn derbyn y mŵg, ond yn ei roi i lawr yn syth.*

Kristian: Ow, Matt. Holly got her tits out last night.

Matt: (*Yn gwybod bod **Kristian** yn dweud celwydd*) Naddo.

Kristian: She fuckin' did and you missed it. Cos you chickened out and went 'ome early.

Rhys Davies: No she didn't.

Mae Kristian yn edrych yn feirniadol ar Rhys Davies.

Kristian: You know Holly, right?

Rhys Davies: Yeah.

Kristian: Would you?

Rhys Davies: Aye...

Kristian: I wouldn't poke 'er. She's a snobby bitch. She's the only girl in our year I 'haven' poked and I don't wanna poke 'er. She's frigid inshee?

Rhys Davies: Yeah, she is.

Matt: (*Heb ddeall y gosodiad yn llwyr, y mae'n cytuno ag ef*) Ydy. Ydy.

Kristian: Think of all 'em new girls when we start college!

Rhys Davies: Them girls from the church school be startin' same time as us!

Matt: (*Yn ceisio ymuno yn y cellweirio*) Bydd gan ferched fel'na ddim diddordeb yn'och chi. (*Yn pwyntio at Kristian*) 'Da'ch Gwyddoniaeth Chwaraeon, (*yn pwyntio at Rhys Davies*) a'ch NVQ mewn plymio!

Kristian: No, myn, they will be. Johnny Mental told me all 'em church girls are right slags.

Rhys Davies: And, ow, my father told me to do the plumbing – 'You'll always 'ave money if you're a plumber', ee said. Ee was a plumber too see.

Matt: Ife 'na pam 'na'th e ladrad arfog ar garej, a mynd i'r carchar, achos bod plymio 'di gwneud lot o arian iddo fe?

Kristian a Matt yn lledchwerthin.

Rhys Davies: It wasn't armed robbery – ee 'ad a stick in a black bag. And anyways, you're doin' Sports Science too, so you can't say nothing.

Matt: Na, sai'n 'neud e rhagor.

Kristian: Wha' you doin' instead 'en?

Matt: Fi'n aros yn yr ysgol. Fi'n credu. 'Neud Saesneg, neu Cymraeg, neu Ffrangeg neu rywbeth. Rhywbeth gyda geiriau.

Rhys Davies: Gay.

Matt: Ti yw'r un sy' 'di cael 'i enwi ar ôl rhyw fardd Cymreig hoyw.

*Matt yn troi at **Kristian**, yn disgwyl cefnogaeth ganddo. Ni ddaw.*

Kristian: And you're the one going back to school to study words and how to keep yer virginity for another few years, whilst we'll be spending all our time with 'em filthy church slags.

*Daw **Holly** a **Jamie** i mewn.*

Holly: Boys I've lost my li'l dog.

Jamie: Yeah. The farmer came over and told us to fuck off or ee'll shoot us.

Holly: Yeah. And my li'l dog ran away, she was so scared. And now I need to find 'er before some big dog tries to have sex with 'er.

Jamie: Yeah. So Matt, you go tha' way and you two go tha' way.

*Mae'r bechgyn yn dilyn y cyfarwyddiadau. Â **Matt** allan.*

Rhys Davies: (Ar ei ffordd allan) So wa's 'is dog look like 'en?

*Mae **Holly** a **Jamie** yn cydio yn **Kristian** a **Rhys Davies** cyn iddyn nhw adael.*

Holly: I haven' got a dog, you idiots. (Yn tynnu bag bach plastig o'i phoced) But I have got these!

Mae yna bedair tabled fach wen yn y bag.

Kristian: Cool!

Rhys Davies: Nice!

Holly: C'mon, quick, before ee comes back. 'Cos ee'll tell 'is father.

Wrth iddynt ymadael, clywn y sgwrs ganlynol:

Kristian: So, where's your sister today 'en Jame? Still touching herself or –

Jamie: Oi, leave my sister alone. She's 'ere somewhere, so shut your mouth. She can't help it...

Â'r pedwar allan. Wrth iddynt adael, daw Sarah i mewn o un ochr y llwyfan, a daw Matt o'r ochr arall. Mae Sarah yn fyr o anadl ac yn goch i gyd. Eistedda ar y fainc. Stopia Matt wrth ei gweld hi a neb arall. Ochneidia.

Matt: (Yn flin) Helo Sarah.

Dim ateb.

Matt: Sa i'n gwybod ble mae Jamie wedi mynd.

Dim ateb. Â Matt i eistedd wrth ei hochr. Mae Sarah yn cnoi gwm cnoi yn uchel. Edrycha Matt yn ôl ac ymlaen rhyngddi hi a'r gofod. Un tro, pan dry ef i edrych arni, mae hi wedi creu swigen enfawr werdd gyda'i gwm. Mae Matt yn doddi ei fys ynddi i'w byrstio. Clywir 'pop' wrth iddo'i wneud. Mae Matt yn aroglu gwynt y gwm.

Matt: Afalau surion.

Mae'r ddau yn edrych ar ei gilydd am eiliad. Yna, neidia Matt ar ben Sarah gan ddechrau'i chusanu. Mae hithau'n hollol ddiymadferth, ond mae hi'n gwenu. Mae Matt yn symud, ac yn gorwedd ar ei phen hi, yn tynnu ei ffrog i fyny, ac yn rhoi ei ddwylo dros ei chorff. Mae Sarah yn ddiymadferth o hyd, ond yn gwenu. Wrth symud yn rhy egniol mae Matt yn cwmpo oddi ar y fainc ac yn tynnu Sarah i'r llawr gydag ef. Stopia Matt yr hyn y mae'n ei wneud. Coda ar ei draed, a gosoda Sarah yn ôl ar y fainc. Taclusa sgert Sarah, a gosoda ei gwallt yn daclus. Yna, rheda ymaith. Eistedda Sarah ar y fainc, yn ddiymadferth o hyd, ond yn gwenu ac yn cnoi ei gwm cnoi.

Golau i lawr.

Golygfa 5

Stryd Fawr y Dref, bore Sadwrn.

*Mae sŵn y gân 'Chain Reaction' gan Diana Ross i'w chlywed yn isel. Mat **Matt**, **Rhys Davies** a **Kristian** yn eistedd ar ymyl y llwyfan. Mae **Matt** yn chwarae gydag arian mân, ac mae **Rhys Davies** a **Kristian** yn ystumio rhegi at geir sy'n pasio. Ar y ford bicnic mae **Johnny Mental** yn gorwedd gyda chan o Stella Artois. Mae'n gwisgo trowsus ymarfer corff, esgidiau ymarfer brwnt a sbectol haul.*

Rhys Davies: Is tha' 'er? With the pram?

Kristian: Yeah, it is!

Matt: Be' amdani?

Kristian: My mam says she's goin' on Jeremy Kyle.

Matt: Pam mae'n 'neud 'na?

Rhys Davies: To find out who the baby's father is.

Matt: O.

Kristian: Yeah, my mam says tha' the woman in Greggs told 'er tha' it's either Dai from the offie, or 'is brother.

Matt: O, reit. Be' 'newn ni heno, de?

Kristian: Wel, my Gran left a bottle o' som'in' in my 'ouse last night...

Rhys Davies: And I stole my Mam's gin Thursday, after she asked me to put it away.

Kristian: We'll take 'em up the Bwlch to meet Holly and 'em, 'ên...

Matt: Dy'n ni ddim yn mynd lan y Bwlch eto heno? Pam na ewn ni i rywle arall? Ni'n tri, heb y merched. Wedes di dy hunan fod Holly'n ast.

Kristian: Well, where we gonna go 'ên?

Matt: Sa i'n gwbod... Bowlio? Ne' ma' gêm bêl-droed 'mla'n yn Nhonyrefail...

Rhys Davies: They're miles away!

- Matt: Gallwn ni ddal y bws.
- Kristian: I'm not goin' on a bus.
- Matt: Gall un o'n rhieni ni gymryd ni, de.
- Rhys Davies: My mam 'aven' got a car, (*yn pwyntio at Kristian*), 'is father's lost 'is license, (*yn pwyntio at Matt*), and *your* father's a teacher, so no.
- Matt: Wel, dyw e ddim mor bell â 'ny – gallwn ni gerdded. Fi'n meddwl dylen ni 'neud rhwybeth gwahanol.
- Rhys Davies: It's up the Bwlch or nothin'. There's nothin' else to do. This place is pointless.
- Kristian: Yeah, and it's not our fault tha' whoever built this town decided to build it in the middle of nowhere, for no reason, with nothin' good enough for you to do 'ere.
- Matt: Dyw e ddim mor wael â 'na. O'dd y dre' 'ma'n bwysig ar un adeg. 'Nethon nhw adeiladu fe pan oedd y diwydiant glo yn bwysig iawn, oherwydd bod llwyth o lo dan y ddaear 'ma, a'r afon lawr fan'na i gludo'r glo yr holl ffordd lawr i Gaerdydd, er mwyn iddo fe fynd ar draws y byd.

Edrycha Rhys Davies a Kristian ar ei gilydd, ac yna ar Matt.

- Matt: A, 'wedodd Dad bod y tai ochr hyn yn rhai bach teras, ar gyfer y glowyr. A'r tai mwy, gyda gerddi yr ochr 'na (*yn pwyntio allan i'r gynulleidfa*) - o'n nhw ar gyfer y rheolwyr a'r goruchwylwyr.
- Kristian: So, what you're sayin' is, families like *yours*, the crachach like, live over there (*yn pwyntio allan i'r gynulleidfa*), and families like *mine* live in these shit 'ouses 'ere?
- Matt: Ie, a wedyn ma' teuluoedd fel 'i un e (*yn pwyntio at Rhys Davies*) yn byw yn y carchar.

Mae Matt a Kristian yn chwervthin ac yn gwneud 'high five'.

- Rhys Davies: Oi!

*Mae **Kristian** a **Matt** yn chwervhin yn fwy. Yn ogystal â'u chwervhin, clywir sŵn car yn sgrialu wrth stopio, ac yna sŵn drws y car yn agor ac yn cau. Rhed **Tad Jamie a Sarah** ymlaen yn wyllt. Cydia yn fest **Kristian** a'i godi i'w draed. Rhed **Jamie** ymlaen ar ôl ei thad.*

Tad Jamie a Sarah: You raped my daughter, you little prick!

*Mae **Kristian** a **Rhys Davies** yn ddiymadferth. Edrycha **Matt** i ffwrdd. Mae **Johnny Mental** yn codi ar ei draed i gael gwell golwg o'r olygfa. Mae **Tad Jamie a Sarah** yn dyrnio **Kristian** yn ei fol, a chwymmp y bachgen i'r llawr mewn poen.*

Tad Jamie a Sarah: (*Yn edrych i lawr ar **Rhys Davies***) Look at you – you dirty fuckin' paedophile. (*Yn poeri ar y llawr ger traed **Rhys Davies***) Won't be long till you're eating breakfast with yer father will it?

*Edrycha **Rhys Davies** fel petai ar fin dweud rhywbeth, ond cyn iddo allu gwneud hynny mae **Tad Jamie a Sarah** wedi symud tuag at **Matt**. Cydia **Tad Jamie a Sarah** yn wyneb **Matt** gan ei orfodi i edrych arno.*

Tad Jamie a Sarah: Was it you? Did you rape my daughter, you sick little bastard?

Jamie: Dad! Dad, c'mon, just get in the car please!

*Mae **Tad Jamie a Sarah** yn gwthio **Matt** ymaith ac yn dychwelyd i'w gar gyda'i ferch. Mae **Matt** a **Kristian** yn codi i'w traed.*

Johnny Mental: Fair play boys, well done. Didn't think you 'ad it in 'ew, I'm proud of 'ew.

*Gorwedda **Johnny Mental** i lawr eto. Wrth i **Rhys Davies** a **Kristian** siarad, mae **Matt** yn tynnu ei siaced ac yn dechrau sychu'r chwys oddi ar ei ben.*

Rhys Davies: Wha's ee on about?

Kristian: I dunno.

Rhys Davies: Was it you?

Kristian: No! I ain't touched Jamie.

Rhys Davies: Bu' you said you poked every girl in our year except Holly.

Kristian: Yeah, well, except Holly and Jamie. (*At **Matt***) Did you do it?

Matt: *(Yn euog)* Naddo.

Rhys Davies: You've gone all white.

Matt: Ti 'di mynd yn wyn hefyd!

Kristian: You did it didn' you!

Matt: Naddo!

Rhys Davies: Oh my God, ee did it!

Matt: Naddo, nes i ddim!

Kristian: It's alright, Jamie's sixteen – you're not a rapist.

Rhys Davies: Yeah, don' listen to 'er old man.

Kristian: She's been with 'alf the town.

Matt: 'Nes i ddim treisio Jamie!

Rhys Davies: Can you believe 'im? Cheeky bastard, calling us all paedophiles?

Kristian: I'm tellin' you, no one calls me a paedophile when I 'aven' even done nothin'. Ee's gonna pay for this.

Rhys Davies: Le's get 'im!

Kristian: Yeah!

Rhys Davies: And le's steal 'is car. We can go somewhere else then, Matt.

Dim ateb.

Kristian: Matt?

Matt: *(Yn dod ato 'i hun, ac yn gwisgo ei siaced)* Ie? O... Fi'n mynd adre' ... Cerwch chi...

Rhys Davies: Okay.

Kristian: See you after, yeah.

*Saif **Matt** yno. Mae **Rhys Davies** a **Kristian** yn cerdded allan.*

Rhys Davies: Right 'en, so wha' we gonna do to 'im?

Kristian: Dunno. I might actually poke 'er now though, just to piss 'im off...

*Â'r ddau allan. Golau i lawr heblaw am olau sbot ar **Matt**.*

Golygfa 6

Y Rheilffordd, nos Sadwrn.

*Â **Matt** i eistedd ar y fainc bicnic. Mae'r golau sbot yn ei ddilyn.*

Matt: Rape?

*Meddylia **Matt** am y gair am sbel.*

Matt: Paedophile?

*Meddylia **Matt** am y gair am sbel. Cerdda i ganol y llwyfan.*

Matt: Ddim trais o'dd e... O'dd hi'n gwenu. Ie, o'dd hi'n gwenu.

*Golau sbot i fyny ar **Sarah** sydd wedi ymddangos ar y chwith. Mae hi'n gwenu. Edrycha **Matt** arni.*

Matt: A ta beth, un-deg-pedwar yw hi, nid plentyn. O'dd hi'n gwenu, nag o'dd hi. (*Yn dechrau cwestiynu ei hun*) Nag o'dd hi?

*Edrycha **Matt** ar **Sarah** eto. Mae hi'n peidio â gwenu. Sycha **Matt** y chwys oddi ar ei dalcen. Golau i lawr ar **Sarah**.*

*Eistedda **Matt** ar y llawr yn wynebu'r gynulleidfa. Clywir ei galon yn curo'n dawel a'i anadlu trwm. Try ei ben i'r dde.*

Matt: Ysgol... Ro'n i'n iawn, fis Mehefin... Ar ôl yr arholiad 'na...
Mathemateg... 'Na' i ddim dod nôl i'r ysgol 'ma eto...

*Mae **Rhys Davies** a **Kristian** yn ymddangos wrth y ford bicnic, mewn gwisg ysgol.*

Rhys Davies: *(Yn pwysu i gyfeiriad **Matt**, fel petai 'n edrych allan o ffenestr)*
Did you see 'ow fast tha' train went 'en? 'Ow many people do you think've died down there?

Kristian: I dunno, but Johnny Mental told me there was a woman once. She tied 'erself up in a black bag an' 'en rolled 'erself onto the track, so tha' when the train came, she wouldn' be able to get up and run.

Rhys Davies: Ha-ha. Dopey twat.

*Golau i lawr ar **Rhys Davies** a **Kristian**.*

Matt: Mam a Dad... Bydden nhw'n gwylio drama yn neuadd yr ysgol nawr, heb wybod beth y fi 'di 'neud...

*Golau i fyny ar **Dad** ar bwys y ford bicnic.*

Matt: Beth yw psychodrama?

Dad: Byw yn y blydi cwm 'ma...

*Golau i lawr ar **Dad**. Gorwedda **Matt** ar ei gefn. Sŵn trê'n yn pasio ar frys. Maeogleuadau'r trê'n i'w gweld ar y gefnlen.*

*Coda **Matt** ar ei eistedd gan wynebu'r gynulleidfa, ac yna coda i'w draed. Clywir sŵn ei galon yn curo. Edrycha i'r pellter, ac yna dros ei ysgwydd. Ochneidia.*

*Sycha'r chwys oddi ar ei dalcen. Dechreua frwsio baw oddi arno, a daw o hyd i batsiyn o olew ar ei ben ôl. Ochneidia'n flin wrth sychu'i ben ôl. Daw **Rhys Davies** a **Kristian** i mewn yn chwerthin ar **Matt**.*

Matt: *(Yn flin)* Trac anghywir.

*Cerdda **Matt** draw i ymuno â hwy.*

Golau i lawr.

Colli Iaith a Cholli Urddas

Cymeriadau

Huw - 62 oed

Gavin - 26 oed

Golygfa 1

*Clywir si trydanol goleuadau'n cael eu troi ymlaen. Ar y llwyfan, mae yna amrywiaeth o gistiau gwydr o bob maint wedi'u gosod. Mae golau atmosfferig, pŵl, fel a geir mewn amgueddfa, yn codi arnynt, un wrth un. Mae yna ford hir yng nghanol y gofod gyda chadair ar bob pen iddi. Ar y ford, y mae yna hen hen lawysgrif wedi'i gosod ar agor ar ddaliwr llyfrau. Ar y wal gefn mae yna arwydd sy'n dweud 'Distawrwydd, os gwelwch yn dda'. Mae **Huw** yn ymddangos ar ochr y llwyfan. Dyn boliog, yn ei chwedegau cynnar ydyw, yn gwisgo trowsus, crys a thei. Mae ganddo friffcês yn un llaw a bocs brechdanau o dan ei fraich arall. Mae'n siarad yn uchel gyda rhywun na allwn ei weld. Mae yna dyndra amlwg yn ei lais a'i osgo.*

Huw: Fi'n gweithio. A-a-ar rywbeth newydd.

(Saib)

Methu gweud. *(Dros ben llestri)* Cyfrinach fawr. If I told you, I'd have to kill you.

(Saib lletchwith)

Na, na, na. 'Wi'n iawn fan hyn, diolch.

(Saib)

Mae brechdanau 'da fi. Mrs Griffiths' finest.

(Saib)

Na, na, 'wi'n gorfod mynd. Gwaith yn galw.

(Saib)

Ie, wela i di.

*Ochneidia **Huw**. Mae'n siglo'i ben yn feirniadol. Â i eistedd ger y ford. Mae'n tynnu papur a phen allan o'r briffcês. Dechreua ysgrifennu'n gyflym. Ar ochr arall y llwyfan, mae **Gavin** yn ymddangos. Dyn yng nghanol ei ugeiniau ydyw, ac mae'n gwisgo jîns, siaced chwaraeon ac esgidiau ymarfer. Mae'n defnyddio baglau i gerdded. Arhosa am rai eiliadau ger ambell un o'r cistiau gwydr gan syllu i mewn iddynt. Yn y cyfamser, mae **Huw** yn parhau i ysgrifennu'n wyllt gan droi'r tudalennau'n ffyrnig wrth eu gorffen. Mae **Gavin** yn sylwi ar **Huw** ac yn mynd draw at y ford.*

Gavin: Bore da.

Huw: *(Gan ochneidio, heb edrych i fyny o'i waith)* Bore da.

Eistedda Gavin ar ben arall y ford i Huw.

Gavin: Bore da.

Cwyd Huw ei ben i edrych ar Gavin am ennyd cyn troi'n ôl at ei waith.

Gavin: Bore da.
(Saib)
Prynhawn da.
(Saib)
Nos da.

Mae'n amlwg bod Huw yn ceisio anwybyddu Gavin.

Gavin: Am, ar, at, gan, heb, i, o, dan, dros, drwy, wrth, hyd, am, ar, at, gan,
heb, i, o, dan –

Huw: *(Gan bwyntio at yr arwydd 'Distawrwydd')* Shhh! Distawrwydd.

Gavin: *(Heb deimlad, fel petai wedi dysgu'r llinell)* 'Ni all terfysgoedd daear
byth gyffroi distawrwydd nef.'

Huw: Ma' hynny'n golygu dim siarad.

Gavin: Dwi'n siarad Cymraeg.

Huw: *(Yn mwmlan i'w hun gan droi'n ôl at ei waith)* Be' chi mo'yn? Medal,
ne' rywbeth?

Gavin: Ond doedd dim ots gyda fi yn yr ysgol.

*Mae **Huw** yn ei anwybyddu.*

Gavin: Dyna beth wedodd Mr Pritchard.

*Ochneidia **Huw**.*

Gavin: ‘Gad y dwli ’ma nawr’ wedodd e.

*Mae **Huw** yn mwmlan o dan ei anadl ac yn siglo ’i ben.*

Gavin: (*Yn dechrau cynhyrfu*) Ond fi’n siarad Cymraeg nawr!

*Mae **Huw** yn ei anwybyddu.*

Gavin: (*Wedi cynhyrfu ’n fwy*) Rydw i’n hoffi coffi. Rydw i’n hoffi coffi yn y caffi. Gavin hoffi coffi yn y caffi. Nash hoffi coffi yn y caffi... Boyo!

*Mae **Huw** yn aflonyddu yn ei gadair.*

Gavin: Ond fi ddim! Neb yn gwranddo!

*Nid yw **Huw** ’n gwranddo.*

Saib

Gavin: Athro Cymraeg yw Mr Pritchard. Ti’n nabod e?

Dim ateb.

Gavin: Mae’n dod i weld fi. Siarad am yr ysgol. Gwersi Cymraeg.

*Saib. Mae **Huw** yn gwneud ei orau glas i ganolbwyntio ar ei waith, ond o weld y ffordd y mae’n rhwygo papur allan o’r llyfr ac yn mwytho’i dalcen, gwelwn ei fod wedi’i gynhyrfu. Mae **Gavin** yn codi o’i gadair ac yn dechrau cerdded o gwmpas ar ei*

faglau, gan edrych ar y cistiau. Wedi edrych ar un neu ddau, mae'n pwyso'i ben ar un o'r cistiau cyn dechrau bwrw'i dalcen yn ysgafn yn ei herbyn.

Gavin: Beth wedodd Mr Pritchard? (*Yn mynd o gist i gist*) Na... Na... Ddim mewn fan hyn... Ddim hwnna...

Huw: Yyy, bydd larwm yn canu os -

Gavin: (*Yn stopio bwrw'i ben am ennyd cyn gweiddi'n uchel, fel Gwilym Brewys yn neidio o'r grocbren*) Siwaaaaaaaaan!

Huw: Byddwch yn dawel!

Gavin: Drama Saunders Lewis yw e.

Huw: 'S'dim ots 'da fi. Ma' gen i waith i'w orffen erbyn amser cinio! Felly, os na allwch chi fod yn dawel, fydde'n well i chi adael nawr. Pan o'n i'n ifanc-

Gavin: Beth yw'r amser Mr Blaidd?

Huw: Mae'n hanner awr wedi deg, a phaid ti a bod yn ewn 'da fi, gw'boi. 'Wi ddwywaith d'oedran di a mwy. Pan o'n i'n ifanc, se'r hen ddyinion yn gweud 'Shh', fydde'r bois yn cau'u penne-

Gavin: (*Yn torri ar ei draws*) Beth yw'r amser Mr Blaidd?

Huw: Hanner awr wedi deg!

Gavin: (*Heb roi amser i Huw orffen*) Amser cinio!

*Gyda hynny mae **Gavin** yn dechrau rhedeg, ond mae'n anghofio ei fod yn gorfod defnyddio baglau ac yn cwmpo i'r llawr. Mae **Huw** yn edrych arno am eiliad ac yna'n troi'n ôl i'w waith. Ochneidia. Mae **Huw** yn parhau â'i waith. Mae **Gavin** yn*

*codi'n araf i'w draed gyda llawer o drafferth gan gydio yn y ford yn ogystal â'i faglau er mwyn sefyll. Mae'n syllu ar focs brechdanau **Huw**.*

Gavin: Amser cinio.

Huw: Beth?

Gavin: *(Gan bwyntio at y bocs brechdanau)* Amser cinio.

Huw: Ie.

*Mae **Gavin** yn codi'r bocs i'r awyr ac yn ceisio gweld ei gynnwys.*

Huw: Hei, y 'mrechdanau i yw'r rheina!

Gavin: Ffrwchnedd.

*Mae **Gavin** yn rhoi'r bocs i lawr.*

Huw: Beth?

Gavin: *(Gan dynnu banana allan o'r bocs)* Ffrwchnedd.

Huw: Banana, 'chan.

Gavin: Ffrwchnedd.

Huw: *(Yn rhoi mewn gyda'r bwriad o barhau â'i waith)* Ie... Ie.

*Mae **Gavin** yn cymryd y fanana ac yn mynd i eistedd yn y gadair fel o'r blaen. Mae Huw yn ystyried gofyn am y fanana nôl, ond yn ail-feddwl yn weddol gyflym. Wedi eistedd, mae **Gavin** yn tynnu croen y fanana ac yn dechrau'i fwyta. Nid yw **Gavin** yn hoffi blas y fanana.*

Gavin: (Gan estyn y fanana i **Huw**) Ffrwchnedd?

Huw: Iawn. Dere â fe i fi.

*Mae **Gavin** yn taflu'r fanana i gyfeiriad **Huw**.*

Huw: (Wrth ailbacio'i focs brechdanau, dywed o dan ei anadl) Wir i Dduw...

Gavin: Pam fi Duw.

Huw: Yn wir.

Gavin: Pam fi Duw.

*Mae **Huw** yn ceisio anwybyddu **Gavin** eto.*

Gavin: O'n i'n gwyllo Pam fi Duw yn nosbarth Mr Pritchard.

Dim ymateb.

Gavin: Ti'n nabod Mr Pritchard? Athro Cymraeg?

Dim ateb.

Gavin: Mae'n siarad i fi am yr ysgol pan mae'n dod i weld fi.

*Nid yw **Huw** yn ymateb o hyd.*

Gavin: Fi 'di cael damwain, ti'n gwybod.

*Mae **Huw** yn parhau i weithio.*

Gavin: Fi 'di cael damwain car.

Mae **Huw** yn codi ei ben i edrych ar **Gavin**.

Gavin: Fel Llinos.

Huw: Pwy?

Gavin: O Pam fi Duw.

Gydag ochenaid, mae **Huw** yn dychwelyd i'w waith. Wedi rhai eiliadau o dawelwch, mae **Gavin** yn dechrau canu.

Gavin: (*Yn canu'n dawel i ddechrau*) Gair disglair Duw, dyro d'olau i Gymru heddiw...

*Nid yw'n gwybod gweddill y geiriau ond mae'n hwmian yr alaw. Mae **Huw** yn ei geryddu ond mae **Gavin** yn hwmian yn uwch.*

Huw: (*Yn siarad yn uwch ac yn uwch wrth i'w frawddeg fynd ymlaen*) Be' wedes i am fod yn dawel? Ma' hynny'n golygu pido canu hefyd! Dim cymanfa yw hwn, ne' glwb nos ne' beth bynnag. Ma 'da fi waith i'w wneud!

Gavin: (*Yn canu'n uchel erbyn hyn*) Dyro dy air, a goleuni a fydd.

Huw: (*Yn gweiddi o hyd*) Lot o waith! Lot o bethe i wneud! Felly, os yw e'n iawn 'da chi, fydden i'n gwerthfawrogi bach o dawelwch!

Gavin: Shhh!

Huw: Pidwch chi â gweud 'Shhh' wrtho i – chi sy'n canu ar dop 'ych llais!

Gavin: Distawrwydd!

Huw: O's rhywbeth yn bod arnoch chi?

Gavin: Ma' hynny'n golygu dim siarad.

Huw: Esgusodwch fi! Pwy y'ch chi'n meddwl y'ch chi?

Gavin: Roeddet ti wedi dweud, 'Shhh distawrwydd mae hynny'n golygu dim siarad.'

Huw: Wedes i wrthoch chi am fod yn dawel, do.

Gavin: *(Fel petai'n dweud wrth **Huw** am fod yn dawel)* Shhh distawrwydd mae hynny'n golygu dim siarad.

Huw: *(Yn cweryla gyda **Gavin** drwy sibrwd)* Chi... sy' di bod yn 'neud yr holl sŵn yn y lle 'ma!

Gavin: Shhh distawrwydd mae –

Huw: Os nag 'ych chi'n mynd i fod yn dawel, yna well i chi adael.

Gavin: Gadael?

Huw: Ie, chi'n codi twrw fan hyn, a 's' dim yr amser 'da fi...

Gavin: *(Heb adael i **Huw** orffen)* Fi'n siarad Cymraeg!

Huw: Fi'n gwbod! Ond ma' rhaid i chi fod yn dawel mewn 'ma. Dy'ch chi ddim yn gallu siarad.

Gavin: Ddim yn gallu siarad...

Huw: Na.

Gavin: Gavin ddim yn gallu siarad Cymraeg yn iawn.

Huw: Gavin?

Gavin: Achos mae e'n siarad Saesneg drwy'r amser.

Huw: Pwy yw Gavin?

Gavin: Merched yn yr ysgol yn chwerthin arna fi.

Huw: Beth?

Gavin: Ond 'na gyd fi'n siarad nawr yw Cymraeg.

Huw: (*Yn sarcastig*) Wel, da iawn chi!

Gavin: (*Yn feddylgar*) Ie... Dyw Gavin ddim yn gallu siarad Cymraeg yn iawn. Achos bod e'n siarad Saesneg drwy'r amser. Ie! Fi'n gorfod mynd. Dweud wrth Mr Pritchard.

*Dechreua **Gavin** redeg ymaith. Wrth iddo adael mae'n bwrw papurau **Huw** oddi ar y ford.*

Huw: Hei! Dewch nôl!

*Mae **Gavin** wedi mynd.*

Huw: Dewch nôl!

*Ni ddaw **Gavin** yn ôl. Ochneidia **Huw**, gan gerdded yn araf yn ôl i'w waith a chodi'r papurau oddi ar y llawr. Mae'r golau'n pylu'n araf ar y cistiau.*

Golygfa 2

*Clywir si trydanol goleuadau'n cael eu troi ymlaen. Mae'r llwyfan yn union fel o'r blaen. Mae golau atmosfferig, pŵl yn codi ar y cistiau un wrth un. Daw **Huw** i mewn. Mae'n cario briffcês, ac â i eistedd ger y ford. Mae'n tynnu trwch o bapurau allan o'r cês a'u gosod yn daclus ar y ford. Mae'n mwytho'r tudalennau. Ochneidia.*

Huw: Nawr, hoffwn groesawu'r *Athro*, Huw Griffiths, i gyflwyno papur fydd yn torri tir newydd yn y maes.

*Mae **Huw** yn codi ar ei draed.*

Huw: *(Mae'n clirio'i wddf)* Diolch, diolch. Dy'n ni oll... *(Yn ail-ystyried y ffordd y mae'n dweud y frawddeg)* Dy'ch chi oll yn meddwl eich bod chi'n gyfarwydd â hanes brenhinoedd ein gwlad. *(Edrycha yn ôl ar ei bapur nawr ac yn y man wrth ddarllen)* Yr Arthur chwedlonol, a unodd yr ynys hon dan un faner. Urien Rheged sydd wedi'i anfarwoli yng ngherddi Taliesin. Hywel Dda a gasglodd y cyfreithiau ynghyd.

*Wrth i **Huw** barhau i siarad, daw **Gavin** mewn y tu ôl iddo, yn cerdded ar faglau o hyd. Nid yw **Huw** yn sylwi. Mae **Gavin** yn gweld yr arwydd 'Distawrwydd' ar y wal ac yn nodio'i ben i gydnabod yr arwydd. Wrth iddo gamu ymhellach i mewn i'r ystafell, mae'r golau ar un o'r cistiau'n troi'n goch. Cama **Gavin** tuag ati. Sylla i mewn iddi.*

Huw: Y Dywysoges Gwenllian, Tywysoges y Deheubarth a frwydrodd yn ffyrnicach na'r un dyn yn erbyn y Normaniaid anwaraid. Llywelyn Fawr, mae'r enw'n dweud y cyfan. A'r Llywelyn arall hwnnw, Ein Llyw Olaf, y bu farw'r Gymru annibynnol gydag ef. Ond, mi wn i am un arall, na chlywsoch chi'r un gair amdano cyn nawr. Gruffudd-

*Wrth gamu o gwmpas y gist, mae **Gavin** yn bwrw mewn iddi, yn colli ei gydbwysedd ac yn cwmpo.*

Gavin: *(At y gist)* Shh! Shh!

*Gwêl **Huw** mai **Gavin** sydd yno. Ochneidia. Penderfyna ei anwybyddu. Eistedda lawr a dechreua ddarllen ei waith yn dawel. Gwelwn ei wefusau'n symud wrth iddo ddarllen.*

*Edrycha **Gavin** o'i gwmpas. Mae'n gweld **Huw**.*

Gavin: Bore da.

Huw: *(Heb godi'i ben o'i waith)* Bore da.

Gavin: *(Yn sibrawd)* Shh! Distawrwydd. Mae hynny'n golygu dim siarad.

*Mae **Huw** yn siglo'i ben.*

Gavin: Gwnaeth Mr Pritchard ddweud wrtho fi i ddod yma...

*Ochneidia **Huw**.*

Gavin: Mae rhaid i fi ddod yma.

*Mae **Huw** yn canolbwyntio'n fwy ar ei ddarllen.*

Gavin: Maen nhw'n mynd i daflu fi mas!

*Nid yw **Huw** yn ymateb.*

Gavin: O'r ganolfan. Dwedodd Mr Pritchard bo' fi ddim wedi gwella fel oedd y ganolfan eisiau...

Saib.

Gavin: Ond fi ddim yn gallu gadael eto. Fi ddim yn barod...

Saib.

Gavin: Dyna beth ddywedodd Mr Pritchard.

Saib.

Gavin: Athro Cymraeg yw Mr Pritchard. Mae'n dod i weld fi yn y ganolfan, a siarad Cymraeg.

*Mae **Huw** yn ceisio canolbwyntio mwy fyth. Mae ei wefusau'n ynganu'r geiriau'n fwy pwrpasol wrth iddo ddarllen.*

Gavin: Ond fi ddim yn hoffi'r ganolfan.

*Nid yw **Huw** yn ymateb.*

Gavin: Does neb yn deall fi.

*Coda **Huw** ei ben tipyn.*

Gavin: Does neb yn gwrando i fi.

*Edrycha **Huw** ar Gavin.*

Gavin: Fi'n siarad Cymraeg!

*Mae **Huw** yn colli diddordeb nawr. Try yn ôl i'w bapurau. Ochneidia.*

*Eistedda **Gavin** ar y ford, gyda'i gefn tuag atom. Mae'n edrych yn y cistiau. Sigla **Huw** ei ben arno.*

*Mae **Huw** wedi colli tudalen o'i waith. Edrycha ymhlith ei bapurau amdani.*

*Mae ffwdanu **Huw** yn tynnu sylw **Gavin**. Mae'r llawysgrif yn dal ei sylw. Dechreua edrych trwy'r llawysgrif, gan ddynewared sut y mae **Huw** yn pori drwy'i bapurau. Pan wêl **Huw** beth y mae **Gavin** yn ei wneud, dechreua banicio. Tynn fenig gwyn o'i boced a'u gwisgo hwy cyn cymryd y llawysgrif oddi ar **Gavin**.*

Huw: Hei! Hei! So ti fod i gyffwrdd hwnna! (*Yn gwithio llaw **Gavin** oddi ar y llawysgrif*) Ma'r rheina dros saith can mlwydd ô'd! Bydd y *proteins* yn dy groen di'n strywo'r papur!

Gavin: (*Yn panico hefyd*) Shh! (*Mae'n pwyntio at yr arwydd 'Distawrwydd, os gwelwch yn dda'*) Dim siarad!

Huw: Fe wna' i siarad pan wyt ti ar fin dinistrio un o'r dogfennau pwysicaf erioed yn hanes ein gwlad ni!

Gavin: Shh...

*Ochneidia **Huw**, a pharha â'i waith, gan symud y llawysgrif draw oddi wrth Gavin. Mae **Gavin** yn ceisio gafael yn y llawysgrif ond mae **Huw** yn ei chodi fel ei bod hi allan o'i afael. Mae'r ddau yn parhau fel hyn am sbel.*

Huw: Ti ddim fod i gyffwrdd!

Gavin: Fi mo'yn gweld.

Huw: Ond 's' dim menig 'da ti!

*Mae **Gavin** yn parhau i geisio gafael yn y llawysgrif.*

Huw: Na! Os nag wyt ti'n gadael y llawysgrif i fod, bydd rhaid i ti adael.

Gavin: Ond mae'n rhaid i fi ddod yma. Gwnaeth Mr Pritchard ddweud. Roeddwn i wedi dod yma'r diwrnod o'r blaen ac roeddwn i lawer gwell...

Huw: (*wedi blino ar stori Gavin*) Ie, fi'n gwbod.

Gavin: Ti'n gwybod?

Huw: Odw.

Gavin: Sut?

Huw: Wel, weles i ti, do fe?

Gavin: Pryd?

Huw: Y diwrnod o'r blaen!

Gavin: Pan oeddwn i yma?

Huw: Ie.

Gavin: Roeddet ti yma?

Huw: O'n!

Gavin: Ti?

Huw: Ie!

Gavin: Yma?

Huw: Ie. Dwyt ti ddim yn 'y nghofio i?

Gavin: (*Heb ymddiheuriad*) Na.

Huw: (*Yn pwyntio at y ford*) Fan'na. Dridie nôl. 'Nes di ddwgyd 'y manana i!

Sylla **Gavin** yn wag ar **Huw**.

Huw: O... beth yw'r gair... Ffrwchnedd?

Gavin: Dim diolch. Fi ddim yn hoffi ffrwchnedd.

*Ochneidia **Huw**.*

Huw: O'n i'n eistedd jyst fan'na!

*Mae **Gavin** yn tapio braich **Huw**, ac yn cyfeirio ei sylw at yr arwydd 'Distawrwydd'.*

Gavin: (*Yn sibrawd*) Shh! Mae pobl yn 'neud gwaith yma.

Huw: (*Wedi cael digon*) Ydyn, fi'n gwybod. Dwyt ti ddim yn 'y nghofio i?

Gavin: (*Yn meddwl*) Na.

*Saib. Anadla **Huw** yn uchel.*

Gavin: Ges i ddamwain car.

Huw: Do, wedest di!

Gavin: Wrtho ti?

Huw: Ie, wrtha i!

Gavin: Pryd?

Huw: Y diwrnod o'r blaen... Dridie nôl.

*Nid yw **Gavin** yn ymateb. Ochneidia **Huw**.*

Huw: Ddes di yma...

Gavin: Ie.

Huw: A des' di mewn fan hyn...

Gavin: Ie.

Huw: Ac edryches' di ar y cistiau 'ma...

Gavin: Ie.

Huw: A gwympes' di ar y llawr...

Gavin: Ie.

Huw: Ac o't ti'n siarad 'da fi...

Gavin: Gyda ti?

Huw: Ie, gyda fi!

Gavin: O.

Huw: Dwyt ti ddim yn 'y nghofio i?

Gavin: Na.

Huw: Ti'n cofio popeth arall, heblaw amdana i...

Gavin: Ges i ddamwain car!

Huw: Ie, fi'n deall 'ny – O! O, fi'n deall.

*Eistedda **Huw** i lawr.*

Huw: Gest ti ddamwain car...

*Mae **Gavin** yn llonydd.*

Huw: Wel, ma'n flin 'da fi...

*Mae **Gavin** yn llonydd o hyd.*

Huw: *(Yn feddylgar)* Wel...

*Dechreua **Huw** gilwenu.*

Huw: Felly ma' 'na bethe er'ill dwyt ti ddim yn 'u cofio? Nid dim ond fi...

*Chwertha **Huw** 'n ysgafn wrtho 'i hun mewn rhyddhad. Mae **Gavin** yn syllu arno.*

Huw: O... Yy... Sori... Sori... Yy... Shwd ddigwyddodd y ddamwain?

Gavin: Dywedodd Mr Pritchard bo' fi'n gyrru'n rhy gyflym.

Huw: *(Yn feirniadol)* O. Yy... Oes gobaith i ti wella?

Gavin: Fi ddim yn gwella fel mae'r ganolfan mo'yn.

Huw: Beth yw'r ganolfan 'ma?

Gavin: Lle fi'n byw. Fi ddim yn hoffi e 'na. Ma' pawb yn chwerthin arna i.

Huw: Ond ma' nhw mo'yn dy helpu di, mae'n siŵr?

Gavin: Maen nhw mo'yn taflu fi mas... Mo'yn i fi fynd adref.

Huw: Wel, 'falle 'nei di wella'n gyflymach adre'. Gyda chefnogaeth dy deulu di...

Gavin: Ond dydyn nhw ddim yn deall.

Huw: Fi'n siwr bo' nhw'n deall pa mor anodd yw dy sefyllfa di...

Gavin: Dydyn nhw ddim yn siarad Cymraeg.

Huw: O, wel siarada 'da nhw'n Saesneg te.

Gavin: Ie, dyna be' ddywedodd Mr Pritchard...

Huw: Wel, ie, 'na ti, siarada 'da nhw'n Saesneg.

Gavin: Ie, ond, fi ddim yn gallu siarad Saesneg.

Huw: Ma' pawb yn siarad Saesneg!

*Nid yw **Gavin** yn ymateb. Edrycha'n drist.*

Huw: Dwyt ti ddim yn *cofio* sut i siarad Saesneg...

Gavin: Na.

Huw: A dim ond Saesneg ma' dy deulu di'n siarad.

Gavin: Ie.

Huw: *(Yn deimladwy, fel petai gan sefyllfa **Gavin** ryw arwyddocâd iddo ef hefyd)* A dwyt ti ddim yn gallu dweud unrhyw beth wrthyn nhw, na rhannu dy deimladau, na dim.

*Edrycha **Gavin** arno. Mae gan **Huw** ddiddordeb mawr yn **Gavin** yn awr.*

Huw: 'Stedda lawr.

*Eistedda **Gavin**.*

Huw: Beth yw dy enw di, 'machgen i?

Gavin: Gavin.

Huw: Gavin beth?

Gavin: Beth?

Huw: Cyfenw? Dy enw olaf di.

Gavin: Yy...

Huw: Reit, fy enw i yw (*yn araf*) Huw Griffiths. Felly dy enw di yw Gavin...

Gavin: Thomas!

Huw: 'Na ti! Gavin Thomas!

Gavin: (*Fel petai wedi clywed rhywun yn galw ei enw*) Ie?

Huw: Ai Gavin Thomas yw dy enw di?

Gavin: Fi ddim yn siŵr.

Huw: (*Fel petai gan sefyllfa **Gavin** arwyddocâd pellach iddo*) Dwyt ti ddim yn cofio dy enw di?

*Ochneidia **Huw**.*

Huw: Wel, Dr Huw Griffiths ydw i, a gei di siarad Cymraeg 'da fi os wyt ti eisiau.

Gwena Gavin.

Gavin: *(Yn pwyntio at y llawysgrif)* Beth yw hwnna?

Huw: *(Yn codi'r llawysgrif gan ei symud oddi wrth Gavin)* Llawysgrif.

Gavin: Ga' i weld?

Huw: *(Yn betrus)* Yy, iawn. *(Yn dal y llawysgrif i fyny i Gavin gael gweld)*
'Na ti – ond paid â chyffwrdd â hi...

Sylla Gavin ar y llawysgrif.

Gavin: Cymraeg?

Huw: Ie, Cymraeg. Cymraeg Canol. Cymraeg o' dd pobl yn ei siarad gannoedd o flynyddoedd yn ôl.

Gavin: Beth mae'n dweud?

Huw: Cerdd yw hi, am Llywelyn Ein Llyw Olaf.

Gavin: O! *(Yn clirio 'i wddf)* 'Wylit, wylit, Lywelyn, wylit waed pe gwelit hyn.'

Huw: Ie, 'na ti! Y Llywelyn 'na. Ond cerdd wahanol yw hon. Cerdd far'nad yw hi, a 'sgwennwyd pan fu Llywelyn farw. Gan Gruffudd ab yr Ynad Coch. Mae hi'n gerdd enwog iawn.

Gavin: Beth mae'n dweud?

Huw: *(Yn adrodd yn fedrus)* ‘Poni welwch-chwi hynt y gwynt a’r glaw,
Poni welwch-chwi’r deri’n ymdaraw,
Poni welwch-chwi’r môr yn merwinaw’r tir,
Poni welwch-chwi’r gwir yn ymgyweiriaw?’

Sylla Gavin arno.

Huw: Trist, yn dyw e?

Nodia Gavin ei ben heb ddeall yn llwyr beth sy’n drist am y gerdd.

Gavin: Roedd Mr Pritchard yn dweud stori Gelert wrthon ni yn yr ysgol.

Huw: O reit... Na, na, ci Llywelyn Fawr oedd Gelert, nid Llywelyn Ein Llyw Olaf.

Gavin: O. Pwy yw Llywelyn Ein Llyw Olaf, te?

Huw: Pwy oedd e? Tywysog ola’r Gymru annibynnol.

Gavin: *(Yn araf, fel petai’n ceisio cofio)* Tywysog ola’r Gymru annibynnol.

Huw: ‘Na ti. Gei di ddweud wrth... Mr Pritchard?... Dy fod ti ’di dysgu a chofio rhywbeth newydd heddiw.

Gavin: Ond fi’n gorfod cofio mwy na hwnna. Dweud mwy amdano fe wrtha i.

Huw: *(Yn falch ei fod wedi bachu Gavin)* Yy... Wel... Os wyt ti am glywed mwy! Yy... Cafodd e ’i ladd gan y Saeson ym mil dau wyth dau.

Gavin: Cafodd e ’i ladd gan y Saeson ym mil dau wyth dau.

Huw: Ac roedd ganddo un ferch o’r enw Gwenllian, ac –

*Stopia **Huw** siarad yn sydyn.*

Gavin: Beth?

Huw: Well i fi beidio â dweud.

Gavin: O.

Huw: *(Yn amlwg am rannu ei gyfrinach â rhywun, neu o leiaf y ffaith bod ganddo gyfrinach, er gwaethaf yr hyn mae'n ei ddweud)* Wel, mae'r rhan nesaf yn gyfrinach. Does neb yn y byd yn gwybod. Heblaw amdana i. Well i fi beidio.

Gavin: Sut wyt ti'n gwybod, a neb arall?

Huw: Am 'y mod i 'di rhoi 'mywyd i astudio hanes Llywelyn, 'machgen i.

Gavin: Alla i wybod?

Huw: Beth?

Gavin: Dy gyfrinach. 'Wna' i geisio cofio fe. A dweud wrth Mr Pritchard.

Huw: Wel... Yy... Sa i'n siwr os-

*Mae **Huw** yn stopio 'n sydyn wrth gofio am gyflwr meddwl **Gavin**.*

Huw: Ie, iawn te. 'Na' i 'weud y gyfrinach wrtho ti, a galli di *drio*'i chofio hi, a'i hadrodd hi nôl i Mr Pritchard.

*Nodia **Gavin** yn frwdfrydig.*

Huw: Ac os *nad* wyt ti'n cofio, wel, fydd neb ar eu colled, na fydd?

Mae **Gavin** yn aros i stori **Huw** ddechrau. Â **Huw** at ei bapurau, gan geisio darganfod man cychwyn y gwaith, ond mae'n rhoi ei bapurau i un ochr yn y pen draw a chymryd anadl ddofn.

Huw: Hyd yn hyn, mae pawb wedi meddwl bod llinach tywysogion Cymru wedi marw gyda Llywelyn Ein Llyw Olaf ym mil-dau-wyth-dau. Yn fuan cyn ei farwolaeth, ganwyd merch iddo, o'r enw Gwenllian, a phan fu farw ei thad, fe anfonwyd Gwenllian i leiandy yn Lloegr, gan sicrhau na châi hi fyth blant. Ac mae pawb yn meddwl taw dyna yw diwedd y stori. (*Chwydda brest **Huw** a newidia ei osgo wrth iddo ddechrau siarad am ei ganfyddiad*) Ond 'wi'n gwybod yn wahanol. (*Gan godi'r llawysgrifau*) 'Wi 'di dod o hyd i'r hen lawysgrifau hyn, sydd wedi bod ar goll am ganrifoedd, ac maen nhw oll yn gytûn ar un peth. Roedd gan Gwenllian frawd.

Mae **Gavin** yn cau ei lygaid gan geisio cofio pob gair y mae **Huw** yn ei ddweud. Wrth i **Huw** barhau i adrodd yr hanes, cerdda o gwmpas y llwyfan, fel petai wrth ei fodd yn cael cynulleidfa i wrando arno.

Huw: (*Yn frwdfrydig*) Ie, ganwyd efeilliaid i Llywelyn cyn iddo farw. Gwenllian oedd un, ac enw ei brawd oedd, (*yn falch*), Gruffudd. 'Drycha. (*Mae'n codi un o'r llawysgrifau*) Dyma bennill ychwanegol ar ddiwedd mar'nad Gruffudd ab yr Ynad Coch i Llywelyn doedd neb yn gwybod amdano o'r blaen. Mae'n dweud y bydd gobaith i Gymru eto pan ddaw Gruffudd yn ddyn.

Sylla **Gavin** ar y llawysgrif. Nid yw'n ymddangos fel petai ef yn ceisio cofio'r hanes bellach. Yn hytrach ymddengys ei fod wedi'i hudo gan ddawn adrodd **Huwi**.

Huw: (*Yn fwy brwdfrydig*) 'Ond', 'wi'n dy glywed di'n ddweud, 'be ddigwyddodd i Gruffudd? I ble'r aeth e? Pam fod pawb wedi anghofio amdano?' Wel, dyma'r rhan o'r stori sy'n mynd i newid y byd. Mae pawb sy'n gwybod unrhyw beth am hanes yr Ynysoedd hyn yn

adnabod Gruffudd yn barod, ond wrth enw gwahanol. Mae pawb yn ei adnabod fel Edward yr Ail, a fu'n Frenin Lloegr.

*Edrycha **Huw** ar **Gavin**. Edrycha **Gavin** yn ôl. Wrth i **Huw** adrodd ei stori, yn y gist ganol, gwelir llyfr mawr addurnedig yn codi'n araf ac yn agor.*

Huw: (Yn dechrau mynd i hwyl ar ei stori) Pan gafodd Gruffudd ei eni, roedd Llywelyn yn synhwyro y byddai'r Saeson yn ymosod yn fuan. Felly, penderfynwyd cuddio Gruffudd. Fe anfonodd Llywelyn ei fab i Ffrainc gyda rhai o'i gynghorwyr gorau, er mwyn ei ddiogelu. Ond, rai blynyddoedd wedyn, ar ôl i Llywelyn farw, ar ôl i Edward y Cyntaf oresgyn Cymru, hwylodd Gruffudd a'r cynghorwyr yn ôl i ogledd Cymru, a chyrchu Castell Caernarfon, lle'r oedd y Tywysog Edward, mab Edward y Cyntaf, yn byw. Ac yno, gyda help y Cymry lleol, fe gipion nhw fab y brenin a'i lys, a'u lladd, a rhoi Gruffudd a'i gynghorwyr yn eu lle, heb i'r brenin wybod. A phan fu farw Edward y Cyntaf, coronwyd Gruffudd fel Edward yr Ail. 'Co. (Yn codi pentwr o llawysgrifau, a dewis un ohonynt i'w dangos i **Gavin**) Dyma dudalen goll o Brut y Tywysogion, yn esbonio mai dyna be' ddigwyddodd. (Yn cyfri'r llawysgrifau wrth iddo fynd) A dyma un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth - wyth o gerddi gan feirdd gwahanol yn canu mawl i Gruffudd a'r rhai a'i helpodd am ddiorseiddi'r tywysog. Felly, ma' hynny'n profi, y cafodd tywysog o Gymro ei goroni'n Frenin Lloegr. A'i ddisgynyddion ef sy'n frenhinoedd ar Loegr hyd heddiw. Mae'r teulu brenhinol, y Frenhines ei hun, i gyd yn Gymry! Be' ti'n feddwl o hynny, te? All neb anghofio Gruffudd ar ôl hyn!

*Mae **Gavin** yn clapio'i ddwylo wrth i **Huw** orffen.*

Gavin: Da iawn. Mae'n stori anhygoel...

Huw: 'Wi'n gwbod. (Yn cofio ei nod wrth gychwyn y stori) O, ti'n meddwl galli di'i chofio hi?

- Gavin: Pwy sydd wedi 'sgrifennu hi?
- Huw: Wel... Fi sydd wedi'i 'sgwennu hi nawr... Ond roedd sawl un wedi'i 'sgwennu hi o'r blaen.
- Gavin: (*Yn torri ar draws brawddeg olaf **Huw***) Mae'n mynd i fod yn nofel wych!
- Huw: Nofel?
- Gavin: Ie. Bydd e'n nofel wych.
- Huw: (*Yn chwertthin yn ysgafn ac yn ceisio gweld y doniolwch yn y sefyllfa, ond yn ei chael hi braidd yn anodd*) Nid 'sgwennu nofel ydw i...
- Gavin: Pam wyt ti wedi gwneud y stori 'na lan te, os nad wyt ti'n 'sgrifennu nofel? Dwi'n meddwl dylet ti sgwennu nofel.
- Huw: (*Yn codi ar ei draed ac yn torri ar draws brawddeg **Gavin** yn grac*) Gwneud e lan? Gwneud e lan?! Sa i 'di gwneud dim byd lan! Ma'r stori 'ma'n ffaith hanesyddol. Ma'r holl lawysgrife 'ma'n profi hynny. Wyt ti'n meddwl y byddwn i 'di gwneud yr holl waith 'ma, dros yr holl flynyddoedd er mwyn 'sgwennu a datgan anwireddau? Rwy'ti'r un peth â'r lleill. Ma' pawb yn yr adran yn amau 'ngwaith i. Tri deg pump o flynyddoedd fues i'n gweithio yn y brifysgol 'na. A shwd ma'n nhw'n diolch i fi? Ymddeoliad cynnar - siec bitw a hwb mas drw'r drws! 'Dyw dy waith diweddera' di ddim yn dal dŵr Huw', ne' 'Ma' angen darlithwyr newydd, ffres ar yr adran', ne' 'Dyn ni 'di penderfynu mynd gyda rhywun arall ar gyfer swydd y pennaeth adran, Huw'. O'n i wedi graddio cyn bo'r boi 'na'n gallu cerdded!

*Mae **Huw** yn ochneidio ac yna eistedda i lawr ar y gadair gan wargrymu. Pwysa ei benelinoedd ar y ford a rhydd ei ben yn ei ddwylo.*

Huw: Be' 'wi'n mynd i'w wneud? O'dd 'yn enw da yn dibynnu ar y gwaith 'ma. Ma'n wraig i... Ma' hi'n meddwl 'mod i'n mynd i'r gwaith bob dydd, ond 'wi'n dod fan hyn. Am bedwar mis 'wi 'di bod yn dod fan hyn. Ma' hi newydd fwcio wyliau i Barcelona yn yr haf – 's 'da ni ddim arian. Eisteddes i ym maes parcio Tesco am chwe awr mis Rhagfyr tra bo' hi'n meddwl 'mod i ym mharti Nadolig yr adran. Hanesydd ydw i, a ma'n rhaid i mi gael fy swydd nôl. Ro'n i'n meddwl y bydde'r gwaith 'ma wedi newid y byd, a bydde'r brifysgol yn cofio amdana i, a chofio pa mor bwysig ma' 'ngwaith i 'di bod, ac yna y cawn i fod yn hanesydd eto... Ond rwyt ti'n meddwl taw stori dylwyth teg yw hi...

*Edrycha **Huw** ar **Gavin**.*

Huw: 'Wnei di jyst adael, plis...

*Edrycha **Gavin** arno, heb symud.*

Huw: 'Wi mo'yn bod ar ben 'yn hunan.

*Ni symuda **Gavin**.*

Huw: (*Yn codi o'r gadair er mwyn hebrwng **Gavin** allan*) Mas â ti!

Gavin: (*Yn ceisio brwydro 'n ôl*) Ond mae'n rhaid i fi gofio mwy!

Huw: Ie, wel, ma' stori Gruffudd gyda ti i'w chofio am nawr.

Gavin: Ond mae'n rhaid i fi gofio sut i siarad Saesneg.

Huw: (*Yn stopio*) Pam?

Gavin: Dywedodd Mr Pritchard.

Huw: Ond, beth am stori Gruffudd? Nag wyt ti'n gweld? Bydd dim eisiau siarad Saesneg pan fydd pawb yn ffindo mas am Gruffudd...

Gavin: Ond ma' pawb yn siarad Saesneg. Fi mo'yn bod fel pawb arall...

Huw: Dyna'r pwynt! Bydd pawb fel ti! Bydd pawb yn siarad Cymraeg, unwaith y bydden nhw'n sylweddoli taw ni'r Cymry sydd wedi bod yn rheoli'r wlad 'ma am y saith can mlynedd ddiwetha'!

Gavin: Ond dyw Mam a Dad ddim yn siarad Cymraeg...

Huw: Bydd *pawb* yn siarad Cymraeg. A fyddi di'n esiampl i bawb... O sut wlad y byddai Cymru wedi bod... Pe bai pawb wedi gwybod am Gruffudd o'r cychwyn cyntaf...

Gavin: Ond mae'n rhaid i fi wella. Mae pawb yn y ganolfan yn gweiddi arna fi.

Huw: 'Sdim byd yn bod ar siarad Cymraeg!

Gavin: (*Yn araf iawn*) Efri-wan spîcs ingliss hiyr.

Huw: Beth?

Gavin: Iw haf tŵ spîc ingliss awt ddêr.

Huw: (*Wedi'i syfrdanu*) Ti'n...

Gavin: Wai downt iw jyst spîc ingliss?

Huw: Ti'n siarad Saesneg!

Gavin: Jyst spîc... (*Yn sylweddoli beth mae **Huw** wedi'i ddweud*) Beth?

Huw: Ti'n siarad Saesneg!

Gavin: Fi'n siarad Saesneg?

Huw: Wyt. Ond wedes di dy fod ti ddim yn gallu siarad Saesneg. Ond rwyt ti'n gallu...

Gavin: Fi'n gallu siarad Saesneg!

Huw: Oeddet ti'n ceisio 'nhwyllo i?

Gavin: Mae'n rhaid i fi fynd! Gorfod dweud wrth Mr Pritchard!

*Mae **Gavin** yn mynd allan mor gyflym ag y gallai tra'i fod yn gorfod defnyddio'i faglau.*

Huw: Hei! Dere nôl!

*Mae **Gavin** wedi mynd.*

Huw: Dere nôl...

*Eistedda **Huw** yn ei gadair. Edrycha ar ei waith. Dechreua gasglu ei bapurau at ei gilydd.*

Golau i lawr.

Golygfa 3

*Clywir si trydanol goleuadau'n cael eu troi ymlaen. Mae'r llwyfan wedi'i osod fel o'r blaen. Yn y gist ganol mae'r llyfr agored i'w weld o hyd. Daw **Huw** i mewn a rhoi ei friffcêd a'i focs brechdanau ar y ford, cyn cerdded draw at rai o'r cistiau. Edrycha ar y llyfr o bob ongl. Pan â **Huw** y tu ôl i'r gist, daw **Gavin** i mewn. Edrycha o gwmpas. Pan wêl ef neb, digalonna. Yna daw **Huw** i'w olwg wrth iddo symud o gwmpas y gist. Calonoga hyn **Gavin** yn syth.*

Gavin: Bore da!

*Try **Huw** o gwmpas i'w weld. Ochneidia, ond ceisia beidio ag ymddangos yn rhy flin â **Gavin**.*

Huw: Bore da, Gavin.

Gavin: Dr Huw Griffiths.

*Edrycha **Huw** a **Gavin** am eiliad. Yna try yn ôl i edrych ar y cistiau.*

Gavin: Dywedais i stori Gruffudd wrth Mr Pritchard.

Huw: *(Yn amlwg heb gredu y byddai **Gavin** wedi cofio digon o'r stori i'w hailadrodd hi'n gywir i Mr Pritchard) O, do fe...*

*Parha **Huw** i edrych ar y cistiau. Mae'r ffordd y mae **Gavin** yn adrodd yn swnio fel petai wedi dysgu'r stori air am air.*

Gavin: Ie. Dywedais i, 'Mae Dr Huw Griffiths wedi dweud y stori wrtha i'. A dywedais i fod Llywelyn Ein Llyw Olaf wedi cael merch o'r enw Gwenllian...

Huw: *(Heb gymryd fawr o sylw) Ie.*

Gavin: A mab o'r enw Gruffudd.

Huw: *(Yn synnu bod **Gavin** wedi cofio hynny) Ie?*

Gavin: Ie. A bod Gruffudd wedi mynd i Ffrainc er mwyn ei ddiogelu ef rhag ymosodiad y Saeson ar Gymru.

Huw: *(Yn dechrau sylweddoli cymaint y mae **Gavin** yn ei gofio) Ie...*

Gavin: Ond ar ôl i Llywelyn Ein Llyw Olaf farw, daeth Gruffudd nôl i Gymru...

Huw: *(Yn ei annog i ddweud mwy) Ie...*

Gavin: Ac aeth e i Gaernarfon a chymryd lle mab y Brenin Edward, heb i'r Saeson sylweddoli.

Huw: *(Yn gyffro i gyd) Ie...*

Gavin: Ac ar ôl i'r Brenin Edward farw, coronwyd Gruffudd fel Brenin Lloegr. Felly Cymry yw Brenhinoedd Lloegr.

Huw: O! *(Mae **Huw** yn cofleidio **Gavin**)* Rwy'ti'n cofio! Rwy'ti'n cofio'n stori i! Rwy'ti'n cofio stori Gruffudd!

*Mae **Huw** yn gollwng **Gavin**.*

Huw: Mae dy gof di'n dod yn ôl, de?

Gavin: Gwnaeth Mr Pritchard fwynhau'r stori.

Huw: Paid â dweud – roedd e'n meddwl bydd y stori'n gwneud nofel dda?

Gavin: Na, dywedais i 'Dywedodd Dr Huw Griffiths bod e'n ffaith hanesyddol, a bod y llawysgrifau'n dangos hynny'.

Huw: O, wel gobeithio y galla i ddarbwylllo'r lleill fel y fi wedi llwyddo dy ddarbwylllo di.

Gavin: A wedyn gei di fynd i Barcelona.

Huw: Beth?

Gavin: Ti a dy wraig. Gwyliau.

Huw: O ie. Ie, gallwn.

Gavin: A bydd dim rhaid i ti ddweud celwyddau wrth dy wraig.

Huw: *(Wedi'i syfrdanu gan eiriau Gavin)* Esgusoda fi?

Gavin: Dywedaist ti fod hi'n meddwl dy fod ti dal yn mynd i'r gwaith.

Huw: *(Yn dechrau mynd yn anghyfforddus gyda'r holl wybodaeth y mae Gavin yn ei chofio)* Ie, ti'n iawn. Bydda' i'n gallu dweud y gwir wrthi.

Gavin: A bydd dim rhaid i ti eistedd ym maes parcio Tesco am chwe awr.

Huw: Beth?

Gavin: Dywedaist di fod ti wedi aros ym maes parcio Tesco...

Huw: *(yn dechrau mynd colli'i amynedd)* Do... Ond...

Gavin: *(Yn torri ar draws Huw, fel petai'n awyddus iawn i ddangos i Huw ei fod yn cofio)* Ac roeddet ti'n grac...

Huw: Wel, o'n... Gyda ti...

Gavin: Achos dy fod ti wedi gorfod gadael dy waith yn y brifysgol...

Huw: Am danseilio'n 'ngwaith i...

Gavin: Ymddeoliad cynnar...

Huw: Ie, wel, fi dderbyniodd y cynnig ar ddiwedd y dydd, yn dy' fe?

Gavin: Achos bod pawb yn amau dy waith di.

Huw: Beth?!

Gavin: Mae pawb yn amau dy waith di. Dyna beth ddywedaist di, 'mae pawb yn amau 'ngwaith i.' Rwy'n cofio popeth ddywedaist di. Ac am y llawysgrifau hyn. (*Yn codi un o'r llawysgrifau*) Dyma'r gerdd gan Gruffudd ab yr Ynad Coch, (*yn codi llawysgrif arall*) a dyma'r dudalen goll o Brut y Tywysogion...

*Mae **Huw** yn cymryd y llawysgrifau oddi wrth **Gavin** ac yn codi'r gweddill sydd ar y ford. Mae'n eu dal yn agos at ei frest.*

Huw: Rho'r rheina 'ma! 'Wi'n gwybod dy gêm di!

*Edrycha **Gavin** arno.*

Gavin: A'r wyth cerdd hefyd.

Huw: 'S' dim byd yn bod ar dy gof di. Ti 'di cofio popeth! Popeth wedes i ddoe. A stori Gruffudd.

Gavin: Ie, fi'n cofio stori Gruffudd!

Huw: (*Yn pigo 'i frîffcês i fyny o'r llawr ac yn dal hwnnw'n dynn at ei frest hefyd*) Sa i'n mynd i adael i ti wneud e! Dwyt ti ddim yn mynd i

ddwyn hanes Gruffudd oddi arna i, a gwerthu'r stori fel dy waith di dy hun! Fy stori i yw stori Gruffudd, ti'n deall!

Gavin: Ydw. Fi'n cofio hi. Mae'n stori anhygoel.

Huw: O, ti'n ei *chofio* hi wyt ti? Jyst fel *gofies* di Saesneg, hefyd?

Gavin: Ie, dywedodd Mr Pritchard bo' fi'n cofio rhai geiriau Saesneg hefyd.

Huw: O, *rhai geiriau Saesneg*. Digon i fynd a dweud stori Gruffudd wrth y byd, mae'n siŵr! Sut allwn i 'di fod mor ffôl? Wrth gwrs bo' ti'n gallu siarad Saesneg! Wel, paid ti â meddwl 'mod i'n mynd i fod mor ffôl eto. 'Wna' i frwydro yn dy erbyn di bob cam o'r ffordd! (*Yn cydio yn ei focs brechdanau ac yn ei ddal yn agos at ei frest hefyd*) Chei di ddim dwyn stori Gruffudd. 'Wna' i ddim fynd lawr heb ffeit!

Gavin: Reij, reij againsd ddy dai-ing of ddy lait.

*Mae **Huw** yn crynu yn ei ddiacter ac yn gwasgu ei waith yn agosach fyth at ei frest. Eistedda ar y gadair gan anwybyddu **Gavin**.*

Gavin: Cerdd yw hi. Gan Dylan Thomas. Gwnaeth Mr Pritchard ddysgu hi i fi.

*Nid yw **Huw** 'n ymateb.*

Gavin: Fi'n gwybod cerddi Cymraeg a Saesneg nawr.

*Nid yw **Huw** 'n ymateb.*

Gavin: Rwy'n mynd i weld Mam a Dad heddiw.

Dim ateb.

Gavin: Yng Nglyn Ebwy... Ebw Fêl. Fi'n gwybod y gair Saesneg nawr. Ebw Fêl.

Mae Huw yn cythruddo wrth glywed Gavin yn siarad Saesneg.

Huw: Mas â ti. Sa i mo'yn dy weld di'n agos at y lle 'ma eto.

Gavin: Ond beth am Gruffudd?

Huw: Sa i'n mynd i ddweud un gair arall wrtho' ti am Gruffudd.

Gavin: Ond 'wi mo'yn gwybod mwy am ei hanes e. 'Wi mo'yn bod fel ti. 'Wi mo'yn gwybod popeth...

Huw: Na, sa i'n mynd i drafod hanes Gruffudd na neb arall gyda ti rhagor.

Gavin: Ond 'wi mo'yn gwybod mwy...

Huw: Mas â ti. Fi 'di gwei'tho ti unwaith... A phaid â dod nôl...

Gavin: Ond gyda phwy fydda i'n gallu siarad Cymraeg wedyn?

Huw: Gelli di siarad gyda Mr Pritchard. Nawr, cer o 'ma.

Edrycha Gavin ar Huw.

Gavin: Hwyl fawr, te.

Try Huw ei gorff er mwyn anwybyddu Gavin. Dechreuwa Gavin gerdded ymaith gan daflu ambell olwg yn ôl at Huw. Wrth i Gavin adael a'r goleuadau bylu, mae'r golau ar y gist ganol yn parhau o hyd. Gwelir y llyfr yn cau ac yn symud tuag i lawr. Yna, â'r golau allan yn sydyn yn y gist.

Llyfryddiaeth

Ffynonellau Cynradd

Crimp, Martin (2007). *Attempts on Her Life* (arg. newydd, London: Faber and Faber)

Friel, Brian (1981). *Translations* (London: Faber and Faber)

Friel, Brian (2011). *Torri Gair*, cyf. Elan Closs Stephens (arg. newydd, Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch)

Greenblat, Stephen et al, goln. (1997). *The Norton Shakespeare* (New York: Norton)

Hughes, J. Elwyn, gol. (2001). *Dramâu Gwenlyn Parry: y Casgliad Cyflawn* (Llandysul: Gwasg Gomer)

James, Dafydd (2010). *Llwyth* (Caerdydd: Sherman Cymru)

Lewis, Gwyneth (2000). *Y Llofrudd Iaith* (Abertawe: Cyhoeddiadau Barddas)

Lewis, Saunders (1996). *Blodeuwedd*, yn Ioan Williams, gol. (1996). *Dramâu Saunders Lewis: y Casgliad Cyflawn, Cyfrol 1* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 221-286

- (1996). *Siwan*, yn Ioan Williams, gol. (1996). *Dramâu Saunders Lewis: y Casgliad Cyflawn, Cyfrol 1* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 533-590

Martell, Owen (2009). *Ceisio 'i Bywyd Hi* (Caerdydd: Sherman Cymru)

McGuinness, Frank (1986). *Observe the Sons of Ulster Marching Towards the Somme* (London: Faber and Faber)

Metz, Janus (2010). *Armadillo* (Denmark: Fridthjof Film) [Ffilm]

Miles, Gareth, (1991). *Y Bacchai gan Ewripides* (Aberystwyth: Y Ganolfan Astudiaethau Addysg)

Mitchell, Brian, gol. (1994). *Edward Thomas: Three Plays* (Bridgend: Seren)

Owen, Llwyd (2006). *Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau* (Talybont: Y Lolfa)

Parry, Gwenlyn (2001). *Y Ffin*, yn J. Elwyn Hughes, gol. (2001). *Dramâu Gwenlyn Parry: y Casgliad Cyflawn* (Llandysul: Gwasg Gomer), tt. 150-207

Parry, Thomas (1954). *Llywelyn Fawr: Drama Mewn Tair Act ac Epilog* (Lerpwl: Gwasg y Brython)

Povey, Meic (2003). *Tair* (3ydd arg., Caerdydd: Sgript Cymru)

Sam, Wil (1995). *Deg Drama Wil Sam* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch)

Shakespeare, William (1997a). *Hamlet*, yn Stephen Greenblatt et al, goln. (1997). *The Norton Shakespeare* (New York: Norton), tt. 1668-1756

- (1997b). *Othello*, yn Stephen Greenblatt et al, goln. (1997). *The Norton Shakespeare* (New York: Norton), tt. 2100-2174

Thomas, Edward (1994). *House of America*, yn Brian Mitchell, gol. (1994). *Edward Thomas: Three Plays* (Bridgend: Seren), tt. 11-100

Treize, Rachel (2005). *Fresh Apples* (Cardigan: Parthian)

Williams, Ioan, gol. (1996). *Dramâu Saunders Lewis: y Casgliad Cyflawn, Cyfrol 1* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)

Ffynonellau Eilaidd

Adams, David (1996). *Stage Welsh – Nation, Nationalism and Theatre: the search for cultural identity* (Llandysul: Gomer Press)

Brandt, George W., gol. (1998). *Modern Theories of Drama: A Selection of Writings on Drama and Theatre, 1840-1990* (Oxford: Clarendon Press)

Brooks, Simon (2004). *O Dan Lygaid y Gestapo* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)

Clancy, Joseph P. (1996). ‘Gwenlyn Parry a Barddoniaeth Theatr’, yn J. E. Caerwyn Williams, gol. (1996). *Ysgrifau Beirniadol XXI* (Dinbych: Gwasg Gee), tt. 212-221

Davies, James Kitchener (2002). ‘Y Ddrama Fawr Gymraeg: Pam Na Ddaeth Eto?’, yn Manon Rhys a M. Wynn Thomas, goln. (2002). *James Kitchener Davies: detholiad o'i waith* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 67-71

Dienw (2006). ‘Ffawd Cywilydd a Chenfigen’, *Taliesin*, 127, tt. 128-134

Dienw (2010). ‘Portreadu Dwy Gymdeithas drwy Ddwy Iaith’, *Golwg*, 22.38, tt. 24-25

Gilbert, Helen a Joanne Tompkins (1996). *Post-Colonial Drama: Theory, Practice, Politics* (London, New York: Routledge)

Griffiths, Paul (2011). ‘Gwefreiddiol’, *Y Cymro*, 29 Ebrill 2011, t. 11

Gleitman, Claire (2004). ‘Reconstructing History in the Irish History Play’, yn Shaun Richards, gol. (2004). *The Cambridge Companion to Twentieth-Century Irish Drama* (Cambridge: Cambridge University Press), tt. 218-230

Holdsworth, Nadine (2010). *Theatre and Nation* (Basingstoke: Palgrave Macmillan)

Hughes, J. Elwyn, gol. (2005). *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Eryri a'r Cyffiniau 2005* (Llys yr Eisteddfod)

Jones, Anwen (2007). *National Theatres in Context: France, Germany, England and Wales*

Jones, John Gwilym (1977). *Swyddogaeth Beirniadaeth* (Dinbych: Gwasg Gee)

Jones, Manon (2010). 'Owen Morgan Edwards, Hanesydd Cymreig', *Y Traethodydd*, 695, tt. 207-231

Lewis, Saunders (1968a). *Problemau Prifysgol* (Llandybïe: Llyfrau'r Dryw)

- (1968b). 'Rhagair', yn Saunders Lewis, (1968a). *Problemau Prifysgol* (Llandybïe: Llyfrau'r Dryw), tt. i-v

Maley, Willy a Philip Schwyzer (2010). *Shakespeare and Wales: from the Marches to the Assembly* (Farnham: Ashgate)

Mared, Gwenan (2008). 'Ein Tynnu o Fywyd Beunyddiol', *Taliesin*, 133, tt. 152-154

Martell, Owen (1998). "'Mae'r Pasiant Trosodd ym Mro Morgannwg'" (am flwyddyn arall, beth bynnag): Iolo Morganwg, yr Orsedd a'r Eisteddfod Genedlaethol', *Tu Chwith*, 10, tt. 76-97

Miles, Eiry (2009). 'Bydoedd Martin Crimp ac Owen Martell', *Barn*, 558/9, tt. 68-69

Owen, Roger (2003). *Ar Wasgar: Theatr a Chenedligrwydd yn y Gymru Gymraeg, 1979-1997* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)

- (2011). 'Llwyth – digwyddiad', *Barn*, 585, tt. 36-37

Pritchard, Elfyn, Bethan Mair a Catrin Puw Davies (2005). 'Beirniadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen', yn J. Elwyn Hughes, gol. (2005). *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Eryri a'r Cyffiniau 2005* (Llys yr Eisteddfod), tt. 92-100

Rabey, David Ian (1986). *British and Irish Political Drama in the Twentieth Century: Implicating the Audience* (Basingstoke: Macmillan)

Richards, Shaun, gol. (2004). *The Cambridge Companion to Twentieth-Century Irish Drama* (Cambridge: Cambridge University Press)

Ros, Nic (2006a). 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Nic Ros, gol. (2006b). *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn), tt. 7-16

- gol. (2006b). *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn)

Rhys, Manon a M. Wynn Thomas, goln. (2002). *James Kitchener Davies: detholiad o'i waith* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)

Strindberg, August (1998). 'Author's Preface to *Miss Julie*', yn George W. Brandt, gol. (1998). *Modern Theories of Drama: A Selection of Writings on Drama and Theatre, 1840-1990* (Oxford: Clarendon Press), tt. 89-98

Taylor, Anna-Marie, gol. (1997a). *Staging Wales: Welsh Theatre 1979-1997* (Cardiff: University of Wales Press)

- (1997b). 'Welsh Theatre and the World', yn Anna-Marie Taylor, gol. (1997a). *Staging Wales: Welsh Theatre 1979-1997* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 111-119

Theatr Genedlaethol Cymru (2010). *Rhaglen: Gwlad yr Addewid* (Caerfyrddin: Theatr Genedlaethol Cymru)

Williams, Ifor (1926a). 'Rhagair', yn Ifor Williams, cyf. (1926b). *Tŷ Dol: Drama Mewn Tair Act, gan Henrik Ibsen* (Bangor: Evan Thomas), tt. iii-vi

- cyf. (1926b). *Tŷ Dol: Drama Mewn Tair Act, gan Henrik Ibsen* (Bangor: Evan Thomas)

- (1946). *Meddwn I* (Llandybïe: Llyfrau'r Dryw)

Williams, Ioan (2006). *Y Mudiad Drama yng Nghymru 1880-1940* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)

Williams, J. E. Caerwyn, gol. (1996). *Ysgrifau Beirniadol XXI* (Dinbych: Gwasg Gee)

Williams, Sioned (2011). 'Marciau llawn (bron)', *Barn*, 585, tt. 55-56